

# **Gwerthusiad o'r Prosesau a ddefnyddir i Ddatblygu Polisi Cynllunio Cenedlaethol yng Nghymru**

Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru

# **Gwerthusiad o'r Prosesau a ddefnyddir i Ddatblygu Polisi Cynllunio Cenedlaethol yng Nghymru**

Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru

C3348 / Awst 2007

ECOTEC

► 6th Floor Friary House/  
6ed Llawr Ty'r Brodyr  
Grey Friars Place/  
Plas y Brodyr Llwydion  
Cardiff CF10 3AE/  
Caerdydd CF10 3AE  
Wales/Cymru

**T +44 (0)29 2036 7770**  
**F +44 (0)29 2036 7789**  
**[www.ecotec.com](http://www.ecotec.com)**

ECOTEC

Gwerthusiad o'r Prosesau a ddefnyddir i Ddatblygu Polisi Cynllunio Cenedlaethol yng Nghymru

	<b>Crynodeb Gweithredol .....</b>	<b>i</b>
<b>1.0</b>	<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
1.1	Penodi ECOTEC .....	1
1.2	Cydnabyddiaeth .....	1
1.3	<b>Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad .....</b>	<b>1</b>
1.3.1	Nod.....	1
1.3.2	Amcanion .....	1
1.4	<b>Cefndir.....</b>	<b>2</b>
1.5	<b>Ymagwedd a'r Gwaith a Wnaed .....</b>	<b>4</b>
1.5.1	Cychwyn.....	4
1.5.2	Ymchwil Ddesg.....	4
1.5.3	Astudiaeth Gymharu.....	5
1.5.4	Ymgynghori ag Awdurdodau Cynllunio Lleol .....	5
1.5.5	Ymgynghori â Rhanddeiliaid.....	6
1.5.6	Ymgynghori ar Ganfyddiadau Interim a Lledaenu Terfynol .....	6
1.6	<b>Statws yr Adroddiad.....</b>	<b>7</b>
1.7	<b>Strwythur yr Adroddiad .....</b>	<b>7</b>
<b>2.0</b>	<b>Fframwaith y Polisi Cynllunio.....</b>	<b>8</b>
2.1	<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>8</b>
2.2	<b>Cyd-destun.....</b>	<b>8</b>
2.2.1	Ewrop.....	8
2.2.2	Sefyllfa'r DU .....	8
2.2.3	Deddf Llywodraeth Cymru 2006 .....	9
2.2.4	Cyflwyniad i fframwaith polisi cynllunio Cymru .....	10
2.3	<b>Cynllunio yng Nghymru cyn Datganoli.....</b>	<b>11</b>
2.4	<b>Cynllunio: Cyflawni dros Gymru (PdW).....</b>	<b>13</b>
2.5	<b>Trosolwg o Bolisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru .....</b>	<b>13</b>
2.5.1	Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru.....	13
2.5.2	Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS).....	14
2.5.3	Canllaw Ategol .....	14
2.5.4	Nodiadau Cyngor Technegol.....	15
2.5.5	Cylchlythyrau.....	15
2.5.6	Llythyrau Cylchlythyr .....	15
2.5.7	Cynllun Gofodol Cymru .....	15

2.5.8	Ymchwil Gynllunio yng Nghymru .....	16
2.6	<b>Casgliadau Strategol</b> .....	<b>17</b>
<b>3.0</b>	<b>Trosolwg Cymharu</b> .....	<b>18</b>
3.1	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>18</b>
3.2	<b>Pam ystyried y Cymaryddion hyn?</b> .....	<b>18</b>
3.3	<b>Y System Gynllunio Gyfredol yn Lloegr</b> .....	<b>18</b>
3.3.1	Adolygiad Barker o Gynllunio Defnydd Tir yn Lloegr .....	19
3.3.2	Cynllunio ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy: Papur Gwyn .....	21
3.3.3	Ymchwil Gynllunio yn Lloegr .....	21
3.4	<b>Y System Gynllunio Gyfredol yn yr Alban</b> .....	<b>21</b>
3.4.1	Ymchwil Gynllunio yn yr Alban .....	24
3.5	<b>Y System Gynllunio Gyfredol yn Iwerddon</b> .....	<b>24</b>
3.5.1	Ymchwil Gynllunio yn Iwerddon .....	26
3.5.2	Cydweithredu ar draws Ffiniau .....	26
3.6	<b>Casgliadau Strategol</b> .....	<b>27</b>
<b>4.0</b>	<b>Y Broses o Ddatblygu Polisi</b> .....	<b>28</b>
4.1	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>28</b>
4.2	<b>Ffynonellau Tystiolaeth</b> .....	<b>28</b>
4.3	<b>Y Broses Adolygu</b> .....	<b>30</b>
4.4	<b>Defnyddio Gwaith Ymchwil</b> .....	<b>31</b>
4.5	<b>Dulliau Drafftio</b> .....	<b>32</b>
4.5.1	PCC a Fforwm Cynllunio Cymru .....	32
4.5.2	Drafftio'n Fewnol .....	32
4.5.3	Grwpiau Cyngori Technegol .....	33
4.5.4	Ymgynghorwyr .....	35
4.6	<b>Mecanweithiau Ymgynghori</b> .....	<b>35</b>
4.6.1	Hysbysu am Ymgynghoriadau.....	36
4.6.2	Amserlen .....	36
4.6.3	Cwestiynau'r Ymgynghoriad .....	36
4.6.4	Adborth o Ymgynghoriadau.....	37
4.7	<b>Lledaenu</b> .....	<b>38</b>
4.8	<b>Nodi a dod o hyd i bolisi a chanllawiau</b> .....	<b>39</b>
4.9	<b>Cynhwysedd</b> .....	<b>40</b>
4.10	<b>Adnoddau Staff</b> .....	<b>41</b>
4.11	<b>Casgliadau Strategol</b> .....	<b>42</b>
<b>5.0</b>	<b>Cwmpas a Manylion y Polisi Cenedlaethol</b> .....	<b>44</b>

<b>5.1</b>	<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>44</b>
<b>5.2</b>	<b>Y Fframwaith .....</b>	<b>44</b>
<b>5.3</b>	<b>Polisi Cynllunio Cymru .....</b>	<b>45</b>
<b>5.4</b>	<b>Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) .....</b>	<b>46</b>
5.4.1	Elfen Ofodol y TANs .....	46
<b>5.5</b>	<b>Dogfennau Cyfarwyddyd .....</b>	<b>47</b>
<b>5.6</b>	<b>Polisi Mwynau .....</b>	<b>48</b>
<b>5.7</b>	<b>Cydweddu ag Egwyddorion Craidd y Cynulliad .....</b>	<b>48</b>
<b>5.8</b>	<b>Cyfatebolrwydd â Pholisïau Eraill y Cynulliad .....</b>	<b>49</b>
<b>5.9</b>	<b>Fformat y Canllawiau a'r Polisi Cenedlaethol .....</b>	<b>51</b>
<b>5.10</b>	<b>Casgliadau Strategol .....</b>	<b>52</b>
<b>6.0</b>	<b>Gwersi o Fannau Eraill .....</b>	<b>54</b>
<b>6.1</b>	<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>54</b>
<b>6.2</b>	<b>Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Lloegr .....</b>	<b>55</b>
6.2.1	Mecanweithiau ar gyfer Cynhwysedd Allanol .....	55
6.2.2	Profiad o Gynnwys Pobl Leyg (Pobl nad ydynt yn Gynllunwyr) .....	56
6.2.3	Ymgynghori .....	56
6.2.4	Cyfatebolrwydd rhwng Polisïau Cenedlaethol .....	56
6.2.5	Sut gaiff y Polisi ei Gyflwyno? .....	56
<b>6.3</b>	<b>Cynulliad Rhanbarthol Gogledd-orllewin Lloegr .....</b>	<b>57</b>
6.3.1	Y Broses Ymgynghori .....	57
6.3.2	Profiad o Gynnwys Pobl Leyg (Pobl nad ydynt yn Gynllunwyr) .....	58
<b>6.4</b>	<b>Yr Alban .....</b>	<b>58</b>
6.4.1	Cynnwys Sefydliadau Allanol .....	58
6.4.2	Profiad o Gynnwys Pobl Leyg (Pobl nad ydynt yn Gynllunwyr) .....	59
6.4.3	Cyfatebolrwydd rhwng Polisïau Cenedlaethol .....	60
6.4.4	Ymgynghori .....	60
<b>6.5</b>	<b>Gweriniaeth Iwerddon .....</b>	<b>60</b>
6.5.1	Cysylltiadau ar draws y Llywodraeth .....	60
<b>6.6</b>	<b>Yr Iseldiroedd .....</b>	<b>61</b>
6.6.1	Cyfatebolrwydd rhwng Polisïau Cenedlaethol .....	62
6.6.2	Cynnwys Sefydliadau Allanol .....	62
6.6.3	Ymgynghori .....	63
<b>6.7</b>	<b>Flanders, Gwlad Belg .....</b>	<b>63</b>
6.7.1	Cynnwys Sefydliadau Allanol .....	64
6.7.2	Pobl Leyg .....	64
<b>6.8</b>	<b>Y Swistir .....</b>	<b>64</b>
6.8.1	Cynnwys Sefydliadau Allanol .....	65

<b>6.9</b>	<b>Colombia Prydeinig</b> .....	<b>66</b>
6.9.1	Y Broses o Ddatblygu Polisi .....	66
<b>6.10</b>	<b>Talaith Washington</b> .....	<b>68</b>
<b>6.11</b>	<b>Singapore</b> .....	<b>69</b>
6.11.1	Cynnwys Pobl Leyg.....	70
6.11.2	Cyfatebolrwydd rhwng Polisiâu Cenedlaethol .....	70
<b>6.12</b>	<b>Rhanbarth INTERREG Môr y Gogledd</b> .....	<b>71</b>
<b>6.13</b>	<b>Casgliadau Strategol</b> .....	<b>72</b>

<b>7.0</b>	<b>Casgliadau ac Argymhellion</b> .....	<b>74</b>
<b>7.1</b>	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>74</b>
<b>7.2</b>	<b>Gwersi o fannau eraill</b> .....	<b>75</b>
<b>7.3</b>	<b>Prosesau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid</b> .....	<b>77</b>
<b>7.4</b>	<b>Cwmpas a Manylion Polisi a Chanllawiau</b> .....	<b>83</b>
<b>7.5</b>	<b>Fformat a Diweddarau</b> .....	<b>84</b>
<b>7.6</b>	<b>Integreiddio Polisi Cynllunio Defnydd Tir a Pholisi Mwynau</b> .....	<b>86</b>
<b>7.7</b>	<b>Crynodeb o'r Argymhellion</b> .....	<b>86</b>

**Atodiad Un: Astudiaethau Achos Polisi a Chanllawiau** ..... **A1**

**Atodiad Dai: Llyfryddiaeth** .....

**A27**

**Atodiad Tri: Ymgylgoreion** .....

**A31**

**Atodiad Pedwar: Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cymru** ..... **A36**

#### **Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1.1	Astudiaethau Achos .....	5
Ffigur 3.1	Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn Lloegr .....	19
Ffigur 3.2	Polisi Cynllunio yn yr Alban .....	23
Ffigur 4.1	Amserlenni'r Astudiaethau Achos.....	29

#### **Rhestr o dablau**

Tabl 2.1	Rolau'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa .....	9
Tabl 2.2	Polisi Cynllunio yng Nghymru: amserlen .....	12

# Crynodeb Gweithredol

---

Nod yr astudiaeth hon yw "gwerthuso'r prosesau i ddatblygu polisi cynllunio a gwneud argymhellion penodol ar gyfer gwella, ynghyd ag asesu sut y dylai'r polisi gael ei gyflwyno."

Mae gan yr astudiaeth nifer o amcanion, fel a ganlyn:

- 1 Gwerthuso'r fethodoleg / prosesau presennol ar gyfer llunio polisi cynllunio a chyngor technegol.
- 2 Ystyried sut y caiff y broses o ddatblygu polisi cynllunio ei gynnal mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (DU) ac Ewrop, a chynnig dadansoddiad cymharol yn disgrifio'r gwersi y gellid eu dysgu yng Nghymru.
- 3 Cynghori ar y cwmpas priodol a lefel manylder y polisi cynllunio cenedlaethol sydd ei hangen i gefnogi system y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a'r broses o wneud penderfyniadau effeithlon.
- 4 Gwneud argymhellion ar gyfer adolygu polisi cynllunio a chyngor yn y dyfodol, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- 5 Ystyried fformat ar gyfer cyflwyno polisi cynllunio yng Nghymru (yn nhermau ei strwythur a'r ffurf o'i gyflwyno) a gwneud argymhellion penodol ar gyfer ei gynnal a'i ddiweddarau.
- 6 Asesu p'un a ddylai polisi cynllunio mwynau gael ei integreiddio gyda chyngor polisi cynllunio arall.

Cynhaliwyd y gwerthusiad drwy gyfrwng cyfuniad o ymchwil ddesg ac ymgynghoriadau. Yn ogystal ag adolygiad cefndirol o lenyddiaeth er mwyn rhoi'r gwerthusiad yn ei gyd-destun, aethom ati i ddadansoddi cyfres o ddeg dogfen polisi a chanllawiau, gan ystyried sut y cawsant eu paratoi, gan gynnwys yr amser a gymerwyd. Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl â phob un o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yng Nghymru, yn ogystal â chyfres o gyfweiliadau i ystyried safbwyntiau o'r tu allan i'r ACLIau. Cynhaliwyd nifer o gyfweiliadau ad hoc hefyd er mwyn edrych ar agweddau penodol yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned y tu allan i'r maes cynllunio. Roedd yr ymgynghoriadau hyn yn fodd i gael mewnbwn gwerthfawr oddi wrth amrywiol safbwyntiau ar gyfer llywio'r gwerthusiad hwn. Ar ôl drafftio'r adroddiad, cynhaliwyd dau ddigwyddiad i drafod y casgliadau.

## Fframwaith Polisi Cynllunio Cymru

Wrth edrych yn gyffredinol ar fframwaith polisi cynllunio defnydd tir Cymru, rydym yn dod i'r casgliadau canlynol:

- Mae'r cyfrifoldeb dros bolisi cynllunio defnydd tir wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad.
- Atgyfnerthwyd y cyfrifoldeb hwn ymhellach gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; yn awr, gall y Cynulliad wneud cais am bwerau i wneud deddfwriaeth drwy gyfrwng Mesurau'r Cynulliad.
- Ers datganoli, maer polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru wedi datblygu'i fframwaith nodedig ei hun.
- Gyda'i gilydd, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC) yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol i Gymru. Caiff PCC ei ddiweddarau trwy gyfrwng Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS).
- Defnyddir Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs) i gynnig cyngor a chanllawiau technegol i gefnogi polisiau PCC a PCMC.
- Defnyddir llythyrau cylch gwaith i egluro darnau penodol o ddeddfwriaeth.
- Mae Cynllun Gofodol Cymru, er ei fod y tu allan i'r fframwaith cynllunio defnydd tir ffurfiol, yn bolisi cenedlaethol pwysig y dylid ei ystyried ym mhroses y CDLI.
- Mae Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru (WPRP) yn darparu gwaith ymchwil i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi.

## **Y Broses o Ddatblygu Polisi**

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu canllawiau a pholisi cynllunio yng Nghymru.

- Yn gyffredinol, mae'r broses o ddatblygu polisi yn briodol ac mae ei defnyddwyr yn ei chefnogi. Serch hyn, byddai modd gwella neu addasu rhai agweddau o'r broses.
- Mae ymwybyddiaeth o adolygiadau a diweddariadau ar eu cynnydd yn gyffredinol isel ymysg y gymuned gynllunio ehangach. Byddai rhanddeiliaid allanol yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r flaenraglen, a byddai hyn yn eu helpu i baratoi ar gyfer adolygiadau'r dyfodol.
- Mae gwaith ymchwil yn hanfodol, fodd bynnag, mae angen sicrhau ei fod yn fwy perthnasol i'r broses adolygu polisi. Teimlwyd hefyd y dylid edrych ar ffyrdd o rannu adnoddau er mwyn ariannu gwaith ymchwil perthnasol, er enghraifft mewn cydweithrediad â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG). Caiff argymhellion manylach o safbwynt gweithgareddau ymchwil eu hystyried ar wahân yn Adolygiad Pum Mlynedd a Gwerthusiad Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru, 2006. Lle bo hynny'n briodol, gwnaed cysylltiadau ag argymhellion yr adroddiad hwn.



- Mae Fforwm Cynllunio Cymru a'i is-grwpiau wedi bod yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer datblygu cysylltiadau gwaith rhwng yr Is-adran Gynllunio a rhanddeiliaid allanol, er y byddai modd ei addasu i wella dialog a datblygu ei rôl ymhellach.
- Byddai'n ddefnyddiol casglu safbwyntiau cyn y broses ddrafftio er mwyn codi materion y gellid eu hystyried wrth ddrafftio. Gallai hyn ystyried sut y mae polisi a chanllawiau presennol wedi gweithio a nodi unrhyw ddiffygion wrth eu rhoi ar waith. Gallai seinfyrddau sy'n ymgysylltu â'r gymuned ehangach fod yn fecanwaith defnyddiol yn hyn o beth.
- Mae'n hanfodol cynnwys rhanddeiliaid yn effeithiol yn y broses ddrafftio. Nodwyd nifer o faterion sy'n effeithio ar weithrediad y grwpiau rhanddeiliaid ac a all ddylanwadu ar allu unigolion i gymryd rhan. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
  - ▶ Cyfyngiadau amser a gallu unigolion a sefydliadau;
  - ▶ Grwpiau o faint optimwn;
  - ▶ Defnyddio cyfranogwyr yn effeithiol;
  - ▶ Rolau clir a dealladwy i aelodau; a
  - ▶ Chynnwys y bobl fwyaf priodol.
- Mae'r Grwpiau Cyngor Technegol (TAGs) yn grwpiau defnyddiol ar gyfer datblygu TANs a dylid eu cadw, er bod angen adolygu eu trefniadau gweithredol a'u haelodaeth yn unol â'r ffactorau uchod.
- Bu rhai achosion lle cafodd adnoddau eu lleihau neu eu dargyfeirio o brosesau adolygu sydd eisoes ar y gweill; mae hyn wedi achosi oedi yn y broses adolygu. Wrth ddechrau'r broses adolygu, caiff disgwyliadau allanol eu codi a gall fod yn niweidiol i gysylltiadau â chyrrff allanol os na chaiff y disgwyliadau hyn eu bodloni. Gellir cyfiawnhau defnyddio ymgynghorwyr i ymestyn adnoddau a hefyd lle mae angen cefnogaeth a gwybodaeth arbenigol.
- Mae rhai grwpiau yn teimlo bod y cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, yn enwedig y rheini sydd angen cyflwyno gwybodaeth i bwyllgorau neu fyrddau rheoli a grwpiau ymbarel er mwyn iddynt raeadru'r wybodaeth honno i aelodau. Fodd bynnag, ceir amharodrwydd i ymestyn y cyfnod hwn, am y byddai hynny'n ymestyn proses sydd eisoes yn broses hir.
- Roedd yn amlwg bod angen mwy o ryngweithio o safbwynt yr ymarferion ymgynghori. Mae'n ddefnyddiol defnyddio cwestiynau ar gyfer llywio ymatebion ymgynghori, er bod llawer yn teimlo eu bod yn cyfyngu ar ymatebion, ac nid oeddent yn siwr sut oedd y Cynulliad yn defnyddio'r ymatebion a roddir y tu allan i'r cwestiynau. Codwyd mater pwysig arall, sef diffyg adborth ar yr ymatebion ymgynghori a sut y cant eu defnyddio. Mae'r rhain oll yn ffactorau pwysig wrth barhau â'r deialog ac wrth feithrin perthynas effeithiol â rhanddeiliaid.

- Yn gyffredinol, mae angen gwella cyfathrebu drwy gydol y broses polisi, yn amrywio o wybodaeth am adolygiadau'r dyfodol, eu cynnydd, a pha bryd y bydd ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi. Mae'r blaenrybudd hwn yn bwysig wrth annog a galluogi'r ystod gyfan o randdeiliaid i ymgysylltu, gan gynnwys hyrwyddo buddiannau ehangach nad ydynt yn ymwneud â chynllunio. Hefyd, mae angen cael gwybodaeth sy'n cefnogi'r ddealltwriaeth o ganllawiau a pholisi newydd a diwygiedig.
- Mae diffyg hyder wrth wybod pa bolisi a deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sydd ar gael ac ymhle i ddod o hyd i ddogfennau. Nodwyd bod Mynegai Cynllunio Cymru yn ddogfen ddefnyddiol. Fodd bynnag, ni chaiff ei diweddarau'n rheolaidd ac nid yw'n cynnwys Deddfwriaeth Sylfaenol nag Is-ddeddfwriaeth.
- Mae angen ystyried cynnwys grwpiau cymunedol ehangach, ond dylid gwneud hyn drwy ddull sy'n effeithlon o safbwynt adnoddau a'i reoli mewn ffordd nad yw'n codi disgwyliadau na ellir eu diwallu.
- Problem sylfaenol arall a oedd yn gysylltiedig â'r holl ffactorau hyn oedd diffyg adnoddau staff yn Is-adran Gynllunio'r Cynulliad i gefnogi'r broses.

### **Cwmpas a Manylion y Polisi Cenedlaethol**

Wrth edrych ar gwmpas a manylion polisi cynllunio cenedlaethol Cymru, ystyriwyd yr astudiaethau achos a'r amrywiol gyfweiliadau ymgynghori a'r gweithdai a gynhaliwyd. Gellir crynhoi'r canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Ceir cefnogaeth gyffredinol i fframwaith y TAN a'r PCC, a dylid dal gafael arno. Ni cheir unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y dylid ailfeddwl y fframwaith a ddefnyddir yng Nghymru yn gyfan gwbl.
- Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiad rhwng y polisi a'r canllawiau yn glir yn y naill fath o ddogfen na'r llall.
- Mae'r PCC yn ddogfen gadarn, sy'n cynnig un ddogfen polisi cenedlaethol ystyrion.
- Fodd bynnag, nid yw fformat y PCC yn ei gwneud yn hawdd i'w diweddarau. Mae angen newid y fformat cyhoeddi er mwyn hwyluso adolygiadau / diweddariadau.
- Yn gyffredinol, mae'r polisi cenedlaethol yn cefnogi proses y CDLI.
- Lle caiff diffiniadau gofodol eu cynnwys o fewn canllawiau cenedlaethol, mae angen i'r sail dystiolaeth fod yn briodol er mwyn osgoi camgymeriadau, ac mae angen nodi rhesymeg y persbectif gofodol yn glir, a'i gyfiawnhau.
- Mae angen atgyfnerthu'r berthynas rhwng y polisi cynllunio a pholisïau cenedlaethol eraill, a'i diffinio'n gliriach, yn enwedig Cynllun Gofodol Cymru a'i waith is-ranbarthol.

## Gwersi o Fannau Eraill

Gan dynnu ar drosolwg o systemau a fabwysiadwyd yn Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon, gallwn weld nifer o gymariaethau allweddol â Chymru:

- Mae Lloegr a'r Alban wedi parhau i ddefnyddio system o ddogfennau polisi unigol, a elwir yn 'Planning Policy Statements (PPSs)' a 'Scottish Planning Policy Statements (SPPs)' yn y drefn honno, yn hytrach na dogfen gyffredinol fel a geir yng Nghymru, sef y PCC;
- Ers datganoli, mae'r system gynllunio yn cael ei chydabod fwyfwy fel system gwbl ar wahân i'r system yn Lloegr. Drwy fabwysiadu'r PCC, mae Cymru wedi ffafrio fframwaith sy'n defnyddio un polisi trosfwaol ar gyfer cynllunio defnydd tir, wedi'i gefnogi gan gyfres o gyngor technegol, drwy gyfrwng TANs, ac mae'r seiliau hyn yn ei gosod ar wahân i Lloegr neu'r Alban;
- Mae Adolygiad Barker, sy'n rhoi pwyslais mawr ar symleiddio'r system gynllunio, yn cwestiynu a yw'r system yng Nghymru yn llwyddo i wneud hynny, ac awgryma y gallai gyfyngu ar hyblygrwydd y llywodraeth i adolygu polisi;
- Mae gan bob un o'r tair system raglen ymchwil weithgar i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi, a chaiff hon ei gweld fel cyfran bwysig o'r holl fframweithiau;
- Ymddengys fod yr Alban yn ffafrio ymagwedd gynhwysol tuag at ddatblygu polisi cynllunio ar lefel leol ac mae wedi creu PAN penodol ar gyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol;
- Ceir gwahaniaethau mawr yn natur Cynllun Gofodol Cymru, a Strategaethau Gofodol Rhanbarthol Lloegr (RSS), a gaiff eu hintegreiddio o fewn y system gynllunio. Cânt eu gweld fel offerynnau gwahanol, ac nid oes modd eu cymharu;
- Yn Iwerddon, caiff polisi cynllunio cenedlaethol ei integreiddio'n agosach â'r Strategaeth Ofodol Genedlaethol (NSS) – sy'n cyfateb â Chynllun Gofodol Cymru – sy'n rhan o'r system gynllunio. Rhydd hyn hierarchaeth o gynlluniau i gefnogi'r broses o reoli datblygiadau ac i lywio polisiau eraill sy'n ymwneud â chynllunio.

Mae ystyried arferion gwahanol ranbarthau a gwledydd wedi hwyluso'r gwaith o nodi agweddau ar systemau neu brosesau y gellid eu mabwysiadu fel offerynnau defnyddiol i gefnogi rhai o argymhellion yr adroddiad hwn. Awn ati nesaf i amlygu'r pwyntiau allweddol sy'n berthnasol i'r sefyllfa yng Nghymru:

- Mewn nifer o achosion, caiff y broses draddodiadol o gynllunio defnydd tir ei hintegreiddio'n agosach â chynllunio gofodol, o safbwynt dyrannu adnoddau, nag yng Nghymru. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i alinio strategaethau cenedlaethol yn

agosach o ran eu cymhwyso'n ofodol. Mae'r enghreifftiau o Iwerddon, yr Iseldiroedd, Singapore a Cholombia Prydeinig yn cyfleu hyn yn arbennig o dda.

- Rhydd y Swistir bwyslais mawr ar dynnu camau gweithredu a pholisïau cenedlaethol ynghyd. Mae'r Prif Swyddog Cynllunio yn Singapore yn chwarae rôl gref wrth gydlynu camau gweithredu gan asiantaethau eraill. Mae gan yr Iseldiroedd broses gadarn iawn o gydlynu polisïau cenedlaethol, gan fod pob un yn destun trafodaeth ddwys, a hynny yn y Llywodraeth ac yn y maes yn ehangach, ac mae'n rhaid i'r holl weinidogaethau eu cymeradwyo cyn bod modd i'r Senedd eu cymeradwyo a'u hargymell, er bod hyn yn golygu ei bod yn broses hirfaith.
- Ar gyfer adolygiadau polisi sylweddol, mae digwyddiad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) / Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref (RTPI) sy'n cynnwys ystod o randdeiliaid, gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli sectorau'r gymuned, yn achos defnyddiol. Mae'r defnydd o TG i hwyluso'r digwyddiad hwn yn arbennig o adeiladol.
- Mae TG yn offeryn defnyddiol, yn enwedig fel ffordd ymarferol o gyflwyno gwybodaeth i grwpiau ehangach a sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod yr offerynnau a ddefnyddir wedi'u teilwra ac wedi'u hintegreiddio i grwpiau eraill. Mae prosiect 'Interreg E Voice' Môr y Gogledd yn cyflwyno syniadau diddorol ar ddefnyddio TG i gynnwys grwpiau cymunedol yn effeithiol. Rhydd Cynulliad Rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr (NWRA) esiampol o ddefnyddio TG ar gyfer grwpiau ymgynghori ehangach. Serch hyn, yn achos pob un o'r enghreifftiau hyn, erys y broblem o sut i ddangos i'r rheini nad ydynt yn gynllunwyr pa mor berthnasol yw'r polisi cynllunio cenedlaethol iddynt hwy.
- Canfuwyd bod defnyddio grwpiau ymbarel yn fecanwaith defnyddiol i gysylltu â chymunedau ehangach. Er enghraifft, aeth y NWRA ati i weithio gyda Chymorth Cynllunio yn Lloegr, a bu Gweithrediaeth yr Alban yn gweithio gyda Chymorth Cynllunio yr Alban.
- Gwelwyd bod defnyddio sesiynau briffio a gweithdai i helpu i gynyddu dealltwriaeth o bolisi a chanllawiau newydd neu ddiwygiedig yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn Nhalaith Washington.
- Yn Iwerddon, mae'r is-adran gynllunio fach yn gweithio gyda nifer fawr o grwpiau, ac mae hyn yn rhoi baich trwm ar eu hadnoddau. Maent wedi canfod fod cyfnewid staff proffesiynol rhwng lefelau lleol a chenedlaethol wedi helpu i sicrhau eu bod yn fwy ymwybodol o faterion ac yn gallu ymateb iddynt yn gynt.

## **Casgliadau ac Argymhellion**

Mae'r gwerthusiad hwn o'r prosesau a ddefnyddir i ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru yn cyfleu pedair neges sylfaenol.

Yn gyntaf, mae'r fframwaith o ddefnyddio PCC fel un ddogfen bolisi wedi'i hategu gan gyngor technegol drwy gyfrwng TANS, yn effeithiol ac ni ddylid newid y system yn gyfan gwbl yng Nghymru.

Mae a wnelo'r ail neges â'r gwaith o ddarparu adnoddau effeithiol i'r broses drwy gydol y cylch polisi. Mae angen adnoddau staff ychwanegol er mwyn cyflwyno llawer o'r argymhellion, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â chyfathrebu ac ymgysylltu. Byddai'r rhain yn eu tro yn cefnogi'r broses polisi, gan ychwanegu gwerth at yr hyn y gall ei gyflawni. Cynigwn fod hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy gynyddu maint yr Is-adran Gynllunio. Gellir cyflawni hyn hefyd drwy weithio gyda sefydliadau a rhwydweithiau priodol, megis RTPI, Cymorth Cynllunio Cymru a grwpiau ymbarel eraill. Gallai hyn gynnwys lledaenu gwybodaeth a gweithgareddau a digwyddiadau ar y cyd. Mae'n bosibl y byddai'n effeithiol o safbwynt adnoddau ac yn gost-effeithiol i ddarparu gwasanaethau priodol drwy gontractau allanol.

Yn drydydd, byddai gwella'r cyfathrebu drwy gydol y broses yn helpu i ymgysylltu â'r gymuned gynllunio ac yn helpu i hyrwyddo ymagwedd gynhwysol o ran y rheini nad ydynt yn gynllunwyr. Dylid cyfathrebu o safbwynt yr amserlen polisi, yn ogystal â chynyddu dealltwriaeth o'r rhesymeg a diben y polisi a chanllawiau drafft a'r polisi a chanllawiau presennol. Mae cynnwys rhanddeiliaid wrth lywio'r cylch polisi a chyfrannu at y broses o ddrafftio polisi a chanllawiau yn rhan o hyn.

Yn olaf, mae'n bwysig bod y broses yn hyrwyddo'r gwaith o alinio strategaethau a pholisïau cenedlaethol, o safbwynt cynllunio defnydd tir. At hyn, byddai gwella mecanweithiau mewnol ar gyfer cyfathrebu o gymorth. Drwy alinio polisïau cenedlaethol, byddai mwy o sicrwydd a negeseuon cliriach i'r rheini sy'n defnyddio'r polisïau, gan gynnwys buddsoddwyr.

Rhydd y tabl canlynol grynodedeb o'r argymhellion, gan eu graddio yn ôl eu pwysigrwydd i'w gilydd.

## Crynodeb o Argymhellion

Argymhelliad	Gradd	Amserlen
1 Gwella Cyfathrebu Cylchlythyr Chwarterol Gwasanaeth hysbysu drwy'r e-bost Cyfathrebu â grwpiau ymbarel	Canolog Canolog Uchel	Canolog Canolog Byr
2 Rhestr o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth bresennol, polisi a chanllawiau, a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd	Canolog	Byr
3 Digwyddiadau briffio i Hyrwyddo Dealltwriaeth o Bolisi a Chanllawiau	Canolog	Canolog
4 Diwygio Fforwm Cynllunio Cymru	Canolog	Canolog
5 Datblygu cysylltiadau agosach rhwng yr holl agweddau ar y cylch polisi	Canolog	Byr
6 Casglu Safbwyntiau cyn Ymgynghori	Canolog	Canolog
7 Cynnwys Rhanddeiliaid yn y broses Ddrafftio	Uchel	Parhaus
8 Ymgysylltu drwy'r Broses Ymgynghori Blaenrybuddio Defnyddio cwestiynau Digwyddiadau i egluro cefndir	Uchel Uchel Isel	Parhaus Parhaus Long
9 Cynyddu Adnoddau Staff	Uchel	Byr
10 Alinio Polisiâu Cenedlaethol â Chynllunio Defnydd Tir	Uchel / Canolog	Parhaus
11 Fframwaith ar gyfer cyflwyno canllawiau a pholisi newydd i'r CDLI sy'n dod i'r amlwg	Canolog	Parhaus
12 Diffiniadau Gofodol mewn polisi cynllunio cenedlaethol	Canolog	Parhaus
13 Adolygiad Diweddar o Bolisi a Chanllawiau	Canolog	Canolog
14 Cynhyrchu Dogfennau Arferion Gorau	Isel	Canolog
15 Egluro Statws Polisi Drafft	Canolog	Canolog
16 Cadw fframwaith cyfredol y PCC a TANs	Uchel	Byr
17 Strwythur cyffredin ar gyfer TANs ac MTANs	Isel	Parhaus
18 Copi Caled o Fformat Dalen Rydd	Uchel	Canolog
19 Fersiynau Electronig	Uchel	Parhaus
20 Cynnwys y Ddogfen	Uchel	Parhaus
21 Gwella'r Wefan	Canolog	Parhaus
22 Cyflwyniadau i hyrwyddo dealltwriaeth	Canolog	Parhaus
23 Integreiddio cynllunio mwynau a defnydd tir	Isel	PCC nesaf

# 1.0 Cyflwyniad

---

## 1.1 Penodi ECOTEC

Penodwyd Ymchwil ac Ymgynghori ECOTEC Cyf (ECOTEC) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (y Cynulliad) ym mis Ionawr 2007 i werthuso'r prosesau a ddefnyddir i ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru.

## 1.2 Cydnabyddiaeth

Hoffai ECOTEC gydnabod y mewnbwn gwerthfawr a gafwyd gan Patsy Healy, Cliff Hague a Christabel Myers, am eu cyfraniad at yr astudiaeth gymharu ac wrth nodi prosesau ac offerynnau a defnyddir gan awdurdodau cynllunio rhanbarthol eraill.

## 1.3 Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad

Rhydd y dogfennau tendro<sup>1</sup> ddisgrifiad clir o nodau ac amcanion y gwerthusiad.

### 1.3.1 Nod

Nod yr astudiaeth yw "*gwerthuso'r prosesau ar gyfer datblygu polisi cynllunio a gwneud argymhellion penodol ar gyfer gwella, ynghyd ag asesu sut y dylai'r polisi gael ei gyflwyno.*"

### 1.3.2 Amcanion

Mae gan yr astudiaeth nifer o amcanion, fel a ganlyn:

- 1 Gwerthuso'r fethodoleg / prosesau presennol ar gyfer llunio polisi cynllunio a chyngor technegol.
- 2 Ystyried sut y caiff y broses o ddatblygu polisi cynllunio ei gynnal mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (DU) ac Ewrop, a chynnig dadansoddiad cymharol yn disgrifio'r gwersi y gellid eu dysgu yng Nghymru.
- 3 Cyngori ar y cwmpas priodol a lefel manylder y polisi cynllunio cenedlaethol sydd ei hangen i gefnogi system y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a'r broses o wneud penderfyniadau effeithlon.
- 4 Gwneud argymhellion ar gyfer adolygu polisi cynllunio a chyngor yn y dyfodol, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid.

<sup>1</sup> Manyleb ar gyfer contract i werthuso'r prosesau a ddefnyddir i ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru (Rhif y Contract: 236/2006): Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006

- 5 Ystyried fformat ar gyfer cyflwyno polisi cynllunio yng Nghymru (yn nhermau ei strwythur a'r ffurf o'i gyflwyno) a gwneud argymhellion penodol ar gyfer ei gynnal a'i ddiweddarau.
- 6 Asesu p'un a ddylai polisi cynllunio mwynau gael ei integreiddio gyda chyngor polisi cynllunio arall.

## 1.4 Cefndir

Mae *Cymru: Gwlad Well*<sup>2</sup> yn nodi agenda strategol y Cynulliad. Mae'n nodi:

**".. Mae'r ffordd y mae'n gweithio yn bwysig iawn i Lywodraeth y Cynulliad. Er mwyn inni gyflawni ein gweledigaeth mae'n rhaid i bob rhan o gymdeithas gymryd rhan a rhaid rhoi'r grym i bobl wneud gwahaniaeth. Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau y bobl hynny y mae ein polisiau yn effeithio arnynt a'r bobl hynny sy'n gweithio ar lawr gwlad i weithredu polisiau a rhaglenni."**

Wrth ddatblygu'r polisi cynllunio yng Nghymru, rhaid ymlynu wrth nifer o rwymedigaethau statudol, yn ogystal â'r angen i sicrhau'r bod y broses yn gynhwysol, fel y nodir yn *Cymru: Gwlad Well*. Mae'r ddau ffactor hyn, fel yr amlygir yn y briff, yn esgor ar angen am lefel uchel o adnoddau, sef staff yn bennaf, a phroses hirfaith. Mae amser y broses yn ffactor pwysig, oherwydd gall sail bolisi, neu hyd yn oed sail dechnolegol yn achos rhai polisiau, newid, gan olygu bod y polisi yn amrywio.

Mae rhaglen gorfforaethol y Cynulliad: *Creu'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*<sup>3</sup> yn ceisio sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno yn effeithiol, a chaiff ei hategu gan bedair egwyddor ar gyfer gwella gwasanaeth:

- canolbwyntio ar y dinesydd;
- cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol;
- cydweithio fel gwasanaeth cyhoeddus Cymru; a
- gwerth am arian.

Cyhoeddodd y Cynulliad ei gynllun gweithredu pum mlynedd, *Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*<sup>4</sup> i weithredu uchelgeisiau strategol ei raglen gorfforaethol. O safbwynt cynllunio, mae *Cyflawni'r Cysylltiadau* yn diwygio canllawiau i sicrhau bod cymunedau a busnesau yn ymwneud yn gynnar ac yn barhaus yn y broses o lunio CDLlau ac yn cefnogi pob awdurdod lleol wrth ddatblygu gwasanaethau e-gynllunio.

<sup>2</sup> Cymru: Gwlad Well, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003

<sup>3</sup> *Creu'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.

<sup>4</sup> *Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005



Mae Rhaglen *Cynllunio: Cyflawni dros Gymru* (PdW) yn nodi sut y gallai'r system gynllunio yng Nghymru newid i fodloni'r gwerthoedd corfforaethol a'r uchelgeisiau hyn. Mae PdW yn amlinellu sut mae'r Cynulliad yn bwriadu moderneiddio'r system cynllunio defnydd tir, gan gynnwys mwynau, yng Nghymru. Lluniwyd dogfen ymgynghori<sup>5</sup> yn 2002 i osod fframwaith ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru o dan yr egwyddor y dylai'r broses gynllunio fod:

- yn deg ac yn agored;
- yn ennyn hyder y cyhoedd a busnesau;
- yn gwella ansawdd ac yn cyflymu prosesau; ac
- yn integreiddio â chynlluniau, prosesau a chymau gweithredu eraill.

Yn ôl y PdW, mae'r Cynulliad wedi hyrwyddo:

***cynnwys mwy o bobl o lawer yn y gwaith o ddatblygu polisiau cynllunio a gaiff eu cydnabod fel bod "ar flaen y gad" yn nhermau'r DU. Mae Fforwm Cynllunio Cymru<sup>6</sup> a Bwrdd Cynllunio: Cyflawni dros Gymru wedi chwarae, ac yn parhau i chwarae rolau allweddol yn hyn o beth. Mae'r dull hwn o weithio wedi gosod sail gref ar gyfer datblygu a gweithredu ein system Cynllun Datblygu Lleol newydd, ac ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru<sup>7</sup>.***

Mae'r Cynulliad wedi cyflwyno system newydd ar gyfer y broses o ddatblygu cynllunio ar lefel leol, drwy gyfrwng cyflwyno CDLlau, er mwyn cyflymu'r broses. I gefnogi'r system newydd hon, mae'r Cynulliad bellach yn dymuno adolygu'r broses o ddatblygu polisi cenedlaethol er mwyn sicrhau ei bod yn gyson â'r gofynion a rydd ar gyrff eraill.

Erbyn hyn, byddai'n fuddiol adolygu Polisi Cynllunio Cymru (PCC),<sup>8</sup> sef y ddogfen bolisi drosfwaol ar gyfer Cymru. Fe'i lluniwyd fel un ddogfen yn hytrach na chyfres o ddogfennau i roi canllawiau polisi, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws ei chynnwys. Fodd bynnag, golyga hyn hefyd ei bod bellach wedi heneiddio, ac mae nifer o ddiwygiadau wedi'u gwneud (drwy gyfrwng MIPPS). Mae Nodiadau (TANs) sy'n cynnig cyngor technegol manwl i gefnogi PCC wedi'u diweddarau ac mae'r rhain eu hunain hefyd wedi esgor ar newidiadau i bolisi.

<sup>5</sup> Cynllunio: Cyflawni dros Gymru: Dogfen Ymgynghori, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

<sup>6</sup> Sefydlwyd Fforwm Cynllunio Cymru ym mis Ionawr 2000. Rôl y Fforwm Cynllunio oedd cynghori'r Gweinidog ar yr adolygiad o bolisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r Fforwm yn cynnwys 24 o aelodau o lywodraeth leol, y byd busnes, y sector gwirfoddol a'r byd academiaidd, a chaiff ei gadeirio gan y gweinidog dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

<sup>7</sup> Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

<sup>8</sup> Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

Ar hyn o bryd, mae'r polisi mwynau yn cael ei gyflwyno fel dogfen ar wahân, sef Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC)<sup>9</sup>, ac os caiff PCC ei adolygu, mae angen ystyried a ddylai polisi mwynau a pholisi cynllunio defnydd tir gael eu cyfuno.

Bwriad tanategol allweddol yr astudiaeth hon felly, fel y nodir yn y briff, yw edrych ar sut y gellir hwyluso a gwella'r broses o ddatblygu polisi cynllunio yng Nghymru, ac aros yn dryw i egwyddorion cynhwysiant Llywodraeth y Cynulliad. Dylai'r prosiect fynd ati i nodi'r ffordd fwyaf effeithlon o ddatblygu polisi cynllunio, gan ystyried argaeledd staff ac adnoddau ariannol.

## 1.5 Ymagwedd a'r Gwaith a Wnaed

Cynhaliwyd y gwerthusiad fesul gam, gyda nifer o dasgau yn cael eu cynnal ar yr un pryd:

- Tasg 1 – Cychwyn
- Tasg 2 – Rheoli Prosiect
- Tasg 3 – Ymchwil Ddesg ac astudiaethau achos polisi
- Tasg 4 – Astudiaeth Gymharu
- Tasg 5 – Ymgynghori ag Awdurdodau Cynllunio Lleol
- Tasg 6 – Ymgynghori â Rhanddeiliaid
- Tasg 7 – Dadansoddi, Ysgrifennu'r Adroddiad a Lledaenu

### 1.5.1 Cychwyn

Mae ein methodoleg a'n hymagwedd fras ar gyfer yr astudiaeth wedi'u nodi'n llawn yn ein Dogfen Gynnig.<sup>10</sup> Trafodwyd hyn â swyddogion y Cynulliad ac aelodau Grŵp Llywio'r prosiect<sup>11</sup> mewn cyfarfod cychwyn, ac fe'u cadarnhawyd mewn Adroddiad Cychwyn.<sup>12</sup>

### 1.5.2 Ymchwil Ddesg

Mae'r dasg hon yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth i bennu cyd-destun cefndir yr astudiaeth hon. Cafodd mecanweithiau ac amserlenni'r broses ddatblygu polisi yng Nghymru eu mapio ar gyfer detholiad o ddogfennau polisi a chanllawiau technegol. Roedd hyn yn fodd i ystyried y broses gyfan, o nodi'r angen i ddiwygio neu ddatblygu polisi i

<sup>9</sup> Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000

<sup>10</sup> Gwerthusiad o'e Prosesau a Ddefnyddir i Ddatblygu Polisi Cynllunio yng Nghymru: Cynnig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 236/2006, Ymchwil ac Ymgynghori ECOTEC Cyf, 2006.

<sup>11</sup> Cynullwyd Grŵp Llywio'r Astudiaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a'r aelodau oedd: Neil Hemington (yr Is-adran Gynllunio), Jonathan Fudge (yr Is-adran Gynllunio), Sue Martin (yr Is-adran Gynllunio – Mwynau, Gwastraff ac Ynni), Paul Robinson (yr Is-adran Gynllunio), Huw Evans (CLILC), a John Davies (Yr Arolygiaeth Gynllunio). Mynychodd Craig Mitchell (CLILC) y Cyfarfod Cychwyn ar ran Huw Evans.

<sup>12</sup> Gwerthusiad o'e Prosesau a Ddefnyddir i Ddatblygu Polisi Cynllunio yng Nghymru: Cynnig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 236/2006, Ymchwil ac Ymgynghori ECOTEC Cyf, 2007.

fabwysiadu a chyhoeddi canllawiau neu bolisi diwygiedig. Cynigiodd ddadansoddiad o'r amser gwirioneddol a dreuliwyd ar wahanol gamau'r broses a nododd yr hyn a oedd yn gyrru ac yn rhwystro'r broses. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy gyfrwng dadansoddi desg. Fodd bynnag, lle canfuwyd bylchau yn yr wybodaeth a oedd ar gael, trowyd at staff perthnasol yr Is-adran Gynllunio. Cafodd astudiaethau achos cynllunio defnydd tir a chynllunio mwynau a gwastraff eu cynnwys, fel y nodir yn Ffigur 1.1.

### **Ffigur 1.1 Astudiaethau Achos**

Polisi Cynllunio Cymru
Polisi Cynllunio Mwynau Cymru
Canllaw Ategol i PCC
TAN 1: Cyd-Astudiaethau Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai
TAN 2: Cynllunio A Thai Fforddiadwy
TAN 8: Ynni Adnewyddadwy
TAN 13: Twristiaeth
TAN 16: Chwaraeon a Hamdden
TAN 18: Trafnidiaeth
TAN 21: Gwastraff

#### 1.5.3 Astudiaeth Gymharu

Nod yr astudiaeth gymharu oedd nodi enghreifftiau o arferion da a ddefnyddiwyd mewn systemau cynllunio eraill yn y DU ac Ewrop, a allai gyfrannu at y broses o wella'r system gyfredol yng Nghymru. Cynhaliwyd yr astudiaeth drwy gyfrwng Panel Arbenigol<sup>13</sup> a gynullwyd gan ECOTEC, drwy ymchwil ddesg.

#### 1.5.4 Ymgynghori ag Awdurdodau Cynllunio Lleol

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) yng Nghymru ymysg defnyddwyr amlycaf y polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Mae ganddynt fuddiant uniongyrchol yn y broses a sicrhau ei bod yn effeithlon ac yn berthnasol. Aethom ati felly i gyfweld ag uwch swyddogion o bob un o'r 25 ACLI er mwyn sicrhau mewnbwn o bob persbectif daearyddol a phob mathau o Awdurdodau, e.e, gwledig / trefol, gogledd / de. Diben yr ymgynghoriadau hyn oedd casglu gwybodaeth a chael adborth oddi wrth y rhanddeiliaid allweddol hyn ar broses polisi cynllunio cenedlaethol Cymru, a'r dull o'i gyflwyno. Aethom hefyd i gyfarfod Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) ar 2 Mawrth 2007, i gyflwyno sesiwn briffio ar ein hastudiaeth, ac i roi'r cyfle iddynt gyfrannu at y gwerthusiad fel grŵp Cymru-gyfan.

<sup>13</sup> Roedd y Panel Arbenigol yn cynnwys Patsy Healy, Christabel Myers a Cliff Hague.

### 1.5.5 Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Er bod ACLlau yn rhanddeiliaid, rydym hefyd yn cydnabod fod nifer o grwpiau rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â pholisi cynllunio cenedlaethol Cymru yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu'n ei ddefnyddio, neu fod y polisi yn effeithio arnynt. Er mwyn ymgysylltu â'r grŵp eang ac amrywiol hwn, penderfynom mai'r ffordd fwyaf priodol o gasglu eu safbwyntiau oedd drwy gynnal cyfres o weithdai â ffocws arbennig, wedi'u trefnu yn ôl eu 'maes'. Cynhaliwyd y gweithdai canlynol:

- y diwydiant datblygu e.e. adeiladwyr tai;
- buddiannau cadwraeth / amgylcheddol;
- y gymuned fusnes ehangach e.e. drwy gyfrwng y CBI;
- ymgynghorwyr cynllunio / asiantau cynllunio;
- y gymuned gynllunio ehangach a buddiannau proffesiynol e.e. RTPI Cymru<sup>14</sup>, a RICS<sup>15</sup>.

Cynhaliwyd cyfarfod Fforwm Cynllunio Cymru ar 7 Mawrth 2007<sup>16</sup>, yn Stadiwm y Mileniwm Caerdydd. Roedd y cyfarfod yn gyfle i drafod y dull o lunio'r PCC a chytuno arno. Roedd hefyd yn gyfle i adolygu rôl y Fforwm o safbwynt ei aelodau.

Aethom ati hefyd i gyfarfod â sefydliadau a oedd yn ymgysylltu â chymunedau a phobl leyg i edrych ar sut y gellid gwella eu mewnbwn i'r gwaith o baratoi polisi cynllunio cenedlaethol. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys Cymorth Cynllunio Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) Cymdeithas Cynghorau Cymuned a Gwirfoddol Cymru (WACVC) ac Anabledd Cymru.

Er mwyn sicrhau ein bod yn casglu cymaint o safbwyntiau ag oedd yn bosibl, aethom ati hefyd i sefydlu ymgynghoriad ar-lein. Roedd yn cynnwys cwestiynau a chanllawiau ar gyfer ymateb er mwyn annog ymatebwyr i gynnwys tystiolaeth i gefnogi eu datganiadau. Anfonwyd e-bost yn cynnig dolenni ar gyfer yr arolwg dwyieithog at y rheini y cynhaliwyd cyfweiliadau â hwy er mwyn iddynt ei lledaenu'n ehangach ac at nifer o rwydweithiau.

### 1.5.6 Ymgynghori ar Ganfyddiadau Interim a Lledaenu Terfynol

Yn ogystal â'r ymgynghoriadau a ddisgrifir uchod, cynhaliwyd dau weithdy gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol y Cynulliad ar 9 a 10 Mai, lle cyflwynwyd a thrafodwyd ein canfyddiadau interim. Nod y gweithdai oedd cyflwyno'r canfyddiadau hyd yn hyn, rhoi prawf arnynt ac ychwanegu atynt, lle'r oedd hynny'n briodol. Yn ogystal, gwnaed cyflwyniad cryno i gyfarfod POSW ar 4 Mai i roi adborth ar y canfyddiadau.

<sup>14</sup> Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

<sup>15</sup> Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

<sup>16</sup> Roedd y gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod yn agored i holl aelodau'r fforwm ond nid oedd yn gyfarfod swyddogol ac nid oedd Gweinidog yn bresennol.

## 1.6 Statws yr Adroddiad

Hwn yw'r adroddiad terfynol ac mae wedi'i baratoi ar gyfer Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 1.7 Strwythur yr Adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Adran 2: Fframwaith y Polisi Cynllunio.** Rhydd yr adran hon drosolwg o'r system gynllunio yng Nghymru, gan nodi ei hesblygiad ers datganoli a chan ddarparu cyd-destun ar gyfer y gwerthusiad.
- **Adran 3: Trosolwg Cymharu.** Mae'r adran hon yn trafod y systemau sydd ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon. Nod yr adran hon yw adeiladu ymhellach ar gyd-destun y gwerthusiad, gan ddarparu trosolwg o fframweithiau cenedlaethol eraill.
- **Adran 4: Y Broses Datblygu Polisi.** Yma, darperir gwerthusiad o'r prosesau a ddefnyddiwyd yng Nghymru i ddatblygu canllawiau a pholisi cynllunio cenedlaethol.
- **Adran 5: Cwmpas a Manylion y Polisi Cenedlaethol.** Yn yr adran hon, rydym yn parhau â'r gwerthusiad, gan ganolbwyntio ar y dogfennau polisi a'r canllawiau a luniwyd.
- **Adran 6: Gwersi o fannau Eraill.** Mae'r adran hon o'r adroddiad terfynol yn rhoi manylion prosesau a ddefnyddir mewn cyfres o ranbarthau a gwledydd yn y DU a thu hwnt er mwyn dysgu gwersi i Gymru.
- **Adran 7: Casgliadau ac Argymhellion.** Mae'r adran hon yn amlygu canfyddiadau allweddol yr astudiaeth, ac yn nodi ein hargymhellion ar gyfer adolygiadau polisi cynllunio cenedlaethol a fformat y polisi a'r canllawiau.

Mae'r Atodiadau canlynol yn cefnogi'r adroddiad hwn:

- Atodiad 1 – Astudiaethau Achos Polisi a Chanllawiau
- Atodiad 2 – Llyfryddiaeth
- Atodiad 3 – Ymgylgoreion
- Atodiad 4 – Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cymru

## 2.0 Fframwaith y Polisi Cynllunio

---

### 2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn amlinellu cynnwys polisi cynllunio cenedlaethol Cymru. Rhydd drosolwg o gynllunio yng Nghymru er mwyn gosod y gwerthusiad yn ei gyd-destun.

### 2.2 Cyd-destun

#### 2.2.1 Ewrop

Nid oes gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) unrhyw reolaeth uniongyrchol dros swyddogaethau cynllunio ei Haelod-Wladwriaethau. Fodd bynnag, mae angen i bolisi cynllunio fynd i'r afael â rhwymedigaethau Cyfarwyddebau a Rheoliadau'r UE, er enghraifft Cyfarwyddeb 85/337 ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd (a elwir Cyfarwyddeb EIA<sup>17</sup>).

Mae'r UE wedi mabwysiadu'r Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd (ESDP)<sup>18</sup>, i roi cyd-destun ar gyfer polisiau eraill Ewrop sy'n cael effaith ofodol. Nid polisi cynllunio uniongyrchol mo hwn, ond mae'n cynnig cyd-destun. Yn bennaf, mae'r ESDP wedi'i lunio i ganiatáu defnyddio cyfrifolaeth o safbwynt cynllunio defnydd tir.

***"Nod polisiau datblygu gofodol yw gweithio tuag at broses fwy cytbwys a chynaliadwy o ddatblygu tiroedd yr Undeb Ewropeaidd. Ym marn y gweinidogion, yr hyn sydd bwysicaf yw sicrhau bod tri nod sylfaenol polisi Ewropeaidd yn cael eu cyflawni yn gyfartal ym mhob rhanbarth o'r UE:***

- cydlyniant economaidd a chymdeithasol;***
- cadw a rheoli adnoddau naturiol a'r dreftadaeth ddiwylliannol;***
- cystadleurwydd mwy cytbwys o safbwynt tiroedd Ewropeaidd.*"<sup>19</sup>**

#### 2.2.2 Sefyllfa'r DU

Caiff y broses gynllunio yng Nghymru ei rheoli gan ddau brif fath o ddeddfwriaeth: deddfwriaeth Sylfaenol a bennir gan Lywodraeth y DU, er enghraifft deddf Cynllunio a

<sup>17</sup> Asesiad o Effaith Amgylcheddol

<sup>18</sup> Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd 'ESDP: Towards Balanced and Sustainable Development of the Territory of the European Union', Y Comisiwn Ewropeaidd, 1999

<sup>19</sup> Casgliadau terfynol a gyhoeddwyd gan y Llywyddiaeth Almaenig wrth i Gyngor Anffurfiol o Weindogion yr UE sy'n gyfrifol am Gynllunio Gofodol, a gynhaliwyd yn Potsdam ar 10-11 Mai 1999, ddoc at ei derfyn.

Phrynu Gorfodol 2004; ac Is-ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys Gorchmynion a Rheoliadau'r Llywodraeth, a ddatganolwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ers 1999.

Mae cynllunio defnydd tir yn gyfrifoldeb a ddatganolwyd i'r Cynulliad ac mae ganddo'r pŵer i benderfynu sut y bydd yn gweithredu Deddfwriaeth Sylfaenol ac Is-ddeddfwriaeth.

### 2.2.3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Newidiodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ddull Cynulliad Cenedlaethol Cymru o weithio. Bydd rhaniad cyfreithiol ffurfiol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth), sy'n cynnwys Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa) sy'n cynnwys 60 Aelod y Cynulliad (ACau).

**" Swydd Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd llywodraethu Cymru, tra bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ... craffu ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a sut y mae'n defnyddio ei chyllideb."**

Rhoddir crynodeb o'r prif wahaniaethau rhwng rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Nhabl 2.1.

**Tabl 2.1 Rolau'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa**

Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Datblygu a gweithredu polisïau	Craffu ar benderfyniadau Gweinidogion a'r ffordd y maent yn arfer eu swyddogaethau
Gwneud penderfyniadau	Craffu ar gynigion o ran cyllidebau a'u cymeradwyo
Arfer swyddogaethau	Craffu ar fesurau'r Cynulliad, a'u cymeradwyo
Gwneud is-ddeddfwriaeth	Craffu ar is-ddeddfwriaeth benodol a gaiff ei gwneud gan Weinidogion

*Ffynhonnell: Taflen Ffeithiau 1 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2007*

Yn arwyddocaol, mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>20</sup>, gan atgyfnerthu ei ymreolaeth felly. Caiff hyn ei wneud drwy gyfrwng Mesurau'r Cynulliad, sef categori newydd o ddeddfwriaeth i Gymru, a grewyd gan Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Yn ei hanfod, *yn destun cyfyngiadau penodol, bydd Mesurau'r Cynulliad yn gwneud yr un fath o ddarpariaethau o safbwynt Cymru â Deddf y Senedd*<sup>21</sup>. Gellir defnyddio'r Mesurau hyn i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth

<sup>20</sup> Taflen Ffeithiau 1 Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Uned Materion Cyfansoddiadol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, mis Mawrth 2007.

<sup>21</sup> Taflen Ffeithiau 7c Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Uned Materion Cyfansoddiadol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, mis Mawrth 2007

e.e. rheoliadau, serch hyn, nid deddfwriaeth sylfaenol mohonynt (mae Deddf y Senedd yn ddeddfwriaeth sylfaenol).

**"...bydd angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sicrhau "cymhwysedd deddfwriaethol" cyn cael y pŵer i wneud Mesurau mewn perthynas â maes penodol o lywodraeth ddatganoledig. Rhoddir cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad (yr awdurdod cyfreithiol i basio Mesurau), ar sail pob achos yn unigol, gan Senedd y DU. Gall cymhwysedd deddfwriaethol (pwerau llunio Mesurau) gael ei ganiatáu naill ai drwy Ddeddfau Seneddol neu drwy ddull newydd sef y "Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol".**

**Unwaith y rhoddir cymhwysedd deddfwriaethol (pwerau llunio Mesurau) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar bwnc penodol gan Senedd y DU, gall ddechrau ar y broses o basio Mesurau'r Cynulliad (deddfau Cymru).**

<http://new.wales.gov.uk/gowasub/gowa/changes/newlawmakingpowers?lang=cy>

Mantais hyn yw y "Dylai hyn gyflymu'r broses o wneud deddfau ar gyfer Cymru oherwydd bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu craffu ar ddeddfau Cymru a'u cymeradwyo ei hun yn hytrach na chystadlu am le yn rhan o raglen Senedd y DU. Dylai'r sefyllfa hefyd ganiatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno newidiadau mwy sylfaenol a hynny ar adeg pan fydd yn dewis gwneud hynny.."

<http://new.wales.gov.uk/gowasub/gowa/changes/newlawmakingpowers?lang=cy>

Mae Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo rôl a baich y cyfrifoldeb dros bolisi a chamau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru; mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi mwy o bŵer i Weinidogion Cymru hunan-lywodraethu. Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw craffu, nid datblygu polisi.

Cynllunio gwlad a thref yw un o'r meysydd a ddatganolwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<sup>22</sup>

#### 2.2.4 Cyflwyniad i fframwaith polisi cynllunio Cymru

Cyfrifoldeb y Cynulliad yw cyflwyno polisi cynllunio a chyfeiriad strategol i'w readru i ACLlau er mwyn ei weithredu ar lawr gwlad. Mae'r dogfennau a'r polisiau cynllunio cysylltiedig a gyhoeddir gan y Cynulliad yn amrywio o'r rheini a gaiff eu harwain gan strategaeth, megis Strategaeth Amgylchedd Cymru<sup>23</sup>, i ddogfennau sydd wedi'u hanelu at

<sup>22</sup> Mae Atodlen 7, Adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhestru maes 18 fel a ganlyn: "Cynllunio gwlad a thref, gan gynnwys adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, sylweddau peryglus. Safleoedd carafannau. Cynllunio gofodol. Gweithfeydd mwynau. Datblygu trefol. Trefi newydd. Diogelu amwynderau gweledol."

<sup>23</sup> Strategaeth Amgylcheddol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2006



swyddogaethau'r ACLlau – PCC – a chanllawiau ar gyfer datblygu CDLI. Dyma nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru o safbwynt rhoi ei swyddogaeth gynllunio ar waith:

- yn deg ac yn agored;
- yn ennyn hyder y cyhoedd a busnesau;
- yn gwella ansawdd ac yn cyflymu prosesau;
- yn integreiddio â chynlluniau, prosesau a chamau gweithredu eraill; ac
- yn cyflawni'r amcanion y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u pennu yn y Cynllun i Gymru.

Caiff polisi cynllunio ei gyflwyno yng Nghymru drwy gyfrwng cyfres o ddogfennau cydgysylltiedig, sy'n rhoi canllawiau ar yr amrywiol bynciau sy'n effeithio ar y system gynllunio yng Nghymru. Mae polisi cynllunio yn unigryw yng Nghymru o safbwynt y gofyniad i gydymffurfio â themâu trawsbynciol y Cynulliad, sef cynaliadwyedd economaidd, cyfle cyfartal ac ymrwymiad i ddatblygu galluoedd TGCh. Yn ogystal, mae cysylltiad annatod rhwng polisi cynllunio yng Nghymru â'r system gynllunio yn Lloegr drwy Ddeddfwriaeth Sylfaenol, a mentrau cynllunio gofodol o Ewrop, megis yr ESDP.

Mae polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau technegol yng Nghymru yn cynnwys y cydrannau canlynol:

- Polisi Cynllunio Cymru (PCC);
- Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC);
- Nodiadau Cyngor Technegol (TANs);
- Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs);
- Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS); a
- Cylchlythyrau a Llythyrau egluro.

## 2.3 Cynllunio yng Nghymru cyn Datganoli

Yn aml, cyfeiriwyd at gynllunio yng Nghymru fel rhan o'r 'system gynllunio Brydeinig'; ond mae hon yn derm sydd wedi colli ei dilysrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers datganoli, a diwygio'r system gynllunio. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cynllunio yng Nghymru wedi dechrau cael ei weld fel endid ar wahân i Loegr yn nhermau polisi. Cyn y datblygiadau hyn, roedd Cymru a Lloegr yn dilyn fframwaith ar y cyd, gyda "*fframwaith polisi, gweinyddol a deddfwriaethol cyffredin*"<sup>24</sup> nad oedd yn rhoi ystyriaeth i'r gwahaniaethau hanfodol rhwng y ddwy wlad, er enghraifft cymunedau Cymraeg eu hiaith yn y Gorllewin.

<sup>24</sup> Planning Policy, Policy Guidance and Technical Advice, yn *Town Planning Review*, Cyf.72 (4) (tt.393-422), Harris, N, 2001

Roedd y system Canllawiau Polisi Cynllunio (PPG) yn dilyn yr un camau datblygu'n union yng Nghymru a Lloegr hyd 1993-95 pan beidiwyd â chyhoeddi PPGs wedi'u diweddarau yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd prin newidiadau i'r fframwaith polisi cynllunio, gan arwain at "*wagle polisi yng Nghymru*" hyd 1996 pan ad-drefnwyd Cymru yn 22 o Awdurdodau Unedol<sup>25</sup> a chyhoeddwyd *Planning Guidance (Wales)*<sup>26 27</sup>.

Er bod y cyfnod blaenorol o ddryswch wedi ennyn rhywfaint o amheuaeth, fe arweiniodd at greu un ddogfen a oedd yn rhoi mwy o bwerau disgrisiwn i ACLlau, gan ganolbwyntio ar faterion strategol allweddol. Yn dilyn hyn, drafftwyd y TANs a'u cyhoeddi ym 1996 (TANs 1 i 8 gyda 15 arall wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad). Yn 2002, yn dilyn datganoli, cyhoeddwyd y PCC, sef barn y Cynulliad am sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno polisiâu defnydd tir.

Rhydd Tabl 2.2 grynodedb o'r newidiadau a wnaed i bolisi cynllunio yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.

**Tabl 2.2 Polisi Cynllunio yng Nghymru: amserlen**

Dyddiad	Cynnydd
<b>Cyn 1988</b>	- Fframwaith polisi cymharol dameidiog - Dim mecanwaith syml ar gyfer mynegi polisi
<b>1988-1993</b>	- Cyflwyno cyfres Canllawiau Polisi Cynllunio ar gyfer Cymru a Lloegr. - Mwyafrif y canllawiau yn cael eu cyhoeddi ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr, heblaw nifer gyfyngedig o eithriadau lle'r oedd y swyddfa Gymreig wedi cyhoeddi PPG ar wahân (er enghraifft PPG12 a PPG3) - Amrywiadau eraill i bolisi yn cael eu mynegi drwy gyfrwng Cylchlythyrau'r Llywodraeth (er enghraifft Cylchlythyr 53/88 ar yr iaith Gymraeg)
<b>1993-1996</b>	- Ataliad ar gyhoeddi PPGs newydd neu ddiwygiedig yng Nghymru, gan arwain at ddargyfeirio fframweithiau polisi - Cyfnod y 'PPGs coll'
<b>1996</b>	- Ad-drefnu llywodraeth leol i ffurfio system o 22 o awdurdodau unedol - Cyhoeddi Canllaw Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio
<b>1996-1998</b>	- Cyhoeddi cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) i ategu Canllaw Cynllunio (Cymru)
<b>1998</b>	- Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn pennu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datganoli
<b>1999 onwards</b>	- Sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyhoeddi Diwygiad Cyntaf Canllaw Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio - Ymgynghoriad drafft ar yr ail ddiwygiad, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2001, fel

<sup>25</sup> Yn ogystal â'r 22 Awdurdod Unedol, mae gan Gymru tri Pharc Cenedlaethol, sydd hefyd â statws ACLI.

<sup>26</sup> Canllaw Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, y Swyddfa Gymreig, 1996

<sup>27</sup> Harris, N, 2001

Dyddiad	Cynnydd
	Canllaw Cynllunio Cymru - Cynulliad yn ymrwmo i baratoi Rhwydwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol - Cyhoeddi Canllaw Polisi Cynllunio Cymru yn 2002, wedi'i ddilyn gan Gynllun Gofodol Cymru yn 2005.

*Ffynhonnell: Addaswyd o Harris (2001)*

## 2.4 Cynllunio: Cyflawni dros Gymru (PdW)

Cyflwynwyd rhaglen PdW gyda'r nod o sicrhau bod polisi cynllunio cenedlaethol yn fwy strategol, perthnasol a chynhwysol, gyda phroses "gyflymach" o gynllunio<sup>28</sup>. Roedd rhaglen PdW hefyd yn ceisio diweddarau polisi yn fwy rheolaidd, gyda mwy o gynhwysiant ac ymgynghori o safbwynt materion sy'n ymwneud â chynllunio, gan gynnwys Fforwm Cynllunio Cymru a phroses ymgynghori cyhoeddus eang.

Ar lefel leol, nod y newid o Gynlluniau Datblygu Unedol (CDUau) i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yw hwyluso a symleiddio'r system yn hytrach na chreu Fframweithiau Datblygu Lleol (LDFs) fel y caiff eu hyrwyddo yn Lloegr.

Roedd PdW hefyd yn cynnwys polisi mwynau yng Nghymru, ac aethpwyd ati i wella'r canllawiau polisi a oedd ar gael i Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy gyfrwng Gweithgorau Agregau Rhanbarthol (RAWPs) sydd wedi neu sydd wrthi'n gweithredu Datganiadau Technol Rhanbarthol (RTS) ar bolisi mwynau.

## 2.5 Trosolwg o Bolisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru

Mae'r adran ganlynol yn cynnig trosolwg o elfennau'r system gynllunio genedlaethol yng Nghymru.

### 2.5.1 Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru

PCC yw polisi defnydd tir y Cynulliad a chaiff ei ategu gan gyfres o TANs a MIPPS i greu polisi cynllunio cenedlaethol Cymru. Mae Cylchlythyrau a llythyrau egluro hefyd yn nodi polisi.

Nod PCC yw cefnogi nodau strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:<sup>29</sup>

- Datblygu cynaliadwy.

<sup>28</sup> Cynllunio: Cyflawni dros Gymru: Dogfen Ymgynghori, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

<sup>29</sup> Polisi Cynllunio Cymru, Rhagair, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

- Adeiladu economi gadarn, cefnogi adfywio economaidd, creu cyfoeth a swyddi o ansawdd da.
- Mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol.
- Cyfle Cyfartal.

Mae PCMC yn nodi'n benodol ganllawiau polisi cynllunio defnydd tir y Cynulliad o safbwynt echdynnu mwynau a datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru.

Diben PCC a PCMC fel ei gilydd yw nodi'r cyd-destun ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir cynaliadwy. O fewn y cyd-destun hwn, paratoir cynlluniau defnydd tir statudol Awdurdodau Cynllunio Lleol a gwneid penderfyniadau ar reoli datblygiadau ac ar geisiadau ac apeliadau unigol. Mae *Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru*<sup>30</sup> yn nodi'n benodol bolisi'r Cynulliad ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

Awgryma Barker<sup>31</sup> fod model Cymru yn (yn yr iaith wreiddiol) "*allows a holistic approach to policy in a way the current range of subject-based guidelines precluded.*"

#### 2.5.2 Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS)

Mae MIPPS yn diweddarau PCC, a chânt eu darllen ochr yn ochr â'r ddogfen wreiddiol, dyddiedig 2002. Maent yn cynnig canllawiau a chyfeiriad cyfredol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ei hanfod, mae un MIPPS yn cael ei ddefnyddio i ddisodli pennod gyfan o fewn PCC. Er bod drafft cyfredol y MIPPS ar gyfer newid yn yr hinsawdd<sup>32</sup> yn cynnig newidiadau drwy gydol y ddogfen, mae tri MIPPS<sup>33</sup> wedi'u mabwysiadu ar gyfer yr ymgynghoriad canlynol hyd yn hyn.

#### 2.5.3 Canllaw Ategol

Cyhoeddwyd y Canllaw Ategol<sup>34</sup> i PCC gyda'r nod penodol o fynd i'r afael â'r newid i system gynllunio Cymru a roddwyd ar waith pan newidiwyd o Gynlluniau Datblygu Unedol (CDUau) i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau), a oedd yn rhan hanfodol o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004<sup>35</sup>. Nod y Canllaw Ategol yw rhoi'r lefel briodol o wybodaeth i Awdurdodau Cynllunio Lleol er mwyn iddynt ddefnyddio PCC ar gyfer drafftio CDLlau.

<sup>30</sup> Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.

<sup>31</sup> Adolygiad Barker - Barker Review of Land-use Planning, Adroddiad Terfynol, Argymhellion, Barker, K, 2006.

Comisiynydd Adolygiad Barker i ystyried gwelliannau i'r system gynllunio yn Lloegr. Fe'i trafodir ymhellach yn 3.3.1.

<sup>32</sup> Cynllunio ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd: Dogfen Ymgynghori, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006

<sup>33</sup> MIPPS 01/2005 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, 2005, MIPPS 02/2005 Cynllunio ar gyfer Adwerthu a Chanol Trefi, Rhagfyr 2005, a MIPPS 01/2006 Tai, Mehefin 2006.

<sup>34</sup> Canllaw Ategol i Bolisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006

<sup>35</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, HMSO, 2004

#### 2.5.4 Nodiadau Cyngor Technegol

Mae TANs ynghyd â PCC, y MIPPS a'r Cylchlythyrau yn ffurfio polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Cafodd TANs eu hymgorffori i system gynllunio Cymru yn dilyn datblygiad fframwaith polisi ar wahân (h.y. terfyn y PPGs yng Nghymru). Yn ôl Harris<sup>36</sup> roedd y fframwaith cynllunio newydd hwn yng Nghymru yn (yn yr iaith wreiddiol) "*founded on the notion that policy can be distinguished from guidance or advice*". Mae hyn wedi golygu bod polisi cynllunio yng Nghymru wedi'i gyflwyno drwy gyfrwng egwyddorion strategol sydd â'r nod o lywio camau gweithredu yn y dyfodol drwy gyfrwng PCC, a chyfres o nodiadau cyngor/ canllawiau penodol drwy gyfrwng TANs. Ar hyn o bryd, ceir 21<sup>37</sup> TAN ac un TAN a fabwysiadwyd ar gyfer mwynau (MTAN)<sup>38</sup> yng Nghymru, yn trafod amrywiaeth gyfan y meysydd polisi.

#### 2.5.5 Cylchlythyrau

Mae cylchlythyrau yn cynnwys canllawiau gweithdrefnol sy'n dehongli ac yn egluro darn penodol o ddeddfwriaeth.

#### 2.5.6 Llythyrau Cylchlythyr

Defnyddir y rhain i roi eglurhad brys am bolisi neu weithdrefnau a chânt eu cyhoeddi gan Weinidog neu gan swyddogion ar ei r/han.

#### 2.5.7 Cynllun Gofodol Cymru

Yn ogystal â PCC, rhydd Cynllun Gofodol Cymru weledigaeth ofodol strategol ar gyfer Cymru a'r chwe maes gofodol a nodir yn y Cynllun. Mabwysiadwyd y Cynllun gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2004 ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu manylion isrannbarthol pellach a fydd yn cael statws ffurfiol pan gaiff y cynllun ei ddiweddarau yn 2008.

Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gofodol 2004 yn pennu'r gofyniad ar Gynllun Gofodol Cymru. Mae'n nodi:

***"The Wales Spatial Plan must set out such of the policies (however expressed) of the National Assembly for Wales as it thinks appropriate in relation to the development and use of land in Wales."***

Er mwyn sicrhau bod cysylltiadau rhwng y broses o weithredu polisïau'r Cynulliad a'r system defnydd tir, caiff y Cynllun Gofodol ei bennu o fewn y Ddeddf fel "*material consideration for Local Planning Authorities in developing their plans and making planning*

<sup>36</sup> Harris, N, 2001

<sup>37</sup> Er bod TAN 17: Asesu Effaith ar yr Amgylchedd wedi'i ddiddymu, mae TAN 23: Rheoli Datblygu wrthi'n cael ei ddatblygu o'r newydd.

<sup>38</sup> Nid yw MTAN Glo wedi'i gyhoeddi hyd yn hyn ac erys ar ffurf drafft.

decisions. .... LDPs will need to have regard to the Wales Spatial Plan." Nod y Cynllun yw cyflwyno'r strategaeth a'r weledigaeth, gan weithio ar draws ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Mae'r Cynllun yn nodi ei rôl fel a ganlyn:

**"gwneud yn siŵr fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried eu heffaith y tu draw i'r terfynau sectoraidd neu weinyddol agosaf; fod buddsoddiad a gwasanaethau'n cael eu cydlynu drwy ddeall rolau a rhyngweithio rhwng lleoedd; a'n bod yn corffori gwerthoedd craidd datblygu cynaliadwy ym mhopeth yr ydym yn ei wneud."**

### 2.5.8 Ymchwil Gynllunio yng Nghymru

Cyflwynwyd Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru (WPRP) i gefnogi anghenion ymchwil y broses o ddatblygu polisi cynllunio yng Nghymru. Cynhaliwyd gweithgareddau'r WPRP yn seiliedig ar Astudiaeth Gwmpasu<sup>39</sup> a gwblhawyd yn 2000, ac fe'i hadolygwyd yn 2006<sup>40</sup>. Nod y Rhaglen, yn ôl yr Astudiaeth Gwmpasu yw:

**"cefnogi amcanion y Cynulliad ar gyfer y system gynllunio drwy gynnal gwaith ymchwil a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisi cynllunio cynaliadwy ac effeithiol, hwyluso canllawiau arferion da a sicrhau bod polisi cynllunio, a'i oblygiadau, yn cael ei fonitro a'i werthuso."**

Mae'r WPRP yn ategu agenda PdW, ac mae ganddi dri amcan allweddol. Y cyntaf o'r rhain yw cefnogi'r broses o ddatblygu polisi cynllunio yng Nghymru, gan ystyried natur amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y genedl. Yn ail, mae'r WPRP yn ceisio gwella'r ffordd y mae'r system gynllunio yn gweithredu. Yn drydydd, ceisia wella'r sail wybodaeth ar gyfer cyflwyno'r broses gynllunio yng Nghymru. Yn ystod chwe blynedd nesaf o oes yr WPRP, dyrannwyd cyllideb o ychydig dros £2.3 miliwn ar gyfer ymchwil gynllunio, gyda 30% o'r gwariant hwn wedi'i gyfeirio at brosiectau sy'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â datblygu polisi. Mewn nifer o achosion, mae'r gwaith ymchwil a wnaed drwy gyfrwng y rhaglen wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu TANs a MIPPS, er enghraifft yr addasiadau a wnaed i TAN 8: Ynni Adnewyddadwy, a wnaed yn dilyn adroddiad<sup>41</sup> a arweiniodd ar ddiwygio TAN 8 a diweddarau'r MIPPS cysylltiedig er mwyn diweddarau'r adran berthnasol o PCC.

<sup>39</sup> Astudiaeth Gwmpasu Ymchwil Cynllunio Defnydd Tir, Adroddiad terfynol, DTZ Piedad Consulting, 2000.

<sup>40</sup> Adolygiad Pum Mlynedd a Gwerthusiad o Raglen Ymchwil Gynllunio Cymru, Ymchwil ac Ymgynghori ECOTEC Cyf, 2006

<sup>41</sup> Facilitating Planning for Renewable Energy in Wales: Meeting the Target, Adroddiad terfynol, ARUP, 2004

## 2.6 Casgliadau Strategol

Yn yr adran hon, rydym wedi rhoi amlinelliad o'r newidiadau sydd wedi digwydd yng Nghymru, yn arbennig o safbwynt datblygu system gynllunio sy'n canolbwyntio ar Gymru, sydd wedi dargyfeirio oddi wrth y system yn Lloegr ers datganoli. Rydym hefyd yn cyflwyno trosolwg o gyd-destun y fframwaith a ddefnyddir bellach yng Nghymru. O'r trosolwg hwn, rydym yn dod i'r casgliadau strategol canlynol:

- Mae'r cyfrifoldeb dros bolisi cynllunio defnydd tir wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad.
- Atgyfnerthwyd y cyfrifoldeb hwn ymhellach gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; yn awr, gall y Cynulliad wneud cais am bwerau i wneud deddfwriaeth drwy gyfrwng Mesurau'r Cynulliad.
- Ers datganoli, mae polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru wedi datblygu'i fframwaith nodedig ei hun.
- Gyda'i gilydd, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC) yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol i Gymru. Caiff PCC ei ddiweddarau trwy gyfrwng Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS).
- Defnyddir Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs) i gynnig cyngor a chanllawiau technegol i gefnogi polisiau PCC a PCMC.
- Defnyddir llythyrau cylch gwaith i egluro darnau penodol o ddeddfwriaeth.
- Mae Cynllun Gofodol Cymru, er ei fod y tu allan i'r fframwaith cynllunio defnydd tir ffurfiol, yn bolisi cenedlaethol pwysig y dylid ei ystyried ym mhroses y CDLI.
- Mae Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru (WPRP) yn darparu gwaith ymchwil i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi.

## 3.0 Trosolwg Cymharu

---

### 3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio'r broses o ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol yn Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon. Diben yr adran hon yw ystyried proses a fformat polisi cynllunio cenedlaethol fel deunydd cyd-destun ar gyfer y gwerthusiad. Mae'r adran hon, mewn cydweithrediad ag adran 6, yn mynd i'r afael ag amcan 2 y Briff – sef darparu dadansoddiad cymharol yn amlinellu ymhle y gellir dysgu gwersi yng Nghymru.

### 3.2 Pam ystyried y Cymaryddion hyn?

Fel y trafodwyd yn Adran 2, yn y gorffennol, bu Cymru'n rhan o system gynllunio Prydain ac roedd yn dilyn yr un fframwaith â Lloegr. Gan fod y ddau yn hanu o'r un gwreiddiau, mae'n ddefnyddiol adolygu'r broses yn Lloegr o'i chymharu â Chymru. Er bod yr Alban wedi bod yn fwy ar wahân o fframweithiau Cymru a Lloegr erioed, mae Cymru a'r Alban yn rhannu nifer o elfennau cyffredin, yn enwedig y broses ddatganioli; ac mae'n ddefnyddiol cael trosolwg o'r system yn yr Alban felly er mwyn ei gymharu â Chymru. Er bod Gweriniaeth Iwerddon y tu allani'r DU, mae'n rhannu nifer o'r un elfennau â Chymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig mawr, arfordir hir, mae ganddi iaith leiafrifol ac mae'r strwythur cynllunio yn debyg i'r strwythur ym mhedair gwlad y DU.

### 3.3 Y System Gynllunio Gyffredol yn Lloegr

Ers cyflwyno Deddf Cynllunio a Phrynu Gofodol 2004 bu rhai newidiadau amlwg yn y ffordd y caiff polisi cynllunio ei gyflwyno ar lefel genedlaethol yn Lloegr. Y prif ddatblygiad yw newid i system newydd i gyflwyno polisi cynllunio, a honno'n seiliedig ar Ddatganiadau Polisi Cynllunio (PPSs), yn hytrach na PPGs, a newid o Gynlluniau Datblygu Unedol (CDUau) neu Gynlluniau Lleol a Chynlluniau Strwythur, i Strategaethau Gofodol Rhanbarthol (RSS) a Dogfennau Datblygu Lleol (LDDs). Crëwyd PPSs i helpu i ffurfio lefel fwy cryno o ganllawiau strategol i awdurdodau cynllunio, heb fod yn rhy ragnodol, ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil gadarn.

Yn wahanol i Gymru, ni cheir unrhyw gyhoeddiad cyffredinol hollgwmpasog ar gyfer polisi cenedlaethol yn Lloegr. Yn hytrach, mae'r DCLG wedi dewis parhau â system o gyfres o PPSs penodol i bynciau. Dengys Ffigur 3.1 yr amrywiol haenau sy'n rhan o'r polisi cynllunio yn Lloegr.





- y berthynas rhwng nodau economaidd a nodau datblygu cynaliadwy wrth fynd ati'n llwyddiannus i gyflwyno agenda cymunedau cynaliadwy.

Mae rhai o argymhellion allweddol Adolygiad Barker, sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon, wedi'u rhestru isod:

- Symleiddio polisi a phroses drwy leihau'r canllawiau polisi.
- Diweddarau polisi cenedlaethol ar gynllunio ar gyfer datblygu economaidd (PPS4) er mwyn (yn yr iaith wreiddiol) "*ensure that the benefits of development are fully taken account in plan-making and decision taking, with a more explicit role for market and price signals*". Pwysleisiwyd bod hwn yn bryder penodol am nad yw'r canllawiau wedi'u diweddarau ers 1992 yn y maes hwnnw.
- Sicrhau bod polisi cynllunio cenedlaethol y dyfodol yn hyblyg, yn strategol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n osgoi costau a beichiau diangen ar fusnesau.
- Cyflwyno system newydd sy'n mynd i'r afael â phrosiectau seilwaith mawr, yn gysylltiedig â Datganiadau Amcanion Strategol a Chomisiwn Cynllunio Annibynnol i benderfynu ar geisiadau.
- Hyrwyddo diwylliant cynllunio cadarnhaol, yn enwedig lle bo cynlluniau a datblygiadau amhenderfynedig yn cael eu cymeradwyo lle bo hynny'n bosibl.

Rhydd Barker bwyslais mawr ar yr angen i sicrhau bod y broses ddatblygu yn fwy effeithlon, ac i ddymchwel unrhyw rwystrau diangen i gynigion datblygu penodol. Mae Adran 4 o Adolygiad Barker yn cyfeirio at yr angen i symleiddio'r fframwaith cynllunio i wella effeithlonrwydd a pherfformiad.

**Yn ôl yr Adolygiad, "*it is important to deliver on the Green Paper reforms to streamline polisi cynllunio cenedlaethol – the genuine national spillover issues, while important, are relatively few in number and could be articulated briefly. The Government should commit to a substantial streamlining of national policy, including considering the potential to expand PPS1 in place of updating some of the current range of PPGs, and it should commit to publishing any necessary guidance either alongside or within four months of publishing new policy.*"**

Mae Barker yn rhoi mwy o bwyslais ar bwerau disgresiwn Awdurdodau Cynllunio Lleol, ac ar sicrhau na ddylai polisi cynllunio fod yn or-rhagnodol. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu bod angen sefydlu sail dystiolaeth gadarn yn ystod y broses o lunio polisi er mwyn sicrhau bod y polisi yn berthnasol a bod modd ei weithredu. Noda'r adroddiad, "*In general, there is the need to establish a more robust evidence base for national policy, so that the costs and benefits of the policy can be better assessed*".

Wrth adolygu'r fframwaith yn Lloegr, cynigodd Barker werthusiad byr o'r model yng Nghymru. Awgryma y gallai'r ddogfen bolisi gyfyngu'n ormodol ar hyblygrwydd llywodraeth ganolog i gyhoeddi newidiadau polisi i'r datganiad polisi cynllunio yng ngoleuni amgylchiadau neu wybodaeth sy'n newid, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cynnig ymagwedd holistig. Awgryma y byddai hyn yn lleihau gallu'r fframwaith i barhau'n "*ymatebol*."

Un o nodau pwysig Adolygiad Barker oedd ystyried sut y gellir lleihau cyfanswm y canllawiau polisi cenedlaethol. Mae'n cwestiynu a fyddai un ddogfen bolisi, yn seiliedig ar y profiad yng Nghymru, gyda chasgliad o TANs, Canllaw Ategol, MIPPS a Chylchlythyrau yn effeithiol wrth leihau tueddiad y llywodraeth ganolog i gyhoeddi canllawiau.

### 3.3.2 Cynllunio ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy: Papur Gwyn

Yn sgil Adolygiad Barker, cyhoeddwyd y Papur Gwyn: Cynllunio ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy<sup>43</sup> ym mis Mai 2007. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig (yn yr iaith wreiddiol) "*more strategic and clearly focused national policy framework with PPS1, with the aim of streamlining policy in England*." Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n ystyried ei barn o safbwynt cynnwys y Papur Gwyn.

### 3.3.3 Ymchwil Gynllunio yn Lloegr

Mae'r Rhaglen Ymchwil Gynllunio yn bodoli yn Lloegr i gefnogi amcan y DCLG o greu system cynllunio defnydd tir deg ac effeithlon sy'n "*parchu gwahaniaethau rhanbarthol ac yn hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy ac o ansawdd uchel*"<sup>44</sup>.

Mae'r rhaglen ymchwil wedi derbyn cyllideb o ryw £3.9 miliwn y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar ddau gynllun ymchwil penodol: Cynllunio Defnydd Tir a Chynllunio Gwastraff, Tir Ansefydlog a Mwynau. Mae prif feysydd ymchwil y rhaglen o safbwynt defnydd tir yn canolbwyntio ar ddatblygu system gynllunio i weithio'n effeithiol o fewn fframweithiau sefydliadol newydd, yn arbennig, patrymau newydd o lywodraethu rhanbarthol, cynllunio trafndiaeth integredig, cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy a chynllunio ar gyfer ardaloedd trefol.

## 3.4 Y System Gynllunio Gyfredol yn yr Alban

Yn nhermau cynllunio, rôl Gweithrediaeth yr Alban yw "*cynnal a datblygu'r fframwaith deddfwriaethol presennol, cynnig canllawiau a chynghor polisi, ambell i gais neu apêl cynllunio fawr, a goruchwyllo'r system*"<sup>45</sup>. Yn ôl Lloyd a Peel<sup>46</sup> mae Gweithrediaeth yr

<sup>43</sup> Papur Gwyn: Cynllunio ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy (Planning for a Sustainable Future: White Paper), Llywodraeth EM, Mai 2007

<sup>44</sup> 'Planning Research Programme Overview', DCLG, 2007

<sup>45</sup> Polisi Cynllunio yr Alban: Scottish Planning Policy - SPP1: The Planning System, Gweithrediaeth yr Alban, 2002

Alban yn datblygu polisi cynllunio drwy (yn yr iaith wreiddiol) "*hierarchical approach which enables international, European, national, regional, and local policies to be translated into development plans which operate at the individual level of locality*". Yn yr un modd ag ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad at ddatblygu polisi, mae'n rhaid i bolisi cynllunio yn yr Alban fynd i'r afael â themâu trawsbynciol y Weithrediaeth. Mae Polisi Cynllunio 1 yr Alban (SSP1) <sup>47</sup> yn nodi'r rhain fel a ganlyn:

- Datblygu Cynaliadwy.
- Cystadleurwydd Economaidd.
- Cyfiawnder Cymdeithasol.
- Ansawdd Amgylcheddol.
- Dylunio.
- Trafnidiaeth Integredig.

Er gwaethaf datganoli, mae fformat y polisi cenedlaethol yn yr Alban wedi aros yn debyg i'r fformat yn Lloegr. Mae'r system gyfredol o ddogfennau Polisi Cynllunio yr Alban (SPPs) wedi esblygu o'r Canllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol blaenorol (NPPGs); erys y NPPGs yn 'weithredol' hyd nes iddynt gael eu hailosod neu eu diweddarau. Drwy gyfrwng SPPs gall Gweithrediaeth yr Alban ddiffinio'n ganolog y polisi y mae disgwyl i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol eu dilyn. Mae'r SPPs yn mynd i'r afael â defnydd tir sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a materion eraill sy'n ymwneud â chynllunio. Fodd bynnag, ymddengys mai hap a damwain yw'r sail ar gyfer dethol a dewis pynciau ar gyfer SPPs. Er enghraifft, ceir SPP ar 'Gynllunio ar gyfer Datblygu Gwledig' (SPP15) ond ni cheir SPP ar 'Gynllunio ar gyfer Datblygu Trefol', er gwaethaf y ffaith bod y rhan fwyaf o Albanwyr yn byw mewn ardaloedd trefol ac mae economi yr Alban yn dibynnu ar berfformiad yr ardaloedd trefol. Mae rhannu polisi yn ôl pwnc drwy'r SPPs hefyd yn golygu bod sefyllfaoedd yn codi lle mae gwahanol SPPs yn rhoi negeseuon gwahanol.

Mae Nodiadau Cyngor Cynllunio (PANs) yn cynnig arferion da o safbwynt cyngor. Maent yn dod yn fwyfwy deniadol ac yn hawdd eu defnyddio, ac maent yn ddull gwerthfawr o ddatblygu arferion da.

Mae'n ddiddorol cymharu hyn â'r system yng Nghymru, lle caiff drafftiau ymgynghori eu cyhoeddi ar gyfer SPPs, ond nid ar gyfer PANs.

<sup>46</sup> Shaping and designing model policies for land-use planning, yn *Land Use Policy*, Cyf.24 (tt.154-164), Lloyd M G & Peel D, 2007


<sup>47</sup> Mae Polisi Cynllunio yr Alban (SPPs) yn cynnig datganiadau ar bolisi Gweithrediaeth yr Alban ar ddefnydd tir sy'n bwysig yn genedlaethol a materion eraill sy'n ymwneud â chynllunio, wedi'u cefnogi gan fframwaith lleoliadau, lle bo hynny'n briodol.

Mae'r system hon o gynnig canllawiau a chyngor yn hŷn na'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol (NPF) a baratowyd yn 2004. Nod y NPF yw "llywio'r broses datblygu gofodol yn yr Alban hyd at 2025". Mae'n nodi 'gweledigaeth' y gwahoddir i gynlluniau a rhaglenni eraill gyfrannu ati a'i rhannu ac yn gosod yr Alban mewn cyd-destun rhyngwladol. Cynhelir proses fonitro, ac mae'r NPF wrthi'n cael ei adolygu.

Yn gryno, mae fformat y polisi cenedlaethol yn yr Alban yn dal i ddangos olion amlwg y canoli a ddigwyddodd yn ystod y 1980au a'r 1990au. Mae'r NPF yn gam pwysig ymlaen tuag at edrych ar gynllunio materion strategol mewn ffordd fwy integredig, ond mae ffocws cyffredinol y system drwy gyfrwng SPPs yn parhau o fewn traddodiad rheoliddio defnydd tir y DU. Fodd bynnag, mae Deddf Cynllunio newydd a basiwyd ar ddiwedd 2006, yn cael ei disgrifio fel "deddfwriaeth allweddol"<sup>48</sup> a dyma'r ymdrech fwyaf sylweddol i foderneiddio cynllunio ers 1947. Mae'r Ddeddf newydd yn pwysleisio mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd, a hynny o ansawdd well. Fodd bynnag, yr ergyd cyffredinol yw newid y ffordd y caiff cynllunio ei gyflwyno gan awdurdodau cynllunio (cynlluniau diweddaraf, proses effeithiol o reoli datblygu, gorfodi rhagweithiol), yn hytrach na newid fformat polisi cenedlaethol.

Rhydd Ffigur 3.2 grynodedb o'r elfennau sy'n rhan o system polisi cynllunio cenedlaethol yr Alban.

**Ffigur 3.2 Polisi cynllunio yr Alban**



Ffynhonnell: ECOTEC wedi'i addasu o ffynhonnell Gweithrediaeth yr Alban (2002)

Yn 2005, aeth Gweithrediaeth yr Alban ati i lunio dogfen *Modernising the Planning System*<sup>49</sup>, a oedd yn cydnabod y rôl hanfodol sydd gan gynllunio i'w chwarae wrth

<sup>48</sup> [www.scotland.gov.uk/Topics/Planning](http://www.scotland.gov.uk/Topics/Planning)

<sup>49</sup> Modernising the Planning System, Gweithrediaeth yr Alban, 2005

hyrwyddo patrwm gynaliadwy o dwf economaidd. Amlinella sut y mae Gweithrediaeth yr Alban yn rhagweld y bydd y broses o gyflwyno polisi cynllunio yn newid i ddod yn fwy cynhwysol a thryloyw, gan gynnwys yr angen i sefydlu'r NPF fel offeryn ar gyfer sicrhau'r broses o gyflwyno rhaglenni a pholisïau cenedlaethol.

Dyma brif nodau'r broses o foderneiddio'r ffordd y caiff cynllunio ei gyflwyno yn yr Alban:

- Addas at ei ddiben – mae angen i'r system gynllunio gael synnwyr cliriach o flaenoriaethau, ac i fynd i'r afael â gwahanol faterion mewn gwahanol ffyrdd. Wrth wneud hynny, bydd modd cyflwyno'r twf cynaliadwy sydd ei angen.
- Effeithlon – mae angen i'r cynlluniau datblygu diweddaraf fod wrth graidd system effeithlon sy'n rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr a phobl leol. Rhaid i gynllunio cael ei weld fel mecanwaith ar gyfer canlyniadau o ansawdd uchel, ac nid fel rhywbeth sy'n rhwystro datblygiadau.
- Cynhwysol – Dylai pobl leol gael eu cynnwys yn fwy yn y penderfyniadau sy'n llywio datblygiad eu cymunedau. Ni ddylai datblygiadau ddigwydd os nad yw sylwadau a barn y bobl leol wedi'u cymryd i ystyriaeth.
- Cynaliadwy – mae arnom eisiau i ddatblygiadau gyfrannu at dwf economaidd cynaliawdy. Yn yr unfed ganrif ar hugain, bydd cynllunio yn asiant ar gyfer darparu datblygu cynaliadwy a chyfiawnder amgylcheddol.<sup>50</sup>

#### 3.4.1 Ymchwil Gynllunio yn yr Alban

Mae gan yr Alban raglen ymchwil gynllunio weithgar, ar ffurf tebyg i'r rheini a ddefnyddir gan y DCLG a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn yr Alban, mae'r uned ymchwil yn cynnwys prosiectau sy'n gysylltiedig â thai, sy'n gyfran sylweddol o allbwn y rhaglen ymchwil.

### 3.5 Y System Gynllunio Gyfredol yn Iwerddon

Mae Gweriniaeth Iwerddon wedi gweld cyfraddau uchel o dwf yn y boblogaeth ac yng nghyfoeth y wlad yn ystod y dair degawd ddiwethaf, gan esgor ar benderfyniadau geriol o safbwynt cnyllunio. Yn nhermau CMC mae ar yr un maes chwarae â gwledydd eraill yr UE, gan gynyddu o ymhell islaw cyfartaledd yr UE ym 1973 (64%) i ymhell uwchlaw'r cyfartaledd erbyn hyn. Mae poblogaeth Iwerddon wedi cynyddu o 3 miliwn ym 1970 i 4.2 miliwn ar hyn o bryd, a disgwylir iddi gynyddu i fwy na 5 miliwn erbyn 2020.

<sup>50</sup> Modernising the Planning System, Gweithrediaeth yr Alban, 2005

Ar yr wyneb, mae'r system gynllunio yn debyg iawn i'r system a geir ym mhedair gwlad y DU – gyda hierarchaeth o gynlluniau a chanllawiau ar lefel genedlaethol – ond mae rhai gwahaniaethau bach ond sylweddol o safbwynt y dull o'i gweithredu.

Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol (MEHLG) yn gyfrifol am ddeddfwriaeth gynllunio. Caiff y system gynllunio ei chynnal gan 88 o Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae gan Iwerddon system apelio annibynnol trydydd parti unigryw a gaiff ei gweithredu gan An Bord Pleanala (y Bwrdd Apeliadau Cynllunio).

Llwyddodd *Deddf Cynllunio a Datblygu 2000* i atgyfnerthu'r holl Ddeddfau Cynllunio blaenorol gan baratoi'r ffordd ar gyfer y system gynllunio gyfredol a arweinir gan gynlluniau, gan wneud darpariaethau ar gyfer paratoi Strategaeth Ofodol Genedlaethol (NSS), Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol newydd (RPG) a Chynlluniau Datblygu zr lefel leol. Mae hefyd yn cynnwys nifer o fesurau eraill i alluogi'r system gynllunio i gyflwyno nodau NSS, meis gorfodi datblygwyr i ddarparu tai fforddiadwy a thai cymdeithasol a chyflwyno Parthau Datblygu Strategol.

Mae nifer o Ddeddfau pellach wedi adeiladu ar Ddeddf 2000, a'r diweddaraf o'r rhain yw *Deddf Cynllunio a Datblygu (Seilwaith Strategol) 2006*. Aet hon ati i gyflwyno trefniadau er mwyn i'r Bwrdd Apelio wneud penderfyniadau ar yr holl brosiectau seilwaith pwysig. Caiff nodiadau cyngor byr eu cyhoeddi yn amlinellu darpariaeth ddeddfwriaethol (ond nid yn ei dehongli) ar yr holl Ddeddfau Cynllunio a'r rheoliadau cysylltiedig.

Cyhoeddwyd y NSS yn 2002, yn dilyn cyfnod ymgynghori dwys. O'r dechrau'n deg, rhagwelwyd dogfen bolisi a fyddai'n darparu un fframwaith gofodol hirdymor i lywio buddsoddiad preifat a chyhoeddus. Dyma'r nodau gofodol allweddol:

- Datblygu rhanbarthol cytbwys, gan symud y pwyslais oddi ar anghenion i botensial, gan geisio ysgogi twf mewn ardaloedd trefol allweddol y tu allan i Ddulun, tra'n galluogi twf parhaus a chynaliadwy yn Nulun;
- Cynnwys tai newydd o fewn yr hierarchaeth drefol bresennol;
- Creu setliadau gwledig bywiog, a hynny gan gydnabod amgylchiadau lleol amrywiol; a
- Chreu seilwaith cyfathrebu cenedlaethol cyfoes.

Mae'r amcanion cyffredinol (cynnal twf economaidd a thwf o safbwynt cyflogaeth, gwella cystadleurwydd ac ansawdd bywyd i bawb ac ati) yn debyg i PCC a Chynllun Gofodol Cymru. Yn wahanol i Gynllun Gofodol Cymru, fodd bynnag, mae'r NSS yn rhan o'r system cynllunio defnydd tir, gan ddarparu fframwaith troswaol ar lefel genedlaethol ar gyfer hierarchaeth o gynlluniau rhanbarthol a lleol a rheoli datblygu, yn arbennig tai. Pwysig yw nodi hefyd fod yr un Gweinidog a'r un Adran yn gyfrifol am y NSS a'r ddeddfwriaeth gynllunio. Mae'r Strategaeth, a lefelau eraill o hierarchaeth y Cynllun, hefyd wedi helpu i

lywio polisiau eraill, yn enwedig penderfyniadau buddsoddi o safbwynt trafndiaeth a thelegyfathrebu.

Lluniwyd y RPG, yn adlewyrchu polisiau allweddol NSS a chan gynnwys dyraniadau tai, gan bwyllgorau newydd yn yr wyth rhanbarth, gan gynnwys Dulun Fwyaf, erbyn 2005, sef mwy neu lai o fewn blwyddyn. Dylai Cynlluniau Datblygu lefel Leol adlewyrchu RPG, er bod y gofyniad cyfreithiol i wneud hyn yn gymharol wan.

Yn yr un modd ag yng Nghymru, mae canllawiau cynllunio lefel genedlaethol yn Iwerddon yn cynorthwyo'r broses o lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau ar reoli datblygu. Ar hyn o bryd, ceir 19 o gyhoeddiadau cynllunio. Ar lefel leol, annogir y gwaith o gynhyrchu canllawiau arferion da megis canllawiau dylunio tai, gan awdurdodau lleol eu hunain, yn rhannol er mwyn adlewyrchu amrywiol amgylchiadau lleol ac i fanteisio ar arbenigedd lleol. Mae hyn yn debyg iawn i'r sefyllfa yng Nghymru, lle defnyddir Canllawiau Cynllunio Ategol (SPG).

#### 3.5.1 Ymchwil Gynllunio yn Iwerddon

Roedd y gwaith i baratoi NSS wedi'i gefnogi gan ymchwil gynhwysfawr. Yn ogystal ag ymchwil ad hoc ar gyfer canllawiau penodol, sefydlwyd rhaglen ymchwil fach yn 2005 i ddatblygu polisiau NSS. Mae'r DEHLG wedi cynnal y berthynas agos â NIRSA<sup>51</sup>, sef grŵp o brifysgolion wedi'i gydlynu gan Brifysgol Maynooth. Mae NIRSA wedi datblygu ymagwedd GIS tuag at ddadansoddi tueddiadau cynllunio gofodol sydd wedi bod yn werthfawr iawn wrth ddeall a chyflwyno materion allweddol megis lleoedd lle ceir problemau penodol o ran tagfeydd traffic a achosir gan gymudwyr mewn ceir. Mae adroddiadau blynyddol gan y Bwrdd Apelio hefyd yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer datblygu polisi.

#### 3.5.2 Cydweithredu ar draws Ffiniau

Hyd yn ddiweddar, nid oedd unrhyw system ffurfiol o gydlynu polisiau rhwng y Gogledd a'r De yn Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r DEHLG a'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DRP) yn Belfast bellach yn cydweithio i ddatblygu cynllun Iwerddon-gyfan, sy'n tynnu ynghyd y NSS a Strategaeth Datblygu Rhanbarthol Gogledd Iwerddon yn un ddogfen, mewn cydgysylltiad â grwpiau cynrychioliadol trawsffiniol.

<sup>51</sup> NIRSA is the National Institute for Regional and Spatial Analysis and was established as a University Institute at NUI Maynooth in January 2001.



### 3.6 Casgliadau Strategol

Yn yr adran hon, rydym wedi cynnig trosolwg o'r fframwaith cynllunio yn Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r negeseuon allweddol canlynol yn codi o'r trosolwg hwn:

- Mae Lloegr a'r Alban wedi parhau i ddefnyddio system o ddogfennau polisi unigol, a elwir yn 'Planning Policy Statements (PPSs)' a 'Scottish Planning Policy Statements (SPPs)' yn y drefn honno, yn hytrach na dogfen gyffredinol fel a geir yng Nghymru, sef y PCC;
- Ers datganoli, mae'r system gynllunio yn cael ei chydabod fwyfwy fel system gwbl ar wahân i'r system a geir yn Lloegr. Drwy fabwysiadu'r PCC, mae Cymru wedi ffafrio fframwaith sy'n defnyddio un polisi trosfwaol ar gyfer cynllunio defnydd tir, wedi'i gefnogi gan gyfres o gyngor technegol, drwy gyfrwng TANs, ac mae'r seiliau hyn yn ei gosod ar wahân i Loegr neu'r Alban;
- Mae Adolygiad Barker, sy'n rhoi pwyslais mawr ar symleiddio'r system gynllunio, yn cwestiynu a yw'r system yng Nghymru yn llwyddo i wneud hynny, ac awgryma y gallai gyfyngu ar hyblygrwydd y llywodraeth i adolygu polisi;
- Mae gan bob un o'r tair system raglen ymchwil weithgar i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi, a chaiff hon ei gweld fel cyfran bwysig o'r holl fframweithiau;
- Ymddengys fod yr Alban yn ffafrio ymagwedd gynhwysol tuag at ddatblygu polisi cynllunio ar lefel leol ac mae wedi creu PAN penodol ar gyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol;
- Ceir gwahaniaethau mawr yn natur Cynllun Gofodol Cymru, a Strategaethau Gofodol Rhanbarthol Lloegr (RSS), a gaiff eu hintegreiddio o fewn y system gynllunio. Cânt eu gweld fel offerynnau gwahanol, ac nid oes modd eu cymharu;
- Yn Iwerddon, caiff polisi cynllunio cenedlaethol ei integreiddio'n agosach â'r Strategaeth Ofodol Genedlaethol (NSS) – sy'n cyfateb â Chynllun Gofodol Cymru – sy'n rhan o'r system gynllunio. Rhydd hyn hierarchaeth o gynlluniau i gefnogi'r broses o reoli datblygiadau ac i lywio polisiau eraill sy'n ymwneud â chynllunio.

## 4.0 Y Broses o Ddatblygu Polisi

---

### 4.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon, awn ati i ystyried sut y mae canllawiau a pholisi cynllunio wedi'i ddatblygu, ei ddiweddarau a'i gyhoeddi yng Nghymru, ers datganoli.

### 4.2 Ffynonellau Tystiolaeth


Ceisio'r adolygiad hwn lunio dadansoddiad cadarn o'r broses o ddatblygu polisi hyd yn hyn drwy ystyried y sylwadau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a thrwy edrych ar nifer o astudiaethau achos sy'n ymwneud â pholisi a chanllawiau yng Nghymru, a hynny o dan y themâu bras canlynol:

- disgrifiad o bolisi a chanllawiau, eu diben a'u cwmpas;
- statws cyfredol y polisi neu'r canllawiau a sut yr aethpwyd ati i'w adolygu;
- beth a ysgogodd yr adolygiad / y broses o ddatblygu'r polisi? a
- sut y caiff polisi a chanllawiau eu cyhoeddu a'u lledaenu.

Yn yr astudiaethau achos, rydym wedi cynnwys PCC a PCMC fel dogfennau creiddiol yng Nghymru sy'n ganolog i'r gwerthusiad hwn. Rydym hefyd wedi dethol nifer o ddogfennau polisi a chanllawiau sy'n adlewyrchu gwahanol brofiadau yn ystod y broses adolygu. Rydym wedi mynd ati gyda'r cleient i archwilio'r rheini lle teimlwyd bod y broses yn gymharol llyfn a'r rheini lle y teimlwyd bod lle i wella. Rydym hefyd wedi cynnwys enghreifftiau lle mae rhannau o'r broses wedi'u his-gontractio i ymgynghorwyr allanol.

Dengys Ffigur 4.1 yr amser a gymerwyd i adolygu dogfennau canllaw a pholisi yr astudiaethau achos. Drwy hyn, gellir gweld yr amrywiaeth yn yr amser a gymerwyd ar gyfer y gwahanol ddogfennau.

Ffigur 4.1 Llinellau Amser yr Astudiaethau Achos



### 4.3 Y Broses Adolygu

Mae'r rhesymau dros adolygu dogfennau polisi a chanllawiau yng Nghymru yn amrywio. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried yr amryfal faterion dan sylw. Drwy'r astudiaethau achos, llwyddom i nodi tri prif ffactor sy'n ysgogi'r broses adolygu.

Un o'r cymelliannau cynharaf oedd datganoli, a'r awydd i sefydlu sail bolisi a oedd yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â Chymru. Mae'r ffactor ysgogol ar gyfer PCC yn amlwg yn dod o dan y categori hwn. Mae dilysrwydd hyn bellach yn pylu, fodd bynnag, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers datganoli a'r ffaith bod nifer o feysydd polisi bellach wedi'u hadolygu.

Diffyg polisi neu ganllawiau mewn maes penodol yw'r ail ffactor ysgogol, ac mae hwn yn dod yn fwyfwy cyffredin, fel yn achos PCMC ac ynni adnewyddadwy, neu bolisi sydd wedi dyddio, megis polisi trafndiaeth. Ar nifer o achlysuron, caiff hyn ei ategu gan flaenoriaethau Gweinidogion. Ni feirniadir y ffaith bod blaenoriaethau gwleidyddol yn ffactor sy'n ysgogi adolygiadau, oni bai bod hynny'n effeithio ar feysydd polisi eraill y mae eu hangen ar y system gynllunio. Cafwyd enghraifft o hyn yn yr oedi wrth fwrw ymlaen â TAN 18: Trafndiaeth<sup>52</sup>. Nid oedd y TAN hwn wedi datblygu mor gyflym ag y bwriadwyd yn wreiddiol o ganlyniad i ailflaenoriaethu adnoddau staff.

Mae'r ffactor olaf sy'n ysgogi'r broses o ddatblygu polisi yn deillio o raglen PdW, a bennodd amserlen ar gyfer adolygu'r broses o wneud cynlluniau yng Nghymru. Roedd hyn felly wedi ysgogi'r gwaith o adolygu a sefydlu nifer o bolisiau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â'r broses o wneud cynlluniau, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflwyno'r broses CDLI.

Awgrymodd nifer o gynrychiolwyr o Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a fynychodd y gweithdai y dylid tynnu ynghyd grwpiau cynghori yn y dyfodol i adolygu canllawiau technegol a pholisi, i brofi a thrafod a oes angen adolygiad, a hynny rhyw ddwy flynedd ar ôl ei gyhoeddi, e.e. ailffurfio TAG i adolygu'r TAN yr oedd yn gyfrifol amdano.

Dywedodd mwyafrif yr ymgynghoreion, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol, nad oeddent yn ymwybodol o amserlen yr adolygiad, a'u bod ond yn cael gwybod am adolygiad pan fo'r ddogfen ymgynghori yn dod i law. Mynegwyd diddordeb cryf, a hynny gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a oedd yn mynychu'r gweithdy, mewn rhoi'r cyfle i randdeiliad gyfrannu at y gwaith o sefydlu'r rhaglen adolygu.

<sup>52</sup> TAN 18 Trafndiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

Mae'n hanfodol cael gwybod ymlaen llaw am yr amserlen adolygu er mwyn annog pobl i ymgysylltu; mae'n creu mwy o ddealltwriaeth o fframwaith y polisi, gan ei gwneud yn bosibl i sefydliadau flaengynllunio ac yn rhoi'r cyfle i ymgysylltu'n fwy effeithlon â chymunedau ehangach drwy gyfrwng sefydliadau ymbarel.

#### 4.4 Defnyddio Gwaith Ymchwil

Roedd mwyafrif yr ymgynghoreion yn ystyried bod defnyddio gwaith ymchwil i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi yn "*hanfodol*" ac yn "*bwysig*". "*Mae gan bolisiâu fwy o hygyrdd os cânt eu cefnogi gan sail dystiolaeth.*" Nid chwestiynwyd yr egwyddor o ddefnyddio gwaith ymchwil.

Fodd bynnag, roedd rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi cwestiynu a fyddai arbedion maint i'w cael drwy ddefnyddio ymchwil o Loegr neu drwy gyfuno adnoddau â DCLG, er mwyn ategu cyllideb Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru (WPRP). Cynhaliodd ECOTEC werthusiad cynhwysfawr o WPRP yn 2006. Yn y gwerthusiad hwn, argymhellwyd y mynd ati i gomisiynu mwy o waith ymchwil ar y cyd; argymhellwyd hefyd y dylid datblygu 'llyfrgell' o ymchwil, gan fod gwybod pa waith ymchwil oedd wedi'i gynnal mewn mannau eraill yn broblem fawr.

Er bod yr ymgynghoreion yn cydnabod bod gwaith ymchwil yn bwysig, awgrymodd nifer ohonynt hefyd bod 'safon y gwaith ymchwil yn amrywio'. Awgrymwyd bod y gwaith ymchwil a gynhyrchwyd mewn nifer fach o ardaloedd yn anghywir. Tynnwyd sylw at y broblem hon o safbwynt yr elfennau gofodol ar rai o'r TANs. Un o'r problemau penodol a amlygwyd mewn nifer o weithdai oedd "*na cheir unrhyw gyfle i herio'r sail dystiolaeth*" o safbwynt yr elfennau gofodol.

Roedd mwyafrif yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a oedd yn mynychu'r gweithdai yn ystyried ei bod yn bwysig cynnwys ymarferwyr yn y broses o gomisiynu gwaith ymchwil am fod hynny'n "*sicrhau bod argymhellion yn realistig a bod gan y gwaith ymchwil dargedau penodol a'i fod yn realistig.*" Argymhellodd adolygiad yr WPRP y dylid adfywio Panel Defnyddwyr<sup>53</sup> yr WPRP, a hynny gyda chylch gwaith ehangach, er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Canfu adolygiad yr WPRP bod 23% o'r prosiectau a gefnogir gan yr WPRP ers 2000, a bod 30% o'r gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o ddatblygu polisi. Yn

<sup>53</sup> Roedd Panel Defnyddwyr yr WPRP yn cynnwys aelodau mewnol y Cynulliad ac aelodau allanol. Dyma'r sefydliadau allanol a gynrychiolwyd ar y Panel Defnyddwyr: y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref (RTPI), Sefydliad Brenhinol y Syrfeyr Siartredig (RICS), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ac Ysgol Gynllunio Prifysgol Caerdydd (CPlan).

ogystal, roedd yr astudiaethau achos yn awgrymu mai dim ond nifer fach o astudiaethau ymchwil a ddefnyddiwyd. Awgryma hyn y gellid integreiddio'r berthynas rhwng gwaith ymwchil, a'r gwaith o adolygu a datblygu polisi yn agosach o fewn y cylch polisi.

## 4.5 Dulliau Drafftio

Wrth werthuso'r dulliau drafftio a ddefnyddiwyd, aethom ati i ystyried canfyddiadau'r astudiaethau achos, ac i gynnwys profiadau a barn yr ymgynghoreion. Bu pedwar dull cyffredinol o ddrafftio canllawiau a pholisi yn y Cynulliad, er yn ymarferol, maent yn amrywio mewn mannau.

### 4.5.1 PCC a Fforwm Cynllunio Cymru

Roedd y broses o ddrafftio PPW wedi cynnwys Fforwm Cynllunio Cymru a nifer o is-grwpiau. Bu'r is-grwpiau yn cyfrannu at ddrafftio PCC, er bod lefel a safon y cyfraniadau yn amrywio o un is-grŵp i'r llall, gyda rhai ohonynt yn ailadrodd fersiynau Lloegr. Gwnaed ymrwymiad cryf o safbwynt adnoddau gan staff yr Is-adran Gynllunio wrth ddrafftio PCC, a chafodd hyn yn ei dro effaith negyddol ar weithgareddau eraill yr Is-adran Gynllunio a'i hadolygiadau polisi.

Cafodd y Fforwm a'i is-grwpiau ei weld fel mecanwaith defnyddiol ar gyfer datblygu lefel o ymgysylltu rhwng Cynulliad, gan gynnwys y Gweinidog a swyddogion yr Is-adran Gynllunio a grwpiau allanol. Er yr ystyriwyd ei fod yn rhywbeth cadarnhaol o safbwynt rhoi mynediad at y Gweinidog, byddai mwy o groeso iddo pe bai wedi cynnig cyfle i ddylanwadu ar yr agenda; awgrymwyd mewn gweithdy bod angen i gael "*deialog agored*".

Mae angen ystyried aelodaeth y Fforwm yn ofalus, ac er bod angen iddo fod yn gynhwysol, mae angen rheoli nifer y cynrychiolwyr er mwyn cynnig grwpiau o faint rhesymol. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan ystod o randdeiliaid ac yn fewnol o fewn y Cynulliad. Teimlwyd ei bod yn bwysig sicrhau nad yw'r gwaith o wasanaethu grŵp o'r fath yn mynnu gormod o adnoddau, a bod yr adnoddau a ddyrennir iddo yn adlewyrchu ei gyfraniad i'r broses.

### 4.5.2 Drafftio'n Fewnol

Mewn rhai achosion, yn enwedig lle bu amserlen dynn ar gyfer adolygu a drafftio, er enghraifft PCMC, ni chafwyd unrhyw fewnbnw allanol. Yn achos PCMC, ymddengys fod hyn wedi gweithio'n ddal, ac roedd y polisïau a ddeilliodd o hyn yn briodol ac nid yw eu defnyddwyr wedi rhoi adborth negyddol amdanynt, naill ai drwy gyfrwng y Cynulliad, neu drwy gyfrwng y cyfweiliadau a'r gweithdai. Awgryma hyn felly bod defnyddwyr yn eu cymeradwyo. Fodd bynnag, mae perygl bod y dull hwn yn ynysu'r rheini sy'n defnyddio'r polisïau a'r canllawiau y pen draw, a bod yr hyn a gynhyrchir yn anodd iawn ei ddefnyddio.

Mae canfyddiadau'r ymgynghoriadau â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r gweithdai yn dangos bob gan bob sector awydd gref i gael bod yn rhan o'r broses ddrafftio er mwyn sicrhau bod y polisïau yn addas at eu diben. Teimlwyd y byddai hyn yn annog rhanddeiliaid i ymddiried yn y polisïau yn gynnar.

#### 4.5.3 Grwpiau Cynghori Technegol

Mae'r broses o ddrafftio bron bob un o'r TANs wedi cynnwys Grŵp Cynghori Techegol (TAG) i ryw raddau. Caiff y TAGs eu sefydlu fel cyrff cynghori gorchwyl a gorffen. Mae'r profiad o'r TAGs wedi amrywio'n slweddol o safbwynt yr Is-adran Gynllunio a chyfranogwyr i sefydliadau eraill fel ei gilydd, a hynny am amryw resymau. Roedd pawb y cynhaliwyd cyfweiliad â hwy a phawb a fynychodd y gweithdai a oedd wedi ymwneud â TAG yn teimlo eu bod yn fuddiol, ac y dylid dal gafael arnynt, er y cydnabuwyd hefyd bod lle i'w gwella. Roedd y rheini y cynhaliwyd cyfweiliad â hwy nad oeddent wedi bod yn rhan o'r broses hefyd yn ffafrio'r egwyddor o ddefnyddio grŵp o'r fath at ddibenion drafftio. Meddai un o'r ymgynghoreion: "*Maent yn helpu i godi materion o'r dechrau'n deg,*" a meddai un arall: "*Maent yn cynnig cyfle defnyddiol i rwydweithio ac yn caniatáu i bobl ddod at gonsensws.*"

#### Aelodaeth

Caiff aelodaeth pob TAG ei theilwra er mwyn sicrhau yr estynnir gwahoddiad i'r buddiannau priodol gael bod yn rhan ohono; teimlwyd na fyddai rhestr safonol o wahoddiadau yn addas at ddiben y Grwpiau wrth fynd i'r afael â meysydd polisi arbenigol a phenodol. Fodd bynnag, erys cynrychiolwyr y Cynulliad (yr Is-adran Gynllunio, ac Adrannau priodol eraill) ac Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Mae CLILC yn enwebu'r cynrychiolwr/cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, y farn gyffredinol yn y gweithdai ac ymgynghoriadau'r Awdurdodau Cynllunio Lleol oedd nad yw'r unigolion mwyaf priodol bob amser yn cael eu henwebu. Awgrymodd nifer o ymgynghoreion, a hynny'n Awdurdodau Cynllunio Lleol ac eraill, y gallai POSW fod yn sefydliad mwy priodol ar gyfer canfasio am gynrychiolwyr o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol. Roedd nifer fach o ymatebwyr hefyd wedi mynegi pryder bod rhai TAGs yn cael eu "*dominyddu gan awdurdodau lleol*"; yr hyn a gododd mewn cyfweiliadau eraill oedd y ffaith nad ydynt bob amser yn cynrychioli Cymru gyfan, e.e buddiannau gwledig. Un o'r diffygion a nodwyd yn gyffredinol oedd nad yw'r TAGs yn cynnig unrhyw sicrhwydd eu bod yn ymgynghori â'u hetholaeth gynrychioladol a'u bod yn gweithredu'n unig i gynrychioli buddiannau eu sefydliadau eu hun.

Ystyriwyd ei bod yn bwysig hefyd bod ymarferwyr yn ymwneud â'r TAGs, ac mai'r unigolion hynny a oedd wedi cael profiad diweddar penodol o'r testun dan sylw a fyddai'n

gallu gwneud y cyfraniad mwyaf, yn hytrach na gofyn am uwch swyddogion i gynrychioli sefydliad.

### Strwythur a Fformat

Teimlwyd bod maint y grwpiau yn hanfodol o safbwynt gweithio'n effeithiol. Ystyriwyd mai 10 i 12 oedd y nifer orau a'r uchafswm delfrydol. Roedd gan TAN 8 fwy o aelodau na hyn o ganlyniad i bwysau gan gyrff anllywodraethol (NGOs) a phartïon eraill â diddordeb, a oedd am fod yn rhan o'r TAG. Roedd yn cael ei weld fel grŵp lobiö yn hytrach na grŵp cyngor technegol. Roedd y ffaith bod y grŵp hwn mor fawr yn cael ei weld fel gwendid; roedd yn golygu bod y broses o weithredu'r grŵp yn cael ei rhwystro gan anghydfod a safbwyntiau pegynnol – roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i'r testun, sef ynni adnewyddadwy, sydd yn amlach na pheidio yn arwain at safbwyntiau pegynnol. Mae hyn hefyd yn clymu â'r angen i fod yn fwy eglur am gylch gwaith y TAG – er eu bod yn bwysig wrth gasglu safbwyntiau ymarferwyr yn gynnar yn ystod y broses, rhaid peidio â meddwl na chaiff y rheini nad ydynt yn aelodau eu cynrychioli; yn hytrach, mae'n bwysig sicrhau bod yr aelodau mor gynrychioliadol ag sy'n bosibl, ac ystyried dulliau eraill o ymgysylltu â'r gymuned gynllunio ehangach, efallai drwy ddefnyddio seinfyrddau a sicrhau bod aelodau yn ymgynghori â'u 'hetholaeth' eu hunain.

Roedd rhai o'r cyfweleion yn beirniadu'r ffaith nad oedd yr aelodau yn mynychu'r cyfarfodydd TAG yn gyson. Dywedodd un cyfwelai y dylai pobl sy'n ymuno â'r grŵp wneud ymdrech i fynychu cyfarfodydd, sydd fel arfer yn cael trefnu ymhell ymlaen llaw. Cydnabuwyd, fodd bynnag, y gallai hyn ddigwydd mewn rhai achosion oherwydd bod y TAG yn cyfarfod dros gyfnod mor hir.

Ceir problem gyffredinol o ran gallu unigolion o bob sector i fod yn rhan o grwpiau megis TAGs, er gwaethaf eu parodrwydd i gyfrannu. Rhaid i amserlen y cyfarfodydd, y dull o gyfranogi a'r llwyth gwaith oll fod yn sympathetig i'r mater hwn, tra'n parhau i geisio gwneud cyfraniad ystyrion.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod daearyddiaeth Cymru yn ei gwneud yn anodd i bobl o bob rhan o Gymru gyfranogi. Dywedodd y rheini o'r sector gwirfoddol / elusennol, yn ogystal â'r rheini o'r sector preifat ei bod yn anodd mynychu cyfarfodydd yr oedd yn rhaid teithio pellter iddynt. Nodwyd hyn hefyd gan gyrff cyhoeddus, ond nid i'r un raddau. Soniwyd am un achos pan fu modd i aelod o TAG fod yn 'aelod o bell', a oedd yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod; er nad oedd hyn yn ddelfrydol, roedd yn ffordd ymarferol o alluogi'r aelod hwnnw i gyfranogi.



## Rôl

Mae rôl y TAGs wedi amrywio hefyd; roedd rhai o'r aelodau yn feirniadol o'r ffaith nad oeddent yn sicr o ddiben y TAG, er bod aelodau'r TAG a ffurfiwyd ar gyfer TAN 2 wedi cael papurau gwaith manwl yn amlinellu'r rhaglen waith a'r amserlen ar gyfer ei chyflawni. Mae rhai TAGs wedi ymwneud â phennu amserlen ar gyfer adolygu'r TAN, mae eraill wedi mynd ati i gyfrannu at y gwaith o ddrafftio adrannau o'r TAN, ac mae eraill wedi'u defnyddio fel seinfyrddau ar gyfer materion y mae angen mynd i'r afael â hwy ac wedi trafod drafftiau o'r TAN.

Roedd llawer o'r cyfweleion a oedd wedi ymwneud â TAG yn teimlo na ddaeth y grŵp i ben yn iawn. Nid oeddent wedi chwarae unrhyw rôl wrth adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad na'r fersiwn derfynol o'r TAN. Roedd rhai wedi colli hyder o safbwynt a gafodd eu sylwadau eu hystyried yn y ddogfen derfynol, cyn yr ymgynghoriad. Awgrymwyd mewn un gweithdy y gallai'r TAG gyfarfod ar ôl dwy flynedd i adolygu sut y mae'r TAN wedi gweithio ac i gynghori ar adolygiad yn y dyfodol.

### 4.5.4 Ymgynghorwyr

Mewn nifer fach o achosion, penodwyd ymgynghorwyr i gefnogi'r broses ddatblygu, er enghraifft penodwyd cwmni ymgynghori Nathaniel Litchfield and Partners i gyfrannu tuag at TAN 13: Twristiaeth a TAN 16: Chwaraeon a Hamdden. Yn y ddau achos hyn, eu rôl oedd asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Defnyddiwyd TAG hefyd i ddrafftio'r ddau TAN. Contractiwyd ARUP hefyd i olygu'r PCC ar ôl ymgynghori er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn gyson a'i bod yn llifo, gan fod nifer o unigolion wedi bod wrthi'n drafftio. Oherwydd y gwaith hwn, fe'u comisiynwyd i helpu i lunio'r Canllaw Ategol, a oedd yn rhoi canllawiau ar ddefnyddio PCC yng ngoleuni'r system Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Y prif reswm dros ddefnyddio ymgynghorwyr oedd yr angen am adnoddau ychwanegol i ategu adnoddau mewnol yr Is-adran Gynllunio; bu modd i'r ymgynghorwyr hefyd ddod â gwybodaeth arbenigol i'r broses a chyflwyno safbwynt gwrthrychol a chytbwys o'r ddogfen ddrafft. Nid oedd un ymgynghorai wedi cwestiynu'r arfer cyffredinol o ddefnyddio ymgynghorwyr; serch hyn, mewn rhai achosion, teimlwyd y gallai partneriaeth o randdeiliaid fod wedi gwneud y gwaith.

## 4.6 Mekanweithiau Ymgynghori

Mae'r holl ddogfennau canllaw a pholisi yn destun ymgynghori, ac mae fformat cyffredin ar gyfer y mwyafrif. Mae'n golygu anfon y ddogfen ddrafft i restr bostio safonol a grwpiau â diddordeb yn y maes. Caiff y ddogfen ddrafft hefyd ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Anfonir llythyr gyda'r ddogfen yn nodi cylch gwaith yr ymgynghoriad a'r amserlen.

#### 4.6.1 Hysbysu am Ymgynghoriadau

Mae'n bosibl bod y rheini sy'n ymwneud yn agos â maes polisi penodol yn ymwybodol bod ymgynghoriad cysylltiedig ar ddod; serch hyn, mae nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a oedd yn mynychu'r gweithdai o'r farn mai'r cyfan a oedd yn digwydd oedd eu bod yn "*glanio ar eich desg*". Mae hyn yn arwain at broblemau o safbwynt neilltuo adnoddau ar gyfer ymateb. Yn gyffredinol hefyd, roedd diffyg hyder o safbwynt a fyddent yn derbyn gwahoddiadau i ymgynghori yn awtomatig.

Amlygodd Awdurdodau Cynllunio Lleol bod rhywfaint o gyfathrebu rhyngddynt hwy a'r Cynulliad, a hynny ar lefel wleidyddol ac ar lefel swyddogion, mewn cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn fel arfer. Teimlir bod y rhain yn ddefnyddiol i ryw raddau, ond mae modd eu gwella a'u defnyddio i roi gwybod ymlaen llaw am ymgynghoriadau ac adolygiadau polisi sydd ar ddod. "*Mae'r fforymau hyn yn ei gwneud yn bosibl trafod rhaglenni gwaith a rhoi rybudd ymlaen llaw am ddraftiau sydd ar ddod ac ati.*"

Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn meddwl bod y llythyrau a anfonir gan y Cynulliad gyda'r ymgynghoriadau yn ddefnyddiol a'u bod yn rhoi crynodebau defnyddiol fel sail i adroddiadau i bwyllgor, bwrdd neu grŵp rhanddeiliaid y sefydliad ei hun ac ati.

#### 4.6.2 Amserlen

Fel arfer, caniateir o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriadau<sup>54</sup>; mae'r Is-adran Gynllunio yn ymestyn y cyfnod hwn i gymryd cyfnodau 'araf' i ystyriaeth, megis yr haf a'r Nadolig, er nad oedd nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rhieni a oedd yn mynychu'r gweithdai yn ymwybodol o hyn. Digwydd hefyd weithiau bod yr Is-adran Gynllunio yn ymestyn y cyfnod yn dilyn cais gan ymgynghoreion, e.e. TAN 8.

Roedd rhai yn teimlo bod y broses ymgynghori yn rhy fyr, roedd nifer fach yn teimlo ei bod yn rhy hir, a'i bod yn ymestyn y cyfnod ar gyfer cyhoeddi canllawiau a pholisi. Mae sefydliadau gwirfoddol yn enwedig yn teimlo bod y cyfnod o 12 wythnos yn broblem, gan fod angen iddynt 'ddechongli' y drafftiau ar gyfer eu hetholaeth / aelodau er mwyn annog pobl i roi adborth a chyflwyno ymatebion. Roedd hyn yn arbennig o broblematig pan nad oedd unrhyw ymwybyddiaeth bod ymgynghoriadau ar ddod.

#### 4.6.3 Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Yn gynyddol, mae cwestiynau wedi'u holi fel rhan o'r broses ymgynghori, â'r nod o lywio ymatebion i faterion penodol ac i helpu i reoli'r broses ymgynghori. Mae'r cwestiynau yn rhoi ffocws i'r ymgynghoriad lle mae newidiadau arfaethedig, yn hytrach na chanllawiau

<sup>54</sup> Mae cyngor Swyddfa Cabinet y DU yn nodi y dylai'r cyfnod ymgynghori ysgrifnedig bara am o leiaf 12 wythnos yn y ddogfen Code of Practice on Consultation, Swyddfa'r Cabinet, Better Regulation Executive, 2004.

neu bolisi presennol. Nid oedd TAN 13 wedi defnyddio cwestiynau fel hyn, ac o edrych yn ôl, teimlai'r Is-adran Gynllunio y byddai wedi bod yn ddefnyddiol eu defnyddio er mwyn annog ymatebion mwy strwythuredig i baragraffau penodol, yn hytrach na chael ymholiadau cyffredinol am y polisi, sydd yn anos eu hasesu fel rhan o gylch gwaith yr ymgynghoriad.

Roedd y farn gyffredinol wedi'i rhannu rhwng y rheini a deimlai fod y cwestiynau yn helpu wrth ymateb i'r ymgynghoriad am eu bod yn "*ffocysu eich sylw*", a'r rheini a deimlai fod y cwestiynau yn "*rhoi gormod o arweiniad i'r ymatebion*". Cafwyd ymholiadau hefyd o safbwynt "*pa bwyslais a roddir i ymatebion sydd y tu allan i'r cwestiynau hyn?*" Roedd y rheini a oedd yn mynychu'r gweithdai wedi ategu'r sylwadau hyn.

Roedd yr ymatebwyr yn fwy ffafriol i'r egwyddor o ddefnyddio cwestiynau os oeddent yn hyderus bod y sylwadau eraill yr oeddent yn eu gwneud yn cael eu hystyried hefyd a bod hyn yn cael ei egluro yn ystod y broses ymgynghori.

Byddai egluro cefndir y cwestiynau yn helpu i ddatrys y broblem hon, yn yr un modd â gwneud datganiadau clir ymlaen llaw am bwyntiau lle na fyddai unrhyw ymatebion y tu allan i'r cwestiynau yn cael eu hystyried, e.e. oherwydd blaenoriaethau gwleidyddol neu ofynion deddfwriaethol. O'r farn a fynegwyd gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol ac yn y gweithdai, byddai hyn yn sicrhau bod ymgynghoreion yn fwy tebygol o dderbyn y ffaith bod cwestiynau yn mynd i gael eu defnyddio.

#### 4.6.4 Adborth o Ymgynghoriadau

Mae'r Cynulliad yn llunio adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ôl pob ymarfer. Mae'r rhain yn dueddol o grynhoi'r ymatebion a gafwyd. Mae'r llythyr sy'n gwahodd cynigion fel arfer yn cynnwys datganiad safonol yn nodi y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi.<sup>55</sup> Nid yw'r adroddiad, fodd bynnag, yn rhoi unrhyw fanylion am ymateb y Cynulliad i'r cynigion nac a fydd yn eu hystyried. Nododd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol fod hyn yn wendid mawr yn y broses, ac roedd y gweithdai yn cefnogi'r farn hon. Yn ôl un ymatebwr: "*Dydyn ni ddim yn cael ymateb na chydabyddiaeth ac felly dydyn ni ddim yn gwybod os yw ein hymateb wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu polisi ai peidio. Rydym yn gwbl anymwybodol o werth ein cyfraniad.*" Dywedodd un arall "*nid yw hynny'n galonogol*". Fodd bynnag, yn achos TAN 8, roedd yr adroddiad wedi nodi sylwadau ac wedi rhoi ymatebion. Nododd yr Is-adran Gynllunio fod cydnabyddiaeth yn cael ei hanfon at bawb sy'n cyflwyno ymateb gan gadarnhau hefyd bod yr ymatebion yn cael eu hystyried yn fanwl, a'u bod yn cael eu defnyddio i lywio'r polisi / canllawiau a gyhoeddir.

<sup>55</sup> "*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r ymatebion i'r ddogfen hon. Fel arfer mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yw awdur yn cael eu cyhoeddi ynghyd â'r ymateb, gan fod hyn yn rhoi hygyrdd i'r ymarfer ymgynghori.*"

Y farn gyffredinol yn y cyfweiliadau ag Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r gweithdai oedd y byddent yn fwy bodlon pe baent yn cael gwybod nad oedd eu sylwadau wedi'u hystyried o achos rheswm cyfiawn, e.e. pwynt cyfreithiol neu flaenoriaeth wleidyddol, na phe na bai ganddynt unrhyw syniad a ydynt wedi'u hystyried ai peidio.

Awgrymodd un cyfwelai: "*mae'n bwysig meithrin hyder, ymddiriedaeth a chonsensws â'r ymgynghoreion gyda dealltwriaeth y bydd rhywun yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.*" Awgrymwyd y byddai rhoi adborth ar yr ymgynghoriadau yn helpu i ddiwallu'r angen hwn.

Mae'r diffyg adborth hwn yn cyfrannu at y farn a fynegwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a oedd yn mynychu'r gweithdai fel ei gilydd, sef nad yw'r fersiynau terfynol yn newid rhyw lawer ar ôl ymgynghori yn aml. "*Prin iawn yw'r dystiolaeth fod y fersiynau terfynol o ganllawiau neu bolisi wedi'u newid o gymharu â'r drafftiau a gyhoeddwyd.*"

#### 4.7 Lledaenu

Fel arfer, ceir proses safonol o ledaenu dogfennau polisi a chanllawiau, sy'n cynnwys dosbarthu copïau o'r fersiwn derfynol i'r rhestr safonol o gysylltiadau sy'n berthnasol i'r maes polisi penodol ac i'r ymatebwr. Caiff ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cynulliad.

Roedd digwyddiadau hyfforddi a briffio i hyrwyddo dealltwriaeth o ganllawiau a pholisi newydd neu ddiwygiedig yn boblogaidd gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol a byddai croeso i ystod ehangach o'r digwyddiadau ledled Cymru. Cafodd hyn ei gefnogi hefyd gan y rheini a fynychodd y gweithdai. Teimlwyd eu bod yn helpu i ddatblygu cysylltiad cyfathrebu ddwyffordd â'r Cynulliad ac i feithrin dealltwriaeth o'r canllawiau a'r polisïau amrywiol. Un o'r pwyntiau a godwyd yn y gweithdy, ac a gefnogwyd gan sylwadau eraill a wnaed mewn cyfweiliadau ag Awdurdodau Cynllunio Lleol oedd bod "*dwy ran i'r broses ledaenu: sef dosbarthu'r dogfennau, ond hefyd datblygu dealltwriaeth – drwy gyfrwng crynodebau gweithredol a thrwy siarad â phobl.*" Pwysleisiwyd hefyd na ddylai'r digwyddiadau hyn fod ar gyfer staff yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn unig, ond eu bod hefyd yn agored i eraill, gan gynnwys cyrff statudol eraill, a'r sector cymunedol a gwirfoddol.

Un o'r materion eraill a godwyd oedd gofynion hyfforddi aelodau etholedig Awdurdodau Cynllunio Lleol a chynghorau tref a chymuned ar bolisi cynllunio cenedlaethol. Er bod CLILC yn darparu rhywfaint o hyfforddiant i Awdurdodau Cynllunio Lleol, teimlwyd nad oedd yn diwallu'r angen yn gyffredinol.

O ran ei amseru, dylid darparu'r hyfforddiant hwn yn unol ag adeg cyhoeddi canllawiau / polisi penodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi sylweddol.

## 4.8 Nodi a dod o hyd i bolisi a chanllawiau

Mae nifer yn teimlo bod y fframwaith a ddarparwyd gan PCC / PCMC a'r TANs / MTANs yn "*syml ac yn glir*" i'w ddilyn. Fodd bynnag, mae'n dod yn fwyfwy anodd o safbwynt y MIPPS, er eu bod yn cael eu derbyn fel ffordd resymol o gadw PCC wedi'i ddiweddarau. Yn ogystal, ceir dogfennau eraill lle gellir gweld canllawiau a pholisi cynllunio, gan gynnwys y Cylchlythyrau. Mae nifer yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r ystod gyfan o ganllawiau a pholisi diweddaraf; gan gynnwys nifer o gyrff statudol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol. "*Mae'n anodd iawn aros yn gyfredol â'r polisi diweddaraf, ac mae gofyn mynd ati'n weithredol i sicrhau hynny.*"

Un o'r problemau cyffredin a amlygwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a oedd yn mynychu'r gweithdai oedd gwybod p'un a yw Deddfwriaeth Sylfaenol ac Is-ddeddfwriaeth wedi'i chyflwyno yng Nghymru. Mae'r broblem hon yn dwysáu oherwydd yn aml ceir achosion lle cânt eu cyflwyno yn Lloegr ond nid yng Nghymru, a disgwylir iddynt gael eu cyflwyno'r un pryd. Mae disgwyl o hyd bod Cymru yn dilyn yr un trywydd â Lloegr. Mae cyflwyno canllawiau neu bolisiau newydd yn Lloegr yn codi disgwyliadau yng Nghymru ac weithiau'n pennu angen yng Nghymru; byddai datganiad o fwriad gan Gymru yn helpu i leddfu'r dryswch hwn. Dywedodd un ymatebwr bod polisi o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 "*yn aml yn cael ei fabwysiadu'n gynt yn Lloegr ac nid yw bob amser yn glir beth yw statws hyn ac weithiau mae'r gwrthranau cyfatebol yng Nghymru yn anodd dod o hyd iddynt.*"

Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi rhestr o'r canllawiau polisi cynllunio presennol ym Mynegai Polisi Cynllunio Cymru,<sup>56</sup> sydd ar gael ar ei wefan, sy'n boblogaidd ymysg ymarferwyr. Fodd bynnag, y fersiwn ddiweddaraf sydd ar gael yw Ionawr 2006 a bu nifer fawr o newidiadau i'r rhestr ers ei chyhoeddi. Dyddiad y fersiwn flaenorol yw Hydref 2002.

Dylid sicrhau bod rhestr grynodeb clir o ddeddfwriaeth, canllawiau a pholisi sy'n berthnasol i Gymru ar gael i bobl, yn enwedig y rheini nad ydynt yn ymwneud yn rheolaidd â system gynllunio Cymru, a sicrhau mai'r fersiwn ddiweddaraf yw honno.

Mae'r rhan fwyaf o ddogfennau ar gael ar wefan y Cynulliad. Fodd bynnag, mae llawer o'r ymgylgoreion yn ei chael yn anodd defnyddio'r wefan wrth chwilio am ddogfen benodol; ni cheir safle unigol ar gyfer canllawiau a pholisi presennol. "*Dydi pethau ddim bob amser yn y lle yr ydych yn ei ddisgwyl,*" er enghraifft, nid yw'r polisi ar drosi ysguboriau yn yr adran breswyl. Ceir problemau hefyd o safbwynt dolenni i bolisi perthnasol a gedwir mewn Adrannau ac Is-adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad. Beirniadwyd y wefan a'r swyddogaeth chwilota gan nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol ac ymgylgoreion am fod yn

<sup>56</sup> Mynegai Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr 2006

anodd ei thrin. Dywedodd un ymgynghorai o un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol, "*Yn y bôn, mae angen i'r wefan gael ei hail-ddylunio.*" Nid yw dyluniad y wefan o fewn cylch gwaith yr Is-adran Gynllunio; serch hyn, byddem yn awgrymu bod y sylwadau hyn yn cael eu bwydo i'r tîm cyfathrebu a bod y cysylltiadau rhwng gwahanol adrannau'r wefan yn cael eu gwella.

Awgrymodd nifer o'r ymgynghoreion y dylid gwneud mwy o ddefnydd o'r Porth Cynllunio<sup>57</sup> fel modd o gynyddu mynediad at bolisi a gwybodaeth bresennol am y fframwaith polisi yng Nghymru. Mae hwn yn awgrym dilys a byddai o gymorth i godi lefel y mynediad at wybodaeth am bolisi yng Nghymru.

## 4.9 Cynhwysedd

I'r raddau helaeth, mae'r gwerthusiad wedi canolbwyntio ar gynnwys yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a phobl broffesiynol ym maes cynllunio. Fodd bynnag, nododd amcanion y gwerthusiad bod angen edrych ar sut y gallai'r prosesau a ddefnyddir i ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol fod yn fwy cynhwysol. Cydnabyddir yn eang, fel y gwelwyd yn y cyfweiliadau a'r gweithdai, ei bod yn anodd iawn ymgysylltu â buddiannau cyhoeddus neu breifat tan fod llinellau wedi'u tynnu ar fapiau (ac eithrio'r buddiannau hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio / datblygu). Mae eu cysylltiad â pholisi cenedlaethol weithiau'n anodd ei ddiffinio ac felly mae diffyg cymhelliant iddynt gymryd rhan.

Fodd bynnag, cynigiodd un o'r ymgynghoreion "*bod llawer o wybodaeth ar gael ar lefel leol.*" Mae hyn yn arbennig o berthnasol o safbwynt polisi sy'n ymwneud â grwpiau penodol, megis y canllawiau diweddar a luniwyd ar gyfer sipsiwn a theithwyr. Yn ôl un Awdurdod Cynllunio Lleol "*y gallai [grwpiau cymunedol ehangach] gael profiad o faterion perthnasol nad yw'r ymarferwyr yn sylwi arnynt; mae ganddynt wahanol safbwyntiau a dylanwadau.*"

Awgrymodd nifer o ymgynghoreion y dylid defnyddio seinfyrddau i gynnwys grwpiau ehangach yn y broses o ddatblygu polisi. Gallai'r rhain gael eu defnyddio i "*roi prawf ar bolisiau cynllunio cenedlaethol, wedi'u llunio ar sail 'defnyddwyr' y polisiau ar lawr gwlad, a phobl y mae'r polisiau hyn yn effeithio arnynt.*"

Fodd bynnag, rhybuddiodd nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol bod angen rheoli'r ymgysylltiad hwn gan y grwpiau cymuned ehangach yn ofalus a bod angen rheoli disgwyliadau. Awgrymodd nifer ohonynt y gallai bod gan "*grwpiau cynrychioliadol eu agenda eu hunain ac maent yn anhebygol o newid eu safbwynt*", meddai un Awdurdod Cynllunio Lleol: "*mae'r gwaith o ymgynghori â grwpiau cymuned ac unigolion yn frith o*

<sup>57</sup> Y Porth i Gynllunio yw "*the UK government's online planning and building regulations resource*".

*drafferthion yn ymwneud â diffyg eglurdeb o safbwynt cymhelliant unigolion penodol dros geisio dylanwadu ar y broses gynllunio a chyfreithlondeb grwpiau cymunedol."*

Er mwyn rheoli disgwyliadau a rhoi canolbwynt i'r cyfraniad at y polisi penodol a'i sgôp, argymhellodd Awdurdodau Cynllunio Lleol bod angen proses addysgol a dogfennaeth sy'n rhoi crynodeb o gwmpas y polisi. Awgrymwyd mai cyfarfodydd wyneb i wyneb fyddai'r ffordd orau o ymgysylltu â grwpiau cymunedol.

Mae'r Cynllun Sector Gwirfoddol<sup>58</sup> a'i Gynllun Gweithredu Strategol<sup>59</sup> yn adnodd defnyddiol i'r Cynulliad wrth ymgysylltu â'r sector.

Mae'n debygol y byddai'r broses o ymgysylltu â grwpiau ehangach ar ei mwyaf effeithiol pe bai'n cael ei chynnal drwy gyfrwng grwpiau ymbarel â mynediad uniongyrchol a pharod at grwpiau cymunedol ac ati. Gellid defnyddio sefydliadau megis CGGC, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL), Cymdeithas Cyngorau Gwirfoddol Sirol Cymru, Anabledd Cymru, Un Llais Cymru<sup>60</sup>, i gael mynediad at y gymuned ehangach; maent yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer rhaeadru gwybodaeth. Yn achos buddiannau preifat, cyrff megis y CBI a'r siambr fasnach fyddai'r mecanweithiau mwyaf priodol yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, byddai'n bwysig gweithio gyda'r grwpiau a rhoi rhybudd ymlaen llaw iddynt am gyhoeddiadau, ymgynghoriadau sydd ar ddod ac ati, a lle bo hynny'n bosibl, briffio eu haelodau.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru hefyd mewn lle da i hyrwyddo cynhwysedd; mae ganddo wybodaeth o gynllunio a chysylltiadau â chymunedau ehangach a dealltwriaeth ohonynt. Gall bontio'r bwloch felly. Er enghraifft, mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gweithio gyda Rhwydwaith Cymorth Cymunedau yn Gyntaf (CFSN) i gynnal cyfres o seminarau ar gynllunio defnydd tir i grwpiau Cymunedau yn Gyntaf<sup>61</sup> ledled Cymru.

#### **4.10 Adnoddau Staff**

Un o'r ffactorau a nodwyd gan fwyafrif y rhanddeiliaid, ac a gefnogwyd gan ganfyddiadau interim yr ymgynghoriad, a chan ategu'r holl ffactorau sydd angen eu gwella, oedd yr angen am fwy o adnoddau staff yn yr Is-adran Gynllunio.

<sup>58</sup> Sefydlwyd Cynllun y Sector Gwirfoddol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 114 yn nodi y bydd y Cynulliad yn creu cynllun, gan nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau, i hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol.

<sup>59</sup> Empowering active citizens to contribute to Wales: A Strategic Action Plan for the Voluntary Sector Scheme, drafft ar gyfer ymgynghori, 2007.

<sup>60</sup> Mae Un Llais Cymru yn cynrychioli buddiannau Cyngorau Cyngor a Thref ledled Cymru.

<sup>61</sup> Cymunedau yn Gyntaf yw un o fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru â'r nod o adfywio cymunedau mwyaf amddifad Cymru, drwy raglen ymroddedig hir-dymor. Mae 140 o gymunedau Cymrunau yn Gyntaf ledled Cymru. Ystyrir mai'r rhain yw'r cymunedau mwyaf amddifad yng Nghymru, a chânt eu dynodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r lefel staff gyfredol wedi rhwystro'r is-adran rhag darparu rhai gwasanaethau, megis cyfyngu ar y briffiau y gall ymgymryd â hwy. Dengys yr astudiaethau achos hefyd bod adnoddau staff wedi'u dargyfeirio o rai meysydd polisi, megis adolygu TAN 18: Trafnidiaeth.

Yn ddiweddar, mae'r Is-adran Gynllunio wedi mynd ati i recriwtio 3 aelod newydd o staff. Bydd hyn yn cynyddu capasiti'r Is-adran. Fodd bynnag, bydd angen ei fonitro yng ngoleuni'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

#### 4.11 Casgliadau Strategol

Yn yr adran hon, rydym wedi gwerthuso'r prosesau a ddefnyddir i lunio polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau yng Nghymru, gan ddefnyddio cyfuniad o astudiaethau achos ymchwil ddesg a chanfyddiadau'r cyfweiliadau ag Awdurdodau Cynllunio Lleol, gweithdai a chyfweiliadau amrywiol eraill a gynhaliwyd, ac a gefnogwyd gan y gweithdai a gynhaliwyd i drafod y canfyddiadau interim.

Y neges gyffredin a gafwyd o'r holl weithdai a chyfweiliadau, ac a gefnogwyd gan y canfyddiadau interim, oedd bod y broses gyffredinol o ddatblygu polisi yn briodol. Fodd bynnag, mae elfennau or broses y gellid eu gwella neu eu haddasu fel y nodir isod. Ar sail yr wybodaeth, byddem yn cynnwys y canlynol:

- Mae nifer o ffactorau yn ysgogi'r broses o adolygu polisi a chanllawiau, ac mae pob un yn ddilys, er nad ydynt i gyd yn berthnasol ar gyfer y dyfodol.
- Mae angen codi ymwybyddiaeth o adolygiadau sydd ar ddod, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu cynnydd i'r gymuned gynllunio ehangach. Byddai rhanddeiliaid allanol yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r flaenraglen.
- Mae gwaith ymchwil yn hanfodol, fodd bynnag, mae angen sicrhau ei fod yn fwy perthnasol i'r broses adolygu polisi.
- Dylid edrych ar ffyrdd o rannu adnoddau er mwyn ariannu gwaith ymchwil perthnasol, er enghraifft mewn cydweithrediad â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG).
- Mae Fforwm Cynllunio Cymru a'i is-grwpiau wedi bod yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer datblygu cysylltiadau gwaith rhwng yr Is-adran Gynllunio a rhanddeiliaid allanol, er y byddai modd ei addasu i wella dialog a datblygu ei rôl ymhellach.
- Byddai'n ddefnyddiol casglu safbwyntiau cyn y broses ddrafftio er mwyn codi materion y gellid eu hystyried wrth ddrafftio. Gallai hyn ystyried sut y mae polisi a chanllawiau presennol wedi gweithio a nodi unrhyw ddiffygion wrth eu rhoi ar waith. Gallai seinfyrddau sy'n ymgysylltu â'r gymuned ehangach fod yn fecanwaith defnyddiol yn hyn o beth.



- Mae'n hanfodol cynnwys rhanddeiliaid yn effeithiol yn y broses ddrafftio. Nodwyd nifer o faterion sy'n effeithio ar weithrediad y grwpiau rhanddeiliaid ac a all ddylanwadu ar allu unigolion i gymryd rhan. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
  - ▶ Cyfyngiadau amser a gallu unigolion a sefydliadau;
  - ▶ Grwpiau o faint optimwn;
  - ▶ Defnyddio cyfranogwyr yn effeithiol;
  - ▶ Rolau clir a dealladwy i aelodau; a
  - ▶ Chynnwys y bobl fwyaf priodol.
- Mae angen i'r broses adolygu fynd i'r afael â'r gwaith o flaenoriaethu / dyrannu adnoddau yn effeithiol a'u cyflwyno, er mwyn osgoi codi disgwyliadau allanol na ellir eu bodloni.
- Mae'n gwbl ddilys defnyddio ymgynghorwyr wrth ddrafftio / adolygu polisi er mwyn ymestyn adnoddau a hefyd i gynnig cymorth a gwybodaeth arbenigol.
- Mae angen mwy o ryngweithio o safbwynt ymarferion ymgynghori – mwy o rybudd ymlaen llaw, defnyddio cwestiynau mewn ffordd adeiladol, rhoi adborth ar ymgynghoriadau a sut y cawsant eu defnyddio. Mae'r rhain yn bwysig wrth gynnal dialog a meithrin perthynas effeithiol â rhanddeiliaid.
- Croesewir lledaenu ac egluro polisi drafft a therfynol drwy gyfrwng digwyddiadau er mwyn hwyluso ymgysylltu pellach, a dylai hynny fod ar gael i'r gymuned gynllunio ehangach.
- Byddai taflenni esboniadol / cyfarwyddiadau ar dudalennau gwe yr Is-adran Gynllunio, yn ymwneud â chydrannau polisi cynllunio a rôl a diben pob dogfen e.e. PCC a TANs, yn ddefnyddiol ac o gymorth i'r rheini y tu allan i'r maes, yn enwedig, i ddeall y broses yn well.
- Mae angen mwy o eglurder o safbwynt argaeledd dogfennau, beth yw'r polisi presennol ac ymhle i ddod o hyd i ddogfennau.
- Mae angen ystyried cynhwysedd ar gyfer grwpiau cymuned ehangach a dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n effeithiol o ran adnoddau a'i reoli er mwyn osgoi codi disgwyliadau na ellir eu bodloni.
- Yn ategu'r holl ffactorau hyn, roedd diffyg adnoddau staff yn Is-adran Gynllunio'r Cynulliad i gefnogi'r broses. Er bod yr Is-adran wrthi'n recriwtio, bydd angen monitro hyn yn erbyn argymhellion yr adroddiad hwn.

## 5.0 Cwmpas a Manylion y Polisi Cenedlaethol

---

### 5.1 Cyflwyniad

Nid yw cynnwys y polisi a'r canllawiau o fewn cylch gwaith yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, mae angen y manylion o safbwynt y graddau y maent yn effeithio ar ei effeithiolrwydd a'r gallu i gefnogi'r broses Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Dim ond lle y mae'n egluro pwynt cyffredinol am sgôp a manylion yr ydym, felly, yn cyfeirio at gynnwys y polisi a'r canllawiau.

Mae'r adran hon yn edrych ar rôl gwahanol gydrannau'r canllawiau a'r polisi cynllunio lleol a sut y maent yn cefnogi'r broses CDLI. Mae hyn hefyd yn cynnwys ystyried lefel manylion y polisi a'r canllawiau. Bydd yn edrych yn gryno hefyd ar sut y mae cynllunio defnydd tir yn cydblethu â pholisïau eraill y Cynulliad.

### 5.2 Y Fframwaith

Mae mwyafrif yr ymgynghoreion yn cefnogi fframwaith y polisi cynllunio a'r canllawiau yng Nghymru, a gynrychiolir gan PCC a PCMC fel offerynnau polisi trosfwaol, wedi'u cefnogi gan y TANs. *"Yn aml, nid yw cynllunio yn ddu a gwyn, ond mae'n cynnig hierarchaeth glir o nodiadau."* Meddai un ymgynghorai: *"Caiff PCC ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n eithaf cyfeillgar i ddefnyddwyr ac mae'r TANs yno i'w gefnogi â gwybodaeth dechnegol ychwanegol – hon yw'r ymagwedd gywir."*

Fodd bynnag, heriodd nifer o gyfweleion yr Awdurdodau Cynllunio Lleol p'un a oedd PCC / PCMC a'r MIPPS yn cynnwys dim ond polisi, a'r TANs yn cynnwys dim ond cyngor technegol a chanllawiau. Awgrymwyd hyn hefyd yn rhai o'r gweithdai. Teimlwyd ar brydiau bod polisi wedi'i ddiweddarau wedi'i gynnwys mewn TAN o dan adolygiad yn hytrach na diweddarau PCC. Roedd dryswch cyffredinol rhwng polisi a chyngor ac ymhle y gellid dod o hyd i'r naill a'r llall. Awgrymwyd y dylid ystyried diweddarau'r polisi cysylltiedig pan gaiff TANs eu diweddarau. Roedd hyn yn berthnasol yn achos TAN 1 a TAN 2, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â MIPPS ar gyfer Tai, yn yr un modd ag y cyhoeddwyd MIPPS Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy ochr yn ochr â TAN 8. Fodd bynnag, yn fformat cyhoeddi presennol PPC, byddai hyn yn anodd ar gyfer pob maes.

Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi diwygio fframwaith canllaw a pholisi cynllunio Cymru yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae angen proses sy'n galluogi polisi a chanllawiau i aros yn gyfredol ac i gynnal y gwahaniaeth rhwng polisi a chanllawiau mewn dogfennau perthnasol.

Pwysig yw nodi bod y mwyafrif o'r cyfweleion yn ystyried bod y fframwaith a'r casgliad o ddogfennau yn cefnogi'r system CDLI. Fodd bynnag, gwelwyd achosion lle roedd y TANs yn enwedig wedi dyddio, er enghraifft, hyd nes yn ddiweddar, Trafnidiaeth<sup>62</sup>. Mae'r broses cynllun lleol yn dioddef o broblemau (mae wedi effeithio'n bennaf ar y system) pan fo polisi drafft yn cael ei gyhoeddi, yn enwedig os caiff ei gyhoeddi'n hwyr yn ystod y broses o ddatblygu'r cynllun lleol (CDU neu CDLI). Roedd llawer o'r ymgynghorion yn teimlo bod angen "*pragmatiaeth*" wrth ddelio â chynghor drafft newydd pan fo cynllun lleol wedi cyrraedd cam hanfodol yn y broses o'i ddatblygu. Awgrymodd un ymatebwr o Awdurdod Cynllunio Lleol broses sy'n hysbysu'r newid i'r polisi ymlaen llaw, fel bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael gwybod mewn digon o bryd i arlwygo ar ei gyfer; ac roedd yn bwysig pwysleisio y byddai "*angen rheoli'r camau yn ofalus iawn*".

### 5.3 Polisi Cynllunio Cymru

Mae'r dogfennau PCC / PCMC sengl yn cynnig "*cysondeb*" o gymharu â sefyllfa lle ceir dogfennau unigol, fel sydd ar gael yn Lloegr. Mae'r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen yn dda ac roedd y cyfweleion yn ystyried bod PCC a PCMC wedi'u hysgrifennu'n dda. "*Mae eu cywair yn briodol ac maent yn cynnig trosolwg da.*" Fodd bynnag, teimlai rhai bod y "*PCC yn dueddol o fod yn simsan a cheir diffyg dyfnder.....Mae'n amhendiant ac yn brin ar bolisi.*"

Yn nhermau diweddar PCC, mae'r "*defnydd o MIPPS yn sicrhau ei fod yn gymharol gyfoes a deinamig.*" Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystyried bod defnyddio MIPPS ar gyfer newidiadau mawr yn syniad da ar gyfer y camu ymlaen, ac roedd y sylwadau a wnaed yn y gweithdai yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, rhaid cwestiynu pa mor ymarferol yw hi i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol mewn MIPPS, er enghraifft y MIPPS drafft ar newid yn yr hinsawdd<sup>63</sup>, am nad yw'n golygu diweddar un bennod neu adran yn syml. Bydd newidiadau a diwygiadau drwy gydol PC, gan ei gwneud yn anos cadw'r ddogfen yn gyfredol.

O safbwynt fformat a dyluniad, gwnaed y pwyntiau canlynol ledled y cyfweiliadau a'r gweithdai:

- Mae'r ymylon (margins) yn ddefnyddiol ar gyfer cyfeirio at bolisiau a dogfennau perthnasol eraill;
- Mae'r pwyntiau bwled a ddefnyddir yn PCC yn egluro'n glir yr hyn sydd angen ei wneud;
- Mae'n ddefnyddiol defnyddio cod lliw ar gyfer gwahanol gydrannau (e.e. coch ar gyfer polisi, gwyrdd ar gyfer TANs ac ati.);

<sup>62</sup> Cyhoeddwyd TAN 18 2007 ar ôl cynnal yr ymgynghoriadau ar gyfer y gwerthusiad hwn.

<sup>63</sup> MIPPS: Cynllunio ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd (drafft), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006.

- Cânt eu traws-gyfeirio'n dda; ac
- Mae crynodebau gweithredol yn hanfodol, yn enwedig wrth egluro cynnwys a diben y polisi neu'r canllawiau sydd â'r nod o hwyluso'r drefn i bobl leyg neu bobl broffesiynol nad ydynt yn gweithio ym maes cynllunio.

## 5.4 Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)

Yn gyffredinol, mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a oedd wedi mynychu'r gweithdai, yn cefnogi'r TANs; fodd bynnag, ceir amrywiaeth eang yn lefel manylion a statws cyfredol pob un, ac mae hyn wedi effeithio ar y farn a fynegwyd.

Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystyried bod y TANs mwy newydd yn welliant ar rai o'r hen fersiynau, gyda'r defnydd a wneir o adrannau cyflwyno a strwythur gwella a chyffredin. Awgrymodd un Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai'r MTANs yn elwa wrth ddilyn y strwythur hwn a'u hintegreiddio yn fwy i'r strwythur a'r fformat cyffredin, gan eu gwneud yn haws eu dilyn.

Cynigiodd rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol bod "*TANs yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer materion dadleuol megis gwastraff neu ffermydd gwynt am eu bod yn cynnig cyngor manylach.*" Fodd bynnag, ar ochr arall y geiniog, awgrymodd eraill bod "*y lefel uchel o fanylder yn golygu nad oes ganddynt hyblygrwydd*". Er enghraifft "*cafwyd rhai problemau wrth gydweddu blaenoriaethau ar lefel leol yn y Gymru wledig*"... mae angen i bolisi "*fod yn fwy hyblyg*".

### 5.4.1 Efen Ofodol y TANs

Cododd nifer o ymgynghoreion, a'r rheini o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ac yn y gweithdai, fater a oedd yn ymwneud â dimensiwn gofodol nifer o'r TANs a'r MTANs – yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â pherygl gan lifogydd, ynni adnewyddadwy, gwastraff a mwynau. Cynigiwyd nad yw hyn yn briodol mewn dogfennau cynllunio cenedlaethol a bod diffinio gofodol yn fater i'w bennu ar lefel leol.

Un broblem benodol a godwyd yn y gweithdai a chan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol oedd diffyg ymgynghori cyhoeddus, a phrofi lle yr oedd llinellau yn cael eu tynnu ar fapiau. Yn ôl un: "*ni cheir unrhyw gyfle i herio'r sail dystiolaeth.*" Amlygwyd y pwynt hwn gan ymgynghorai arall gan ddefnyddio MTAN Agregau fel enghraifft, lle nodir ardaloedd a gaiff eu diogelu ar gyfer y posibilrwydd o echdynnu yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylai hyn fod wedi cynnwys ymgynghoriad ehangach â'r cyhoedd, gan roi'r cyfle i herio.

Fodd bynnag, roedd rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn teimlo bod cyfiawnhad dros ddefnyddio mapiau, yn enwedig yn achos TAN 15 a TAN 8. Er hyn, pwysleisiwyd nad

oedd y cyfiawnhad hwn yn berthnasol i bob TAN. Teimlir bod y dimensiwn gofodol yn "*berthnasol lle mae'n rheidwydd*".

Teimlai rhai bod y manylion gofodol yn TAN 8 yn gyfiawn, gan fod yr SSAs a nodir yn cael eu gosod yn "*fras*" neu fod y "*llinellau yn aneglur*", gan roi'r cyfle i ddiffinio safleoedd penodol ar lefel leol. Awgrymodd un bod hyn yn cynnig "*cydbwysedd da rhwng y manylion a'r lefel strategol*." Serch hyn, teimlai rhai o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol y gallai'r canllawiau wedi mynd yn bellach drwy ddarparu meini prawf ar gyfer dewis safleoedd; oherwydd ar hyn o bryd mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol sydd ag SSA yn datblygu ei feini prawf unigol ei hun a allai danseilio'r sicrwydd sydd ei angen ar y rheini sy'n cefnogi a'r rheini sy'n gwrthwynebu datblygiadau o'r fath. O safbwynt y dimensiwn gofodol, ystyriwyd "*nad yw'n boblogaidd ymysg Aelodau. Teimla'r Aelodau ei bod yn amddifadu'r ardal leol o gael dewis ynghylch ffermydd gwynt*."

Mae TAN 8 yn mynd i'r afael yn benodol ag ynni adnewyddadwy, ac mae hyn yn esgor ar safbwyntiau pegynnol, felly mae'n faes lle mae angen cydbwysedd rhwng bodloni'r amrywiol safbwyntiau, gan gynnwys diddordebau cenedlaethol o ran cynhyrchu ynni. Mae'r sylwadau a wnaed yn adlewyrchu'r anawsterau sy'n gysylltiedig â hyn. Yn achos meysydd polisi sensitif, mae'n bwysig sicrhau bod y gwaith ymchwil yn gadarn ac yn dryloyw, bod gwahaniaeth clir rhwng polisi a chanllawiau ac yn cefnogi'r gwaith o roi briff i bawb sy'n rhan o'r broses, gan gynnwys Aelodau etholedig er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r cynnwys a'r broses.

Yn achos TAN 15 roedd y mwyafrif o Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r gweithdai yn teimlo ei bod yn briodol cynnwys mapiau. Y broblem a amlygwyd gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a chan y gweithdai oedd pa mor briodol yw'r mapiau hyn. Mae'r mapiau a ddefnyddir yn seiliedig ar raddfa fawr, sy'n hepgor manylion sy'n ymwneud â chyfuchlinellau ac mae hyn wedi arwain at wallau sylweddol. Cafwyd sylw cyffredinol gan un ymgynghorai: "*rhaid i'r lefel ofodol gael ei seilio ar ddadansoddiad cywir a rhaid iddi fod yn gywir – ceir tystiolaeth bod hyn yn methu weithiau, e.e. TAN 15 lle mae'r cynlluniau a ddefnyddiwyd wedi bod ar raddfa rhy fawr*."

## 5.5 Dogfennau Cyfarwyddyd

Cafwyd ymateb ffafriol i ddogfennau megis y Canllaw Ategol i Awdurdodau Cynllunio Lleol. Yn gyffredinol, roedd llawer o ymgynghoreion o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi gwneud cais i gael mwy o ddogfennau arferion da a chanllawiau ar gyfer ymgymryd â thasgau penodol ac ati. Byddai'n ddefnyddiol hyrwyddo a rhannu arferion da ac o gymorth i Awdurdodau Cynllunio Lleol yn benodol i ymgorffori arferion o'r fath i'w hymagweddu eu hunain, ac yn enwedig i beidio â gwastraffu adnoddau wrth ailddyfeisio ymagweddu.

## 5.6 Polisi Mwynau

Ar hyn o bryd, mae cyngor a pholisi mwynau ar wahân i gynllunio defnydd tir, yn nhermau dulliau o ddrafftio, ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol drwy gyfrwng RAWPS a chyhoeddi ei set ei hun o ddogfennau (PCMC ac MTANs).

Roedd nifer fach o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn teimlo y dylid eu cadw ar wahân oherwydd *"yr wybodaeth a'r sgiliau arbenigol sydd eu heisiau. Mae gweithrediadau sy'n ymwneud â mwynau yn gymhleth ac maent yn para dros gyfnod hir, felly mae'n rhaid eu trafod yn ofalus iawn, ac felly dylid eu cadw ar wahân."*

Fodd bynnag, roedd nifer fwy o'r rheini o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a fynegodd farn yn teimlo bod y gwahanu hwn yn seiliedig ar resymau hanesyddol yn unig (yn deillio o'r hen Gynghorau Sir) ac nad oedd yn berthnasol bellach. Roeddent yn cydnabod fodd bynnag bod angen sgiliau a sail wybodaeth arbenigol, ond nad oedd unrhyw reswm dros beidio â'i integreiddio ochr yn ochr â chynllunwyr sy'n arbenigo ym meysydd trafndiaeth neu adwerthu, er enghraifft.

Yn bwysicach fyth, rhaid i'r broses o ddatblygu polisi mwynau ystyried nifer o ystyriaethau cynllunio ehangach, gan gynnwys trafndiaeth, yr amgylchedd, agosatrwydd at dai ac ati, ac y byddai integreiddio yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i integreiddio pob persbectif sy'n arbennig o berthnasol ar lefel genedlaethol. Yn ôl un ymgynghorai: *"mae PCC a PCMC yn gorgyffwrdd, mae angen cyfeirio at y ddau er mwyn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau."*

Byddai'n briodol cymryd cam tuag at alinio canllawiau a pholisi cynllunio defnydd tir yn agosach o safbwynt trefniadau ymarferol, dogfennau yn bennaf, er mwyn sicrhau cyfatebolrwydd. Ar hyn o bryd, mae PCMC yn ailadrodd adrannau o feysydd polisi eraill, e.e. trafndiaeth yn PCC; fodd bynnag, ni cheir proses gyfatebol i ddiweddarau PCMC os bydd polisïau yn PCC neu ganllawiau yn TANs yn cael eu diweddarau. Byddai hefyd o gymorth i helpu i oresgyn y gwahaniaeth cyfredol rhwng y disgyblaethau cynllunio a wnaed i annog cydweithio agosach rhwng y disgyblaethau arbenigol ym maes cynllunio ac yn benodol i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o'r materion sy'n gysylltiedig â mwynau.

## 5.7 Cydweddu ag Egwyddorion Craidd y Cynulliad

Mae tri o werthoedd craidd yn ategu polisïau'r Cynulliad bob amser – sef datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol.

Yn gyffredinol, teimlwyd bod cynllunio yn ymgorffori'r tair egwyddor hon yn systematig, a bod hyn wedi'i wneud yn drylwyr yn y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol yng

Nghymru. Maent oll wedi'u cynnwys fel thema ganolog yn y Rhagair i PCC gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar y pryd, sef Sue Essex.

Roedd llawer o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cymeradwyo ymagwedd y PCC o safbwynt mynd ati mewn ffordd holistig i gynnwys datblygu cynaliadwy drwyddo draw. Fodd bynnag, teimlai rhai nad oedd y broses hon, yn ymarferol, wedi bod mor gryf ag y gallai bod, yn enwedig o'i chymharu â'r arferion yn Lloegr. Un enghraifft o hyd oedd yr oedi wrth fabwysiadu TAN 18 diwygiedig, a fyddai wedi cyflwyno canllawiau trafndiaeth mwy cynaliadwy a chyfoes.

## 5.8 Cyfatebolrwydd â Pholisïau Eraill y Cynulliad

Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am ystod eang o feysydd polisi sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ei gilydd. Er mwyn goresgyn problemau sy'n ymwneud â diffyg cydgysylltiad rhwng polisïau ac i alluogi'r broses o ddatblygu a chyflwyno polisïau sydd "*nid yn unig yn bodloni agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond sydd yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n bodloni ein hymrwymiaidau i ddatblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol*", datblygwyd offeryn Porth i Bolisïau. Nod yr offeryn yw "*helpu i ysgogi deialog, creu syniadau newydd ac annod meddwl mewn ffordd 'gydgysylltiedig'*." Un o'r pethau allweddol y mae'r offeryn yn ei bwysleisio yw sicrhau yr eir i'r afael â strategaeth gorfforaethol y Cynulliad – Cymru: Gwlad Well – a'i gwerthoedd craidd. Defnyddir grŵp traws-isadrannol i asesu pob polisi a strategaeth ddrafft cyn iddynt fod yn destun ymgynghori. Mae Uned Polisi Strategol y Cynulliad yn gyfrifol am ddatblygu a defnyddio'r Offeryn. Mae'r Uned yn darparu hyfforddiant sicrhau bod staff y Cynulliad yn gallu defnyddio'r Offeryn yn effeithiol. Maent hefyd yn cydweithio â defnyddwyr a'r Pwyllgor Polisi i adolygu'r Offeryn a sicrhau ei fod yn aros yn ddynamig ac yn berthnasol. Cafwyd sylwadau gan rai rhanddeiliaid bod yr Offeryn yn ddim byd mwy nag ymarfer ticio blychau; fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid eraill a oedd wedi defnyddio'r Offeryn mewn cyswllt â nifer o bolisïau yn dadlau er ei fod yn cael ei gyflwyno fel ymarfer ticio blychau yn y polisi terfynol, ond bod llawer o ddadlau wedi digwydd er mwyn cyrraedd y matrices ticio blychau.

O safbwynt sut y mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cydweddu â pholisïau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd barn gymysg am b'un a oes cyfatebolrwydd ai peidio. Barn un ymgynghorai oedd: "*Mae angen i hierarchaeth y polisïau cenedlaethol fod yn glir*." Roedd nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn teimlo efallai nad oedd llawer o "*ymwybyddiaeth o bolisïau ehangach gan swyddogion cynllunio*". Dywedodd un o'r rheini a fynychodd y gweithdai, a chefnogodd eraill ei sylwadau, "*nad oes digon o feddwl cydgysylltiedig yn digwydd ar draws Aadrannau'r Cynulliad*." .... "*Gall rhan o broses arall oresgyn polisi cynllunio*." Awgrymodd un arall bod "*dryswch ynghylch statws dogfennau*

*a'u rôl yn y broses gynllunio*". Un pryder penodol arall oedd bod strategaethau cenedlaethol eraill yn rhoi mwy o statws, momentwm a hygyrdd i brosiect y tu allan i'r fframwaith cynllunio cenedlaethol. Nododd llawer o'r ymgynghoreion y Parc Busnes arfaethedig wrth Gyffordd 33 o'r M4 fel enghraifft.

Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth y Cynulliad fod yn fwy clir am y berthynas rhwng polisïau cenedlaethol. O safbwynt defnydd tir, mae angen i bolisïau a chamau gweithredu gan Adrannau eraill ystyried polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth y Cynulliad, oni bai bod y polisi wedi'i lunio drwy broses briodol sy'n diogelu buddiannau cenedlaethol ac sydd felly yn cymryd blaenoriaeth. Ar hyn o bryd, nid yw bob amser yn glir pa bolisïau sydd yn cymryd blaenoriaeth. Yn yr un modd, mae angen i bolisi cynllunio ymgorffori polisïau cenedlaethol eraill, er enghraifft cynhwysiant ac ynni.

Awgrymwyd y gellir gweld y diffyg cydweddu amlycaf yng "*Nghynllun Gofodol Cymru, am nad yw'r gweddill mor ddynamig ac mor broblematic*." Ymddengys fod llawer o ddryswch ymysg yr holl ymgynghoreion o safbwynt statws Cynllun Gofodol Cymru a'r system gynllunio. Mae gofyn bod Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yn "*ystyried*" Cynllun Gofodol Cymru ond mae rhanddeiliaid yn dadlau nad yw'n glir sut y dylid rhoi'r ystyriaeth hon i'r Cynllun.

Mewn un gweithdy, awgrymwyd bod "*a wnelo Cynllun Datblygu Cymru â dyrannu adnoddau*", ac nid â chynllunio defnydd tir. Er enghraifft, mae Cynllun Gofodol Cymru yn cael ei ddefnyddio fel offeryn ar gyfer symleiddio rhaglenni ariannu megis Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 a Strategaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Y nod yw alinio polisïau o fewn rhaglenni gwariant, gan adlewyrchu'r amryw flaenoriaethau rhanbarthol yn y gwahanol rannau o Gymru.

Awgrymwyd yn aml fod "*Cynllun Gofodol Cymru yn creu tensiwn*". Fodd bynnag, ymddengys fod hyn yn rhannol o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth am rôl y Cynllun Gofodol. Mae Cynllun Gofodol Cymru wedi'i eirio mewn ffordd sy'n golygu "*y gallai gael ei ddefnyddio gan y naill barti neu'r llall yn ystod Ymchwiliad, ac mae hynny wedi digwydd cyn hyn*".

Mae gwaith mwy diweddar ar lefel is-ranbarthol i weithredu Cynllun Gofodol Cymru wedi ychwanegu at ddryswch ymgynghoreion ym mhob sector am rôl a sefyllfa'r Cynllun. Fodd bynnag, gellid priodoli hyn i ryw raddau i'r gwaith is-ranbarthol cyfochrog sy'n cael ei wneud ar sail wirfoddol gan amryw sefydliadau. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r Cynllun Gofodol ond ni fydd o reidrwydd yn rhan o'r ddogfen a gaiff ei mabwysiadu; yn aml mae'n gysylltiedig â chreu mwy o fanylion am strategaethau'r Cynllun Gofodol ym mhob ardal a/neu waith sy'n edrych ar ba mor ymarferol yw'r broses o ddarparu strategaeth y bydd awdurdodau lleol ac eraill yn ei ystyried yn werth chweil, a hynny ar sail



gydweithredol. Yn enghraifft a nodwyd gan nifer o ymgynghoreion yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a oedd yn mynychu'r gweithdai oedd dyraniadau tai, ac mae gwaith is-ranbarthol penodol ar y gweill mewn rhai ardaloedd y cynllun gofodol. Ni fydd unrhyw ddyraniadau tai a gaiff eu cytuno yn y cyd-destun yn rhan o'r Cynllun Gofodol, ond fyddant yn cael eu hymgorffori ac yn cael statws drwy gyfrwng y broses Cynllun Datblygu Lleol. Nid oes gan y gwaith ategol unrhyw statws arbennig felly, a gellir ei herio yn yr un modd ag unrhyw agwedd arall ar broses y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd yn amlwg nad oedd hyn yn glir i'r rheini sy'n gweithredu y tu allan i weithgareddau'r cynllun gofodol.

Er nad yw'r Cynllun Gofodol yn gyfrwng priodol, o ystyried mai ei ddiben yw bod yn berthnasol i bolisi strategol ehangach na chynllunio defnydd tir yn unig, mae rhanddeiliaid yn teimlo bod diffyg o safbwynt pennu ffigurau tai is-ranbarthol yng Nghymru. Amlygwyd bod hon yn broblem benodol o safbwynt penderfyniadau buddsoddi preifat, yn enwedig yn achos adeiladu tai a datblygiadau cysylltiedig.

Roedd rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol o'r farn nad oedd cynllunwyr yn ymwneud ddigon â'r Cynllun Gofodol yn rhai ardaloedd o Gymru, ac mae wedi tueddu yn ormodol tuag at ddatblygu economaidd; serch hyn, maen ardaloedd eraill, bu ymwneud agos â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol, er enghraifft yn y De-orllewin.

Awgrymodd Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r rheini a oedd yn mynychu'r gweithdai fod angen egluro ac esbonio'r cysylltiadau rhwng Cynllun Gofodol Cymru a pholisi cynllunio cenedlaethol.

Yn y tymor byr, mae angen penodol i godi ymwybyddiaeth o'r berthynas rhwng polisi cynllunio defnydd tir a pholisïau eraill y Cynulliad. Nododd yr ymgynghoreion angen i gynyddu'r gwaith gwirioneddol o integeiddio holl bolisïau y Cynulliad.

## **5.9 Fformat y Canllawiau a'r Polisi Cenedlaethol**

Fel y trafodwyd eisoes, mae ymagwedd gyffredinol y PCC o gael un ddogfen a defnyddio MIPPS i'w diweddarau yn boblogaidd. Ni cheir ychwaith dystiolaeth i gefnogi'r syniad bod angen cyflwyno ymagwedd amgen. Fodd bynnag, fe fydd angen adolygu'r PCC yn gyfan gwbl rhyw bryd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gyda chyflwyniad MIPPS trawsbynciol, megis mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Yn ei fformat cyfredol fel llyfr cyhoeddedig, defnyddio MIPPS ac adolygiadau cynhwysfawr ac achlysurol yw'r unig ffordd effeithiol o sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol fel dogfen bolisi ragweithiol. Ar y llaw arall, fe allai fod ar gael i'w diweddarau ar ffurf electronig (mae ar gael ar hyn o bryd fel dogfen electronig) fodd bynnag, teimlir yn gryf bod angen iddi gael ei chefnogi gan gopiâu caled.

Fel arfer, caiff fersiynau terfynol y polisi a'r canllawiau eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesnegm, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cynulliad. Mae'r fersiynau argraffedig arferol ar ffurf fformat " *tumble twist*" er mwyn caniatáu eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, er bod yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cefnogi cynhyrchu dwyieithog, a bod y gweithdai yn cefnogi hyn hefyd, awgrymwyd y dylid llunio fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn enwedig yn achos dogfennau megis PCC, am fod y fersiwn ddwyieithog yn fawr ac yn feichus. Fodd bynnag, mae'n bolisi gan y Cynulliad i gynhyrchu dogfennau dwyieithog cyfun. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad<sup>64</sup> yn nodi mai'r arfer safonol yw cyhoeddi deunydd ysgrifenedig ar gyfer y cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar ffurf un ddogfen unigol.

Mae'r dogfennau electronig fel arfer ar fformat PDF neu Word. Mae PDF yn hanfodol ar gyfer y rheini sydd â nam ar y golwg ac maent yn defnyddio meddalwedd 'Screen Readers' <sup>65</sup>, am fod tablau a graffeg ac ati yn gallu cael eu gwro ac nid oes modd eu darllen heb ddefnyddio'r feddalwedd. Yn achos adroddiadau mawr, mae PDF yn fanteisiol am ei fod yn gallu lleihau maint y ffeil electronig. Mae Word yn fformat defnyddiol am ei fod yn ahws ei ddefnyddio are gyfer dethol rhannau o'r ddogfen i'w defnyddio mewn adroddiadau ac ati, gan leihau'r amser sydd ei angen i gyfieithu'r ddogfennau at ddefnydd mewnol / aelodau.

## 5.10 Casgliadau Strategol

Yn yr adran hon, rydym wedi ystyried cwmpas a manylion polisi cynllunio cenedlaethol Cymru, a fformadau priodol ar gyfer ei gyhoeddi. Aethpwyd ati i ystyried astudiaethau achos a'r amryw gyflweliadau ymgynghori a'r gweithdai a gynhaliwyd. Yma rydym yn crynhoi'r canfyddiadau a'r casgliadau sy'n codi o'r dystiolaeth.

- Dylid dal gafael ar fframwaith y PCC a'r TAN. Ni cheir unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r syniad bod angen diwygio fframwaith Cymru yn gyfangwbl.
- Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth rhwng polisi a chanllawiau yn glir yn y ddwy fersiwn o'r dogfennau. Dylid atgyfnerthu'r gwahaniaeth rhwng dogfennau sy'n cynnwys polisi a'r rheini sy'n cynnwys canllawiau.
- Mae'r PCC yn ddogfen gadarn, sy'n cynnig polisi cenedlaethol ystyrllon ar ffurf dogfen unigol.
- Fodd bynnag, nid yw fformat y PCC yn hwyluso'r gwaith o'i ddiweddarau. Mae angen newid y fformat cyhoeddi er mwyn ei gwneud yn bosibl i'w ddiweddarau / ddiwygio yn haws.

<sup>64</sup> Cynllun Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006

<sup>65</sup> Meddalwedd sy'n ceisio nodi a dehongli'r hyn sy'n cael ei ddangos ar y sgrîn yw Screen Reader.

- Yn gyffredinol, mae'r polisi cenedlaethol yn cefnogi'r broses CDLI.
- Lle ceir diffiniadau gofodol yn rhan o'r canllawiau cenedlaethol, mae angen i'r sail dystiolaeth fod yn gywir ac mae angen nodi'r rhesymeg ar gyfer y persbectif gofodol yn glir, a'i gyfiawnhau.
- Mae angen atgyfnerthu'r berthynas rhwng polisi cynllunio a pholisïau cenedlaethol eraill a'i diffinio'n gliriach, yn enwedig Cynllun Gofodol Cymru a'i waith is-ranbarthol.

## 6.0 Gwersi o Fannau Eraill

---

### 6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn adeiladu ar adran 3, a aeth ati i ystyried y fframweithiau cynllunio cenedlaethol a ddefnyddir yn Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon. Yma, rydym yn trafod enghreifftiau o arferion da a phrofiadau a gafwyd mewn rhanbarthau eraill y DU a thu hwnt er mwyn llywio'r system yng Nghymru. Mae'r rhan hon o'r astudiaeth yn canolbwyntio ar nodi offerynnau a fyddai'n helpu i gefnogi'r argymhellion a wnaed yn adran 7.

Mae'n anodd dod o hyd i gymariaethau gwirioneddol â Chymru o ystyried amryw ffactorau megis daearyddiaeth, strwythurau llywodraethu a'r berthynas rhwng cynllunio lleol a chenedlaethol, a pherthynas cynllunio 'gofodol' â chynllunio defnydd tir traddodiadol. Un o'r pwyntiau cyffredin sy'n dod i'r amlwg yw bod cynllunio gofodol mewn llawer o ranbarthau a gwledydd wedi'i integreiddio'n agos â chynllunio defnydd tir traddodiadol o safbwynt dyrannu adnoddau.

Mae'r rhanbarthau a'r gwledydd a gaiff eu cynnwys yn amrywiol ac maent wedi'u dethol ar sail canfyddiadau gwaith maes yng Nghymru. Amlygodd y gwaith maes nifer o faterion ac rydym wedi ceisio dod o hyd i enghreifftiau lle yr aed i'r afael â'r materion hyn mewn mannau eraill. Nid yw pob astudiaeth achos yn mynd i'r afael â phob un o'r materion. Mae'r materion dan sylw yn cynnwys: mecanweithiau ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid allanol; profiad o gynnwys pobl leyg; mecanweithiau ymgynghori; dulliau o alinio polisi defnydd tir â pholisïau cenedlaethol eraill; a sut y caiff y polisi ei gyflwyno.

Panel Arbenigol yr astudiaeth, yn bennaf, sydd wedi cynnal y gwaith hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion aethant ati i ymgysylltu ag unigolion yn y rhanbarth / wlad berthnasol.

Dyma'r rhanbarthau / gwledydd a gynhwyswyd:

- Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Lloegr
- Gogledd-orllewin Lloegr
- Yr Alban
- Gweriniaeth Iwerddon
- Yr Iseldiroedd
- Flanders, Gwlad Belg
- Y Swistir
- Colombia Prydeinig, Canada
- Talaith Washington, UDA

- Singapore
- Rhanbarth Interreg Môr y Gogledd

## 6.2 Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Lloegr

### 6.2.1 Mekanweithiau ar gyfer Cynhwysedd Allanol

Yr ymagwedd draddodiadol a fabwysiadwyd gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG), a'i rhagflaenwyr, oedd comisiynu gwaith ymchwil i gasglu tystiolaeth ac i nodi camau gweithredu. Yn aml, mae a wnelo'r ymchwil â chasglu tystiolaeth drwy gyfrwng holiaduron i ddefnyddwyr a gweithredwyr y system gynllunio, cyflweliadau manwl ac astudiaethau achos. Caiff grwpiau llywio bach eu sefydlu i reoli'r gwaith ymchwil, gyda hanner dwsin o randdeiliaid i gynrychioli'r proffesiwn cynllunio a llywodraeth leol yn ogystal â chynrychiolwyr o Swyddfa'r Llywodraeth ac ar draws adrannau'r Llywodraeth, wedi'u cadeirio gan un o uwch swyddogion yr adran.

Weithiau, ceir cyngor cyn ymgynghori drwy gyfrwng amryw rwydweithiau y mae'r DCLG yn eu cadeirio neu'n cyfrannu atynt, megis y Grŵp Cyngorol ar Gynllunio sy'n cynnwys rhanddeiliaid academiaidd, a rhwydwaith Cyfarwyddwyr Cynllunio Swyddfeydd y Llywodraeth.

I ategu'r mecanweithiau hyn, cynhaliodd y DCLG a RTPI ddigwyddiad undydd diweddar i helpu i baratoi'r Papur Gwyn ar Gynllunio<sup>66</sup>, a chafodd y gwaith hwn ei wneud mewn byr iawn o amser. Cynhaliwyd y digwyddiad undydd yn y Ganolfan QEII yn Llundain, a'r nod oedd cael clywed barn rhanddeiliaid ar gynnwys y Papur Gwyn. Roedd dros 160 o randdeiliaid o'r sector gwirfoddol, y sector preifat, y llywodraeth a'r byd academiaidd wedi mynychu'r digwyddiad hwn. Agorwyd y digwyddiad gyda chyflwyniad gan y Gweinidog a sesiwn holi ac ateb agored. Yn dilyn hyn, cafwyd cyfres o drafodaethau strwythuredig ar bynciau penodol, ymysg wyth i ddeg o randdeiliaid o gwmpas byrddau crwn. Roedd pob bwrdd yn enwebu cadeirydd a rhywun i gymryd cofnodion yn uniongyrchol ar lyfr nodiadau electronig a oedd yn bwydo'r canlyniadau yn ôl i fan canolog. Bu hyn yn fodd i roi adborth i'r cyfranogwyr ar y pwyntiau allweddol a gododd yn ystod y trafodaethau o gwmpas y byrddau yn ystod cyfarfod llawn. Cafwyd pleidlais ar gwestiynau penodol, a defnyddiwyd llyfrau nodiadau electronig pob grŵp i arddangos y canlyniadau ar uwchdaflunydd.

Byddai'n ddefnyddiol cynnal digwyddiad o'r fath yng Nghymru ar gyfer adolygiadau ar raddfa fawr, neu lle bo angen cael sylwadau gan grŵp eang o bobl.

<sup>66</sup> Planning for a Sustainable Future: White Paper, Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, 2007

### 6.2.2 Profiad o Gynnwys Pobl Leyg (Pobl nad ydynt yn Gynllunwyr)

Mae pobl y tu allan i faes cynllunio hyfyd yn cael eu cynnwys yn y gwaith ymchwil / grwpiau llywio a drafodir uchod. Mae sefydliadau sy'n rhyngweithio'n agos â dinasyddion yn cael bod yn rhan o adolygiadau weithiau, megis yr Adolygiad diweddar 'Householder Development Consents Review' a oedd yn trafod hawliau datblygu a ganiateir i ddeiliaid tai.

Mae'r DCLG fel Adran yn datblygu e-ymgyngoriad fel rhan o fenter beilot 'Digital Dialogues' yr Adran Materion Cyfansoddiadol, sy'n annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y broses o lunio polisiau. Yn ôl y canfyddiadau cyntaf, mae gweithredu fforwm trafod ar y we yn mynnu llawer o adnoddau ond mae'n galluogi rhanddeiliaid i fod yn ymwybodol o sylwadau ei gilydd ac i gamu ymlaen â'r drafodaeth. Mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau strwythuredig gyda grwpiau mawr. Disgwylir i fforymau trafod ar y we gael eu defnyddio fwyfwy gan yr Adran ar gyfer materion penodol. Fe allai hwn fod yn offeryn defnyddiol yng Nghymru, o ystyried y problemau daearyddol sy'n codi wrth i bobl geisio mynychu cyfarfodydd.

### 6.2.3 Ymgynghori

Mae PPSau a chynigion drafft ar gyfer diwygio is-ddeddfwriaeth bellach yn dilyn fformat cyffredin o arferion da, gan gynnwys cwestiynau i lywio ymatebion a sefydlu cyfeiriadau e-bost i dderbyn ymatebion digidol. Cyhoeddir crynodebau o ymatebion, er bod yr amser y mae hyn yn ei gymryd ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben yn amrywio.

### 6.2.4 Cyfatebolrwydd rhwng Polisiau Cenedlaethol

Mae grwpiau traws-adrannol ffurfiol yn ystyried y drafftiau cyn-derfynol o gynigion polisi. Mae Adrannau allweddol yn cael eu cynnwys yn gynnar yn y broses o ddatblygu cynigion penodol, drwy gyfrwng grwpiau llywio neu drafodaethau dwyochrol.

### 6.2.5 Sut gaiff y Polisi ei Gyflwyno?

Yn ogystal â chyhoeddi dogfennau polisi, mae'r DCLG hefyd yn cyflwyno polisi cenedlaethol ar ffurf ddigidol ar wefan y Cymunedau a'r Porth i Bolisiau. Mae'r Porth i Bolisiau hefyd yn cyflwyno polisiau penodol ar fformat 3D<sup>67</sup> er mwyn helpu pobl leyg i ddeall arferion da.

<sup>67</sup> <http://www.planningportal.gov.uk/uploads/hhg/houseguide.html>

## 6.3 Cynulliad Rhanbarthol Gogledd-orllewin Lloegr

### 6.3.1 Y Broses Ymgynghori

Mae Cynulliad Rhanbarthol Gogledd-orllewin Lloegr (NWRA) wedi cynhyrchu RSS. Nid dogfen cynllunio defnydd tir yn unig mohono, serch hyn, rydym yn trafod y broses o'i ddatblgu ac mae'n canolbwyntio ar ymgynghori sy'n seiliedig ar y we.

Rhodddwyd y gwaith ar gontract i Dialogue by Design<sup>68</sup>. Sefydlwyd gwefan benodedig i'w defnyddio yn ystod pob cam – Materion, Dewisiadau a Drafft Interim yr RSS. Roedd y cynnwys yn gymharol sylfaenol, ond cynigiwyd hefyd holiadur allweddol er mwyn i bobl gyflwyno eu hymatebion. Gan fod y wefan wedi'i sefydlu fel offeryn rheoli data, roedd yn hawdd casglu'r sylwadau a'u dosbarthu o dan bwnc neu is-bwnc penodol. Roedd hyn wedi cyflymu'r amser crynhoi ar ddiwedd pob cyfnod ymgynghori. Roedd crynodebau cynhwysfawr i'r holl ymatebion ar gael i dîm NWRA o fewn wythnos.

Yn ogystal, aeth NWRA at i i gontractio Forum for the Future<sup>69</sup> i sefydlu gweithdai gydag awdurdodau lleol wedi'u grwpio ar sail ddaearyddol, a sefydliadau wedi'u grwpio ar sail themâu, megis datblygu economaidd, yr amgylchedd ac ati. Roedd grwpiau o'r fath yn fodd gwerthfawr o rannu syniadau. Fel arfer, byddai tua 25-30 o bobl mewn gweithdy a thua 10-15 o bobl mewn cyfarfod grŵp ar sail thema benodol.

Detholwyd aelodau'r gweithdai ar sail awdurdodau lleol. Yn achos y grwpiau a oedd yn seiliedig ar themâu, y nod oedd creu grwpiau cynrychioliadol os oedd hynny'n bosibl. Rhodddwyd blaenoriaeth i gyrff ymbarel a allai gynrychioli cynifer o grwpiau cynrychioliadol ag oedd yn bosibl. Wrth ddewis sefydliadau ar gyfer y grwpiau seiliedig ar themâu, bu modd i NWRA dynnu ar ei gysylltiadau sefydledig â grwpiau a oedd eisoes wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad yn ystod dau gylch o Ganllawiau Cynllunio Rhanbarthol. Yn ogystal, bu modd i Forum for the Future gynnwys eraill drwy gyfrwng ei rwydweithiau ei hun. Ar ben hyn, gwnaed mwy o rwydweithio drwy gyfrwng y grwpiau hysbys hyn er mwyn cael manylion cyswllt ar gyfer grwpiau eraill y gallai fod yn ddefnyddiol eu cynnwys.

Yn ogystal â'r dogfennau ymgynghori ar y we, roedd copïau caled confensiynol ar gael hefyd ar gyfer y RSS drafft. Yn yr un modd, roedd ymatebion ar bapur yn dod i law, er bod pobl wedi cael gwybod am y posibilrwydd o gyflwyno ymatebion electronig, a dechreuodd rhai symud tua'r cyferiad hwnnw.

<sup>68</sup> [www.dialoguebydesign.net](http://www.dialoguebydesign.net) Mae'r gwaith a wnaed gan Dialogue by Design ar gyfer NWRA i'w weld ar eu gwefan: [www.dialoguebydesign.net/consultation/clients\\_case\\_studies\\_nwra.htm](http://www.dialoguebydesign.net/consultation/clients_case_studies_nwra.htm). Gellir hefyd gweld fideos ar eu gwefan sy'n dangos sut mae'r broses ymgynghori ar-lein yn cael ei gweithredu.

<sup>69</sup> [www.forumforthefuture.org.uk](http://www.forumforthefuture.org.uk)

Gwnaed ymdrech sylweddol i ddefnyddio rhwydweithiau sefydliadau presennol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn yr oedd a wnelo'r RSS ac ef, a'r angen i gysylltu'r amryw fathau presennol o gynlluniau â'i gilydd. Dyma yn rhannol oedd rôl y gweithdai â'r awdurdodau lleol.

Un o nodweddion diddorol y feddalwedd a ddefnyddiwyd gan Dialogue by Design oedd ei bod yn cyfyngu'n fwriadol ar nifer y geiriau yr oedd modd i bobl eu defnyddio wrth ymateb i unrhyw gwestiwn ar holiaduron yr ymgynghoriad. Llwyddodd hyn i sicrhau bod yr ymatebion yn ddarllenadwy a bpd ganddynt ffocws arbennig, ac i osgoi datganiadau hir ac ailadroddus. Fodd bynnag, roedd cynnig yr opsiwn o gyflwyno ymatebion ar bapur wedi rhoi cyfle i'r rheini a oedd am gyflwyno ateb hir i wneud hynny. Ar y cyfan, roedd y broses yn fwy effeithlon na phrosesau ymgynghori cynllunio traddodiadol. Mae'n debygol bod rhai o'r cwestiynau a holwyd wedi arwain yr ymatebion i'r cyferiad bwriadol.

Anfonwyd cydanbyddiaeth i ddiolch i'r ymgynghoreion ac i roi gwybod iddynt bod eu sylwadau wedi dod i law. Yn ogystal, yn ystod yr e-ymgynghoriad, roedd modd i unrhyw un a oedd wedi cofrestru ar gyfer yr ymgynghoriad weld yr holl ymatebion i'r holl gwestiynau ar y wefan benodedig. Ar y diwedd, lluniodd Dialogue by Design a Forum for the Future adroddiad yn rhoi crynodeb o'r ymatebion. Nid oedd NWRA wedi ysgrifennu at bob ymgynghorai unigol yn egluro eu hymateb i'w sylwadau penodol.

### 6.3.2 Profiad o Gynnwys Pobl Leyg (Pobl nad ydynt yn Gynllunwyr)

Bu pobl leyg yn rhan o'r grwpiau yn seiliedig ar themâu a'r gweithdai. Ar y cyfan, y nod oedd defnyddio'r adnoddau prin yn y ffordd fwyaf effeithiol drwy ganolbwyntio ar grwpiau penodol yn hytrach na cheisio cyrraedd 6.8 miliwn o unigolion y rhanbarth. Felly ni anfonwyd taflen at bob cartref, ni chynhaliwyd unrhyw bôl piniwn. Fodd bynnag, yn ogystal â chysylltu â Chynghorau Plwyf a Phartneriaethau Strategol Lleol, aeth NWRA ati hefyd i weithio drwy gyfrwng Fforymau Cymunedol, lle mae cyrff ymbarel o'r fath yn bodoli.

Un o nodweddion diddorol y gwaith allgymorth oedd cydweithredu â Chymorth Cynllunio i godi ymwybyddiaeth ymysg grwpiau megis Cynghorau Plwyf. Teimlwyd bod hyn yn llwyddiannus a bod modd adeiladu ar hyn yn y dyfodol, yn rhannol oherwydd yr arbenigedd sydd gan Gymorth Cynllunio o safbwynt ymarferion o'r fath.

## 6.4 Yr Alban

### 6.4.1 Cynnwys Sefydliadau Allanol

Mae Gweithrediaeth yr Alban yn mynd ati i baratoi SPP drwy gomisynu darn o waith ymchwil i lywio'r broses, yn enweig pan fo'r pwnc yn gynhennus. Fel arfer mae'r broses



ymchwil yn cynnwys sefydliadau allanol; mae'r tîm ymchwil yn debygol o gynnal astudiaethau achos neu gyfweiliadau sy'n ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid allanol.

Yn ystod y cyfnod cyn-ymgyngori, lle mae'r SPP neu'r PAN arfaethedig yn cael ei ddrafftio, ceir grŵp llywio – sydd fel arfer yn deillio o grŵp tebyg a oedd yn goruchwyllo'r astudiaeth ymchwil. Mae Gweithrediaeth yr Alban yn sefydlu'r grwpiau llywio hyn drwy ymgynghori â'r SSDP (Cymdeithas yr Alban o Gyfarwyddwyr Cynllunio) a COSLA (Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban). Unwaith iddo gael ei sefydu, bydd grŵp llywio yn parhau i weithredu yn ystod y cyfnod paratoi, ond nid hwy na hynny.

Weithiau yn yr Alban, mae'r Weithrediaeth yn cynnal sesiynau briffio arbennig, ond mae'n fwy tebygol bod y rhain wedi'u trefnu fel rhan o'r broses ymchwil a'u bod yn cael eu cynnal ar ffurf seminarau neu grwpiau ffocws. Felly, dechreuodd y gwaith ymchwil ar dir ar gyfer tai a'r system gynllunio (a arweiniodd at ddiwygio'r SPP ar dai), er enghraifft, gyda gweithdy yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, ac roedd y gweithdy yn cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau ar faterion allweddol ac ati.

#### 6.4.2 Profiad o Gynnwys Pobl Leyg (Pobl nad ydynt yn Gynllunwyr)

Mae'n bosibl iawn y bydd pobl leyg yn cael eu cynnwys mewn grwpiau llywio ar gyfer SPPs neu PANs. Mae'r Weithrediaeth yn ceisio sicrhau bod buddiannau sydd yn arbennig o berthnasol i bwnc yr SPP / PAN yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, nid yw'n arferol cynnwys pobl leyg – yn enwedig os yw'r materion yn dechnegol eu natur.

Efallai bod yr ymagwedd fwyaf ddiddorol a geir yn yr Alban o safbwynt y cwestiwn hwn i'w gweld yn y broses o baratoi'r NPF a'r gwaith cyfredol o'i adolygu. Ar ddechrau 2007, anfonwyd gwahoddiadu ar gyfer cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol i edrych ar yr hyn y gallai'r NPF ei gynnwys ar ôl ei ddiweddarau. Er mwyn sicrhau bod pobl leyg yn cael gwahoddiad, trafododd y Weithrediaeth â'r Gymdeithas Cynghorau Cymuned a defnyddio ei rhestr o aelodau. Roedd hefyd yn cynnwys y rheini a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar PAN81 (cyfranogiad cymunedol), yn ogystal â'r rheini ar restr gyfredol y Weithrediaeth ar gyfer newyddion am gynllunio yn yr Alban; roedd y Weithrediaeth hefyd wedi cysylltu â Chymorth Cynllunio yr Alban. Drwy hyn, bu modd cysylltu â sefydliadau cymunedol a phobl leyg.

Lluniwyd taflen, *Small Country, Big Plans*, fel rhan o'r broses o adolygu'r NPF. Anfonodd y Weithrediaeth gopïau at lyfrgelloedd ledled yr Alban. Roedd y daflen yn cynnwys slip i'w lenwi a'i ddychwelyd, yn ogystal â manylion cyswllt, sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl fod yn rhan o'r broses o adolygu'r NPF.

### 6.4.3 Cyfatebolrwydd rhwng Polisiâu Cenedlaethol

Fel arfer, ceir trafodaethau mewnol yn Is-adrannau'r Weithrediaeth, yn y lle cyntaf am bynciau sydd yn berthnasol i'r Is-adrannau hynny. Dim ond ar ôl iddo gael ei gymeradwyo drwy'r broses drafod fewnol y caiff ymgynghoriad ei gyhoeddi.

Ceir hefyd asiantaethau 'ar hyd braich' sy'n cyflwyno polisi yn y meysydd hyn – Communities Scotland, Scottish Enterprise, Transport Scotland, ac ati. Fel arfer, byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal â'r asiantaethau hyn, e.e. ar drafnidiaeth. Ar ôl dod i gytundeb cychwynnol o fewn y Weithrediaeth, cynhelir cyfarfodydd â Transport Scotland ar faterion megis yr Adolygiad Strategol o Drafnidiaeth, cefnffyrdd ac ati.

### 6.4.4 Ymgynghori

Dadansoddir yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddir adroddiad ar y canlyniadau a bydd yr adroddiad hwnnw ar gael ar-lein. Yn y modd hwn, gall ymatebwyr weld sut y mae eu hymatebion yn cysylltu ag ymatebion eraill a barn y Weithrediaeth.

## 6.5 Gweriniaeth Iwerddon

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cynigiom drosolwg o'r system sydd ar waith yng Ngweriniaeth Iwerddon. Ceir yma rhagor o fanylion o safbwynt alinio â pholisïau cenedlaethol eraill, er mwyn llywio'r broses yng Nghymru.

### 6.5.1 Cysylltiadau ar draws y Llywodraeth

Ar ôl cyhoeddi Strategaeth Ofodol Genedlaethol Iwerddon (NSS), aeth yr DEHLG ati i gymryd yr awenau o fewn y Llywodraeth, drwy gamu ymlaen â'r gwaith o'i chyflwyno. Cefnogwyd hyn yn fewnol gan yr Uned Polisi Gofodol ac yn allanol drwy gyfrwng Pwyllgor Rhyng-adrannol sy'n adrodd i Bwyllgor y Cabinet a gaiff ei gadeirio gan yr An Taoiseach.

Mae'r DEHLG wedi cydweithio'n agos ag Adrannau eraill, yn enwedig yr Adran Drafnidiaeth. Roedd y cysylltiad rhwng y strategaeth drafnidiaeth genedlaethol, Transport 21, a lansiwyd yn 2005 i lywio buddsoddiad yn ystod 2006-15, â'r NSS wedi'i gydnabod yn glir gan y Llywodraeth. Mae'r adran drafnidiaeth wedi cydweithio â'r DEHLG ar lefel leol hefyd, yn trafod y broses o ddrafftio dogfennau'r RPG ac yn cysylltu meini prawf buddsoddi trafnidiaeth â rhoi polisïau cynllunio ar waith e.e. sicrhau bod ailagor llinell reilffordd faestrefol Cork yn amodol ar ddatblygwyr yn codi nifer benodol o dai yn lleol.

Mae strategaethau eraill yn ategu ac yn cefnogi'r NSS, e.e. menter, ymchwil ac arloesi a datblygu gwledig. Yn ddiweddar, mae rôl yr NSS wrth ddarparu fframwaith ar gyfer y Cynllun Datblygu Cenedlaethol, wedi'i ysgogi gan yr Adran Gyllid, wedi'i chydabod yn glir

gan y Llywodraeth. Mae osgoi anghysondebau rhwng Gweinidogaethau wedi bod yn ffactor pwerus wrth gynnal statws y NSS fel polisi traws-lywodraethol.

Mae'r DEHLG hefyd yn cymryd yr awenau wrth gydgysylltu polisiâu gofodol o'r brig i'r bôn, gan gydgysylltu â phwyllgor a sefydlwyd â'r nod o lunio canllawiau cynllunio rhanbarthol ond sydd bellach yn cyflawni rôl fel seinfwrdd ar gyfer y broses o ddatblygu polisiâu cysylltiedig. Mae cynllunwyr proffesiynol yn yr Is-adran Gynllunio hefyd yn cynghori ar bolisiâu cynllunio cenedlaethol ar fyrddau Cynlluniau Datblygu Cyngor / Dinas Lleol, gyda'u cydweithwyr ym maes trafndiaeth, gan gynnig ffordd arall o fod yn gyson â pholisiâu NSS ar lefel leol a chan gynnig cyfleoedd i nodi meysydd lle mae angen polisiâu newydd.

Mae'r nifer fawr o bwyllgorau, rhwydweithiau a grwpiau rhanddeiliaid y mae'r DEHLG yn gweithio gyda hwy i ddatblygu polisi yn mynnu llawer o adnoddau, yn enwedig yn achos Is-adran Gynllunio gymharol fach. Mae'r traddodiad o gyfnewid staff proffesiynol rhwng y lefel leol a'r lefel genedlaethol a chyda'r bwrdd apêliadau yn sicr yn helpu i hybu rhwydweithio. Mae hyn yn fanteisiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion lleol ar lefel genedlaethol, ac er mwyn datblygu polisiâu penodol i'w datrys yn gyflym.

## 6.6 Yr Iseldiroedd

Mae gan yr Iseldiroedd draddodiad hir o ymarfer polisi cynllunio gofodol, sy'n pwysleisio cydweithio rhwng dyrannu defnydd tir a buddsoddiad cyhoeddus mewn datblygu, darparu seilwaith a rheoli dŵr. Caiff strategaethau gofodol ar lefel genedlaethol, ar lefel leol ac ar lefel talaith eu llywio'n aml gan fframweithiau gofodol cryf a gallu datblygedig i'w gweithredu.

Mae'r Weinidogaeth Cynllunio Gofodol Cenedlaethol (VROM)<sup>70</sup> yn disgrifio'r NSS fel a ganlyn:

**... dogfen strategol sy'n mynd i'r afael â'r prif faterion ac sy'n rhoi mwy o sgôp i lywodraethau taleithiol a threfol wneud eu penderfyniadau eu hunain na dogfennau blaenorol. Rhaid i'r penderfyniadau roi sylw dyledus i'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng yr amrywiol ardaloedd yn yr Iseldiroedd. Bydd hyn yn sicrhau bod cynlluniau gofodol yn alinio'n agosach â dymuniadau'r gymdeithas ac yn ei gwneud yn haws i roi'r cynlluniau ar waith yn gynt. Mae'r Strategaeth Ofodol Genedlaethol hefyd yn sicrhau mai nodau'r polisi yw'r brif ystyriaeth yn hytrach na'r rheolau a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae hyn yn gwrthgyferbynu â'r degawdau diwethaf, a oedd yn aml yn rhoi'r flaenoriaeth i reolau.**

<http://international.vrom.nl/pagina.html?id=9225>

<sup>70</sup> [www.vrom.nl/international](http://www.vrom.nl/international)

Mae polisïau ffurfiol yn bodoli ar ffurf *Penderfyniadau Cynllunio Allweddol* ac maent yn arwain at ddatganiad a map. Datganiad integreiddiol ydyw yn ei hanfod, ac nid set o ddatganiadau am faterion gwahanol, er bod y testun yn mynd i'r afael â 'phynciau'. Mae'n seiliedig ar drafodaethau amrywiol a dwys, gan gynnwys cysyniadau gofodol allweddol, e.e. y cysyniad o ddatblygu coridor yn hytrach na datblygu cryno.

Er bod llawer o feirniadaeth wedi bod am bolisïau manwl, cefnogir y syniad o gynllunio gofodol yn nhermau canllawiau'r wladwriaeth ar sut y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu. Yn draddodiadol, mae'r sector cyhoeddus wedi chwarae rôl gadarn wrth hyrwyddo ac ymgymryd â datblygu, er bod hyn yn newid erbyn hyn.

#### 6.6.1 Cyfatebolrwydd rhwng Polisïau Cenedlaethol

Mae gan y trefniadau a'r arferion yn yr Iseldiroedd gapasiti sylweddol ar gyfer cydweithredu rhwng y sectorau. Un o amcanion allweddol y Penderfyniadau Cynllunio Allweddol a'r amryw gynlluniau datblygu gofodol yw dod i gytundeb gwleidyddol a rhyngadrannol ar brosiectau a buddsoddiadau mawr.

Penderfyniadau Cynllunio Allweddol Cenedlaethol<sup>71</sup> yw canlyniad proses sy'n dechrau gydag adroddiad a gynhyrchir gan VROM ar faterion a diwygiadau a datblygiadau polisi posibl, wedi'i dilyn gan drafodaethau dwys ag adrannau ac â lefelau eraill y llywodraeth, a chan drafod cyhoeddus. Mae gweinidogaethau cenedlaethol eraill yn llunio strategaethau gofodol o bryd i'w gilydd, yn bennaf y rheini sy'n mynd i'r afael â thraffig a thrafnidiaeth, ardaloedd gwledig ac ynni. Yna mae'r Llywodraeth yn gwneud penderfyniad yn y cabinet, sy'n cael ei gyflwyno gerbron y Senedd i'w gymeradwyo. O ganlyniad, dim ond cynigion sydd wedi'u cymeradwyo gan yr holl weinidogaethau a'r diddordebau gwleidyddol sylweddol sydd wedi'u cynnwys yn y strategaethau.

Fodd bynnag, gall y broses fod yn hirfaith. Cychwynnwyd y Cynllun diweddaraf ym 1999, ond ni chyhoeddwyd y ddogfen derfynol, *Nota Ruimte*, tan 2005 o ganlyniad i newidiadau gwleidyddol cenedlaethol sylweddol.

Un o gyflawniadau allweddol y broses hon yw cydgysylltu o'r brig i'r bôn ac ar draws holl adrannau a lefelau'r llywodraeth.

#### 6.6.2 Cynnwys Sefydliadau Allanol

Mae'r prif locws trafod yn bodoli rhwng gweinidogaethau a bwrdeistrefi pwerus. Ystyrir bod y trafodaethau hyn yn hanfodol er mwyn dod i gytundeb sy'n cadw dimensiynau buddsoddi

<sup>71</sup> Mae taleithiau yn llunio *Streekplannen* ac mae bwrdeistrefi yn llunio *Structuurplannen* (dogfennau polisi strategol) a *bestemmingsplannen*, ar gyfer ardaloedd lle mae defnydd tir yn newid. Mae'r rhain yn gynlluniau parth cyfreithiol sy'n pennu hawliau datblygu a defnydd tir.

a rheoleiddio'r polisi wedi'u halinio. Hyd nes yn ddiweddar, roedd gan VROM rôl bwerau a oedd yn helpu i sicrhau bod strategaeth ofodol yn elfen allweddol o lunio polisiâu yn yr Iseldiroedd. Mae sylwebyddion yn nodi bod y gweinidogaethau datblygu economaidd a seilwaith wedi dod yn fwy pwerus na'r weinidogaeth cynllunio gofodol yn ystod y blynyddoedd diwethaf<sup>72</sup>, serch hyn erys ystyriaethau gofodol yn bwysig.

### 6.6.3 Ymgynghori

Mae'r traddodiad cydweithredu ac ymgynghori yn parhau, fodd bynnag, ymysg gwleidyddion a swyddogion cyhoeddus. Cyfeirir ato'n aml fel dull 'cyd-cymdeithasol' o lywodraethu, yn hytrach na dull o'r brig i'r bôn. Golyga hyn gydweithredu ymysg 'partneriaid'. Mae'r rhain hefyd yn darparu rhwydweithiau lle gall dinasyddion, gwleidyddion a swyddogion gysylltu â'i gilydd ynghylch materion sy'n ymwneud â chynllunio.

Ceir dadleuon brwd yn y cyfryngau ac mewn meysydd eraill am faterion sy'n ymwneud â datblygu gofodol ar draws y gymdeithas. Ystyrir bod neilltuo amser ar gyfer dadlau ac ymgynghori yn rhan bwysig o'r broses lywodraethu, er eu bod yn cymryd amser. Caiff ymgynghoriadau penodol am strategaethau ffurfiol / paratoi cynlluniau eu rhoi mewn cyd-destun llywodraethu lle ceir dadlau brwd, ac mae hyn yn gosod sail bwysig ar gyfer datblygu cynigion strategol.

## 6.7 Flanders, Gwlad Belg

Flanders yw un o'r tri rhanbarth yng Ngwlad Belg, oedd â phoblogaeth o ryw chwe miliwn yn 2001<sup>73</sup>. Ym 1980, ar ôl hanes hir o lywodraeth ganolog, rhoddwyd mwy o bwerau o lawer i'r rhanbarthau, gan gynnwys cynllunio gofodol a datblygu economaidd. Erbyn hyn, roedd ardal Flanders wedi gweld proses drefoli sylweddol a gwasgarog, gan greu datblygiadau gwasgarod yn enwedig ar hyd prif ffyrdd. O fewn y gymdeithas yn ei chyfanrwydd, cafodd hawliau datblygu unigol eu cynnal yn gryf, gyda thir wedi'i ddal mewn unedau cymharol fach. Nid oedd llawer o hyder na diddordeb yn y syniad o gynllunio.

Roedd hyn wedi arwain at broses ddysgu sylweddol ar draws pob sector a phob lefel o'r llywodraeth, ac ymysg gwleidyddion, swyddogion a grwpiau pwysau. Mae'r tîm cynllunio wedi pwysleisio droeon mai syniadau'r ddogfen gynllunio oedd bwysicaf, a sut y caiff y syniadau hyn eu hail-greu, ac nid y ddogfen ei hun. Tynnwyd grwpiau amgylcheddol ac undebau llafur i'r drafodaeth i herio goruchafiaeth flaenorol lobïâu amaethyddol a busnes traddodiadol. Yn gynyddol, cafwyd mwy o gefnogaeth i'r syniad y dylai cynllunio gyfyngu ar

<sup>72</sup> Hajer, M a Zonneveld, W Spatial Planning in the Network Society – rethinking the principles of planning in the Netherlands, *European Planning Studies*, 8, 337-355, 2000

<sup>73</sup> Mae Brwsel wedi'i leoli o fewn rhanbarth Flanders, serch hyn mae'n rhanbarth ynddi'i hun.

bosibiliadau datblygu mewn rhai ardaloedd, ac y dylid gorfodi hyn yn fwy llym. Roedd hefyd mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i gyflawni rôl fwy gweithgar wrth hyrwyddo a chydgyssylltu mentrau datblygu.

#### 6.7.1 Cynnwys Sefydliadau Allanol

Roedd hon yn elfen bwyig iawn o'r broses o ddatblygu polisi, gyda 'deialog agored' rhwng yr adrannau sector traddodiadol (amaethyddiaeth, tai, gwaith cyhoeddus, addysg, trafndiaeth a'r economi), a llwyddodd hyn i gyflwyno mwy o bobl, cyng Rheiriaid newydd, rhwydweithiau newydd a syniadau newydd i'r broses gynllunio.

Roedd yr undebau llafur, â'u cysylltiadau ag aelodau seneddol a gweinidogion, yn ffactor pwysig a hynod gefnogol, a chrewyd cysylltiadau hefyd â grwpiau lobïo eraill. Trefnwyd fforymau arbennig ar gynllunio gofodol, lle trafodwyd ystyr strategaethau a'u heffeithiau ar weithwyr a dinasyddion. Sefydlwyd arenau arbennig ar gyfer gweinidogaethau cynllunio (taleithiol a bwrdeistrefol) a gweinyddiaethau canolog ac ar lefel y dalaith. "*Roedd yr arenau hyn wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer pob gweinyddiaeth, gan ddechrau gyda'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu ac yn trafod sut y gellid mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy egwyddorion y Cynllun Strwythurol... Roedd y deialog hwn yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau bod y gweinyddiaethau hyn yn ymwybodol o'r ymagwedd newydd ac wrth gael cyfraniad o'r bôn i'r brig mewn proses a oedd wedi'i rheoli'n bennaf o'r brig i lawr.* (Albrechts et al. 2003<sup>74</sup>). Ar y cyfan, dewisiwyd sefydliadau oherwydd eu rôl wleidyddol a'u harwyddocad o safbwynt gwireddu'r strategaeth.

Roedd y mecanweithiau ar gyfer cynnwys sefydliadau allanol yn rhoi mwy o bwyslais o lawer ar ddenu sylw ac ysgogi camau gweithredu, yn hytrach na dilyn camau ffurfiol y broses gynllunio.

#### 6.7.2 Pobl Leyg

Roedd pobl leyg yn chwarae rhan fawr yn y broses o ddatblygu polisi, o weinidogion a swyddogion o adrannau'r llywodraeth, i grwpiau lobïo o bob math. Serch hyn, ni chynhaliwyd ymgynghori eang â'r cyhoedd.

### 6.8 Y Swistir

Mae'r sefyllfa yn y Swistir yn cysylltu'n agos â'r system wleidyddol ffederal. Ers 1980, bu cyfraith gwlad ar Gynllunio Gofodol yn disgrifio nodau ac egwyddorion cyffredinol Datblygu Gofodol, yn ogystal â rhannu'r cymwyseddau rhwng y 26 canton a'r llywodraeth ffederal.

<sup>74</sup> Albrechts, L, Healey, P. a Kunzmann, K. Strategic Spatial Planning and Regional Governance in Europe. *Journal of the American Planning Association*, 69, 113-129, 2003.

Ym 1987 a 1996 cyhoeddwyd Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol (NPG). Maent yn canolbwyntio ar bolisiau sector, datblygu gofodol cytbwys a chytûn, tiriogaethau / rhanbarthau a heriau a strategaethau arfaethedig.

Mae cyfraith cynllunio cenedlaethol yn rhoi cymhwysedd i'r Cydffederasiwn gynnal adolygiad, ac os oes angen, mynnu newidiadau / addasiadau i'r cynlluniau gofodol cantonol (Kantonale Richtpläne). Rhaid i'r Richtpläne gydymffurfio â'r egwyddorion a'r strategaethau cyffredinol a amlinellir yn y gyfraith a'r NPG.

Bwriedir i '*Gysyniad Gofodol newydd ar gyfer y Swistir*' (yn Almaeneg, fe'i gelwir Raumkonzept Schweiz) fod yn barod erbyn diwedd 2008.

#### 6.8.1 Cynnwys Sefydliadau Allanol

Ymgynghorir yn rheolaidd â grwpiau pwysig megis cynhadledd y cyfarwyddwyr adeiladu, cynllunio ac amgylcheddol, sy'n cynnwys aelodau o'r weithrediaeth sy'n gyfrifol am bolisiau penodol o bob canton. Ceir hefyd cynadleddau sector, ac mae'r Gynhadledd o Gynllunwyr Canton, sy'n cynnwys penaethiaid adrannau / swyddfeydd cynllunio pob canton, yn bwysig iawn. Mae'r broses hon o gydweithredu ar draws cantonau yn hynod bwysig a gellir ei hystyried fel math o lefel ganolog rhwng y cantonau a'r Cydffederasiwn.

Ar lefel ffederal, ceir dau gorff sy'n ymwneud yn rheolaidd â'r gwaith o baratoi a chydgyssylltu deddfau ac offerynau newydd ac ati. Yn gyntaf, corff o'r enw Rat für Raumordnung (cyngor cynllunio gofodol), sy'n cynnwys gwyddonwyr ymchwil sydd â phrofiad ym maes datblygu gofodol. Mae'n felin drafod ar gyfer y Cydffederasiwn ar faterion sy'n ymwneud â datblygu gofodol. Y llywodraeth sy'n dewis yr aelodau.

Mae'r corff arall, sef y 'Gynhadledd ar gyfer Cynllunio Gofodol', yn gweithredu ar lefel weinyddol genedlaethol. Mae'n cynnwys yr holl swyddfeydd ffederal sydd â chysylltiadau agos â datblygu gofodol. Mae'n sicrhau cydweithredu agos rhwng polisi rhanbarthol a datblygu gofodol yn ogystal â rhwng amryw bolisiau sector.

Mae'r Swistir yn mabwysiadu ymagwedd newydd: cyhoeddodd y Swyddfa Ffederal ar gyfer Datblygu Gofodol adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth am Gyflwr Datblygu Gofodol yn y Swistir (Raumentwicklungsbericht 2005). Cafodd hyn ei ddilyn gan ymgynghoriad cyhoeddus. Cyhoeddwyd adroddiad yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Yn 2006, llofnododd y Gweinidog sy'n gyfrifol am Ddatblygu Gofodol femorandwm cyd-ddealltwriaeth â chantonau, dinasoedd a chymunedau i ddatblygu '*Cysyniad Gofodol ar gyfer y Swistir*'. Y bwriad yw datblygu gweledigaeth gyffredin am ddatblygu gofodol yn y Swistir a diffinio mesurau i sicrhau datblygu gofodol cynaliadwy.

Mae'r broses hon bellach ar y gweill. Ceir gweithgorau gwleidyddol a thechnegol yn ogystal â 'fforymau' cyhoeddus ym mhob un o'r naw rhanbarth yn y Swistir. Bydd cynhadledd genedlaethol yn ceisio cyfuno'r holl ganlyniadau rhanbarthol a llunio cysyniad cenedlaethol. Mae cyfranogwyr yn y fformymau rhanbarthol yn cynnwys gwleidyddion ac arbenigwyr, yn ogystal â phobl leyg sydd â diddordeb.

Mae'r Swistir yn rhoi pwyslais mawr ar dynnu awdurdodau canolog ynghyd a chydgysylltu eu camau gweithredu, ac yn awr anelir hefyd tuag at gydgysylltu o'r brig i'r bôn.

## 6.9 Colombia Prydeinig

### 6.9.1 Y Broses o Ddatblygu Polisi

Yng Ngholombia Prydeinig (BC), cafwyd adolygiad sylfaenol diweddar o offerynnau polisi cynllunio, a chynigiwyd newidiadau sylweddol.<sup>75</sup>

Mae'r adolygiad yn cydnabod nifer o fanteision cynllunio defnydd tir strategol, gan gynnwys:

- Gwella cyfathrebu, dysgu, dealltwriaeth a chydgysylltu rhwng asiantau drwy gyfrwng cyfranogiad rhanddeiliaid ac asiantau;
- Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o gymhlethdod y gwaith o reoli adnoddau rhanbarthol;
- Meithrin perthynas ac ymddiriedaeth a lleihau gwrthdaro drwy gyfrwng ymagweddau cyfranogol / cydweithredol tuag at gynllunio;
- Gwella cyfeiriad gweithgareddau diwydiannau (e.e. coedwigaeth, mwyngloddio, amaeth dyframaeth ac ati); a
- Sefydlu BC fel arweinydd y byd o safbwynt gweithredu argymhellion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig er mwyn cynnal bioamrywiaeth ac er mwyn diogelu nodweddion arbennig.

Mae hyrwyddo'r system cynllunio defnydd tir strategol yn y ffordd hon yn helpu i egluro ei diben a'i rôl i'r rheini nad ydynt yn gynllunwyr.

Un o nodweddion mwyaf diddorol yr adolygiad hwn oedd y ffaith ei fod wedi cynnal asesiad risg. Rhydd hwn sail i ddatblygu cynigion ar gyfer system newydd. Maent hefyd o gymorth wrth hyrwyddo diben a rôl cynllunio defnydd tir i'r rheini nad ydynt yn gynllunwyr, yn ogystal ag atgoffa'r rheini sydd yn rhan ganolog o'r broses. Dyma'r gwerthoedd strategol / egwyddorion allweddol o safbwynt risg:

<sup>75</sup> Ceir crynodeb o'r adolygiad a'r newidiadau mewn adroddiad gan yr 'Integrated Land Management Bureau of the Ministry of Agriculture and Lands'. *A New Direction for Strategic Land Use Planning in BC*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006.



- Rhoi sicrwydd i ddefyddwyr o safbwynt y sail tir, gan olygu bod y broses yn:
  - ▶ dryloyw;
  - ▶ nodi rolau a chyfrifoldebau yn glir;
  - ▶ amserol;
  - ▶ arwain at ganlyniad diamwys; ac yn
  - ▶ cymhwyso safonau cyson ac amddiffynadwy (gwyddonol).
- Cyfrifoldeb y Llywodraeth yw gwneud y penderfyniad terfynol o hyd, er mwyn sicrhau bod ei nodau, ei hamcanion a'i meini prawf o ran gwerth yn llywio'r mandadau cynllunio;
- Mae'r broses defnydd tir yn broses sy'n esblygu ond mae'n digwydd o fewn ffiniau cyllidol y llywodraeth;
- Mae tir yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau, gan gynnwys helpu'r llywodraeth i ddyrannu tir i gefnogi blaenoriaethau strategol;
- Mae gan randdeiliaid allweddol rôl yn y broses o ddatblygu a gweithredu cynlluniau defnydd tir; a
- Mae buddiannau a gwerthoedd y Cenhedloedd Cyntaf<sup>76</sup> yn cael eu hymgorffori i gynlluniau defnydd tir.

***“Roedd yr asesiad risg wedi nodi risgiau mewn tri phrif faes: dyluniad y cynllun; y broses gynllunio; y dechneg gynllunio. Bwriedir i gamau gweithredu arfaethedig liniaru'r tri maes risg drwy lywio fframwaith cynllunio newydd, yn benodol o safbwynt cyflwyno ymagwedd drylwyr a chynhwysfawr, dadansoddi achosion busnes, a chefnogi safonau, i gyflwyno gweithdrefnau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ac i ymchwilio i fodolau trafod arloesol, a'u rhoi ar waith.”***

Er bod dibenion traddodiadol cynllunio strategol yn dal i fod yn berthnasol, e.e. datrys anghydfod am ddefnydd tir, nododd yr astudiaeth ffactorau newydd a oedd yn ysgogi newid. Roedd y rhain yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, galwadau am ynni a mwynau a chynllunio morol ac arfordirol a mentrau cadwraeth.

Dyma'r pwyntiau allweddol a gynigiwyd mewn perthynas â'r cwestiynau hyn a chwestiynau eraill:

- Safoni gweithdrefnau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd;
- Diweddarau rhannau o gynlluniau yn unig, yn hytrach na'r cynlluniau cyfan;
- Ail-frandio LRMPs<sup>77</sup> a SRMPs<sup>78</sup> yn 'Gynlluniau Adnodd a Thir Strategol';

<sup>76</sup> Mae Cenhedloedd Cyntaf yn cyfeirio at y bobl a all olrhain eu llinach i'r bobl a oedd yn byw ar dir BC cyn i'r Ewropeaid a'r Americanaid gyrraedd ar ddiwedd y 18fed ganrif. Cyfeiri at y grwpiau hyn yn aml wrth enwau eraill, gan gynnwys Cynfrodorion, Brodorion, Indiaid, Pobl Frodorol, a Bandiau Indiaidd. Mae'r term Cenhedloedd Cyntaf yn fwy cyffredin yn awr am ei fod yn hepgor y'r enw 'Indiaid', a gododd o gamsyniad Christopher Columbus ei fod wedi glanio yn yr India. Mae'r term Cenhedloedd Cyntaf hefyd yn osgoi'r arwyddocâd dirmygus sy'n aml yn cael ei gysylltu â'r termau eraill.

- Y llywodraeth i arwain cynlluniau newydd, wedi'u llunio ar y cyd â Chenhedloedd Cyntaf, gan ddefnyddio rhanddeiliaid mewn capasiti cynghorol, ac i sicrhau bod yr amserlenni, y prosesau a'r cynnyrch yn glir;
- Adolygu canllawiau strategol i ganolbwyntio ar gynnyrch a gweithdrefnau yn hytrach na hierarchaeth ddaearyddol. Er enghraifft, cynlluniau i fynd i'r afael â chystadleuaeth fawr am ddefnydd tir; cyfyngiadau neu gyfleoedd datblygu economaidd sy'n gysylltiedig ag adnoddau a thir cyhoeddus; a
- Dylunio cynlluniau mewn ffordd newydd a strategol, gyda phrosesau a thechnegau cynllunio strategol yn cael eu strwythuro yn ôl argymhellion yr asesiad risg.

Nod y newidiadau a gynigir yw cyflymu gweithgareddau cynllunio ar lefel ranbarthol, a lleihau'r costau, drwy sicrhau eu bod yn dilyn math o 'fodel busnes' sy'n lleihau risg i'r llywodraeth ranbarthol yn nhermau yr hyn y mae arni eisiau ei gyflawni drwy gynllunio defnydd tir strategol. Mae'r cynigion yn ceisio cyflwyno “*fframwaith cynllunio newydd, yn arbennig o safbwynt cyflwyno dull trylwyr a chynhwysfawr, dadansoddi achosion busnes, cefnogi safonau, cyflwyno gweithdrefnau sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac ymchwilio a gweithredu modelau trafod arloesol.*”

## 6.10 Talaith Washington

Yn Nhalaith Washington, mae'r system gyffredinol<sup>79</sup>, o ystyried strwythur llywodraethu America, yn wahanol iawn i'r hyn a geir yng Nghymru. Fodd bynnag, gellir dysgu gwersi diddorol oddi wrth rai agweddau ar y system.

<sup>77</sup> Mae Cynlluniau Rheoli Tir ac Adnoddau (LRMPs) yn gynlluniau rhanbarthol a ddatblygwyd i fynd i'r afael ag anghydfod o safbwynt defnydd tir, materion amgylcheddol a chystadleuaeth rhwng grwpiau o ddefnyddwyr yr adnoddau. Fe'u defnyddiwyd fel proses sylfaenol ar gyfer cael cymeradwyaeth y cyhoedd ar gyfer parciau newydd ac ardaloedd gwarchoddedig. Mentrau aml-asiantaeth ydynt fel arfer, wedi'u cydgyssylltu gan asiantaeth gynllunio benodedig, ac yn cynnwys rhanddeiliaid fel rhan o broses “drafod yn seiliedig ar fuddiannau” wrth gynllunio.

<sup>78</sup> Mae Cynlluniau Rheoli Adnoddau Cynaliadwy (SRMPs) yn gynlluniau manylach, sy'n ymwneud â phenderfyniadau rheoli adnoddau “*ar gyfer tirluniau neu wahanfeydd dŵr bach a chanolig*”. Maent yn canolbwyntio ar faterion a gwerthoedd tebyg i'r LRMPs (e.e. coed, bioamrywiaeth, twristiaeth), ond ar lefel fanylach.

<sup>79</sup> Mae Talaith Washington, ynghyd â phob talaith arall yn yr Unol Daleithiau, wedi'i galluogi gan y llywodraeth Ffederal i arfer pŵer polisi drwy system gynhwysfawr o gynllunio defnydd tir. O gofio'r cyfansoddiad ffederal, pwerau cyfyngedig iawn sydd gan y llywodraeth ei hun. O ganlyniad, yr unig rôl y mae'r llywodraeth Ffederal yn ei chwarae menw polisi cynllunio lleol neu daleithiol yw ei ariannu fel arfer, gyda'r gyllideb ffederal a'r agenda wleidyddol yn cyfeirio'r arian i'r gweithgareddau a ystyrir bwysicaf. Prin iawn o ymwneud yn uniongyrchol â pholisi a geir, oni bai bod yna oblygiadau cyfansoddiadol difrifol. Mae pob Talaith wedi mabwysiadu rhyw fath o ddeddfwriaeth gynllunio. Mae rhai taleithiau yn arfer mwy o'u pwerau nag eraill, drwy gyfrwng gwahanol raddau o ddatganoli. Mae erill yn rhoi mwy o bŵer a chyfrifoldebau ac ymreolaeth i awdurdodau lleol.

Pan fydd Cod Diwygiedig Washington (RCW)<sup>80</sup> neu God Gweinyddol Washington (WAC)<sup>81</sup> yn arwain at newidiadau yn y ffordd y mae cynllunwyr awdurdodaethau lleol (neu'r ymgynghorwyr sy'n gweithio ar eu rhan) yn gwneud eu gwaith, bydd y Wladwriaeth yn noddï gweithdai i egluro'r rheolau neu'r deddfau newydd, y disgwyliadau ar gyfer newid perfformiad yn lleol, a rhai awgrymiadau am sut i fynd ati i weithio yn unol â'r ffordd newydd. Mae Adran Ecoleg Washington hefyd yn noddï gweithdai blynyddol i roi briff i gynllunwyr am yr hyn sy'n newid o fewn yr Adran ac am ba waith sydd ar y gweill gyda chyfoedion yn y Dalaith. Gwelir bod hyn yn ddefnyddiol iawn i'r rheini sy'n gweithio yn y maes.

Yn ogystal, mae'r Wladwriaeth a Chymdeithas Gynllunio Washington yn noddï Cwrs Byr mewn Cynllunio Llywodraeth Leol, sef cwricwlwm teithiol, wedi'i deilwra, sy'n ymweld â dinasoedd i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder yn lleol.

## 6.11 Singapore

Mae Gweriniaeth Singapore yn ei hanfod yn ddinas-wladwriaeth. Nid yw ei harwynebedd ond yn 660 o gilometrau sgwâr, ac mae'r economi yn gryf, ac felly ceir pwysau sylweddol ar dir. Nid oes syndod felly bod cynllunio wrth wraidd datblygu cenedlaethol yn Singapore.

Mae Singapore yn enghraifft prima facie o ddinas wedi'i chynllunio, lle caiff twf trefol ei lywio a'i reoli yn ofalus. Mae Singapore yn gweithredu system rheoli datblygu cynlluniau sy'n debyg i'r system yng Nghymru. Caiff strategaethau a gweledigaeth gynllunio ei nodi yn y Cynllun Cysyniad hirdymor, a gaiff ei adolygu a'r ddiwygio unwaith bob deng mlynedd,<sup>82</sup> ac mae'n nodi gweledigaeth 40-50 mlynedd ar gyfer y diriogaeth<sup>83</sup>. Mae'n bosibl alinio'r Cynllun Cysyniad â Chymru fel cyfuniad o gynllunio defnydd tir cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru.

<sup>80</sup> Cod Diwygiedig Washington (RCW) yw cyfraith y dalaith, wedi'i chyfundrefnu a'i chrynhai. Mae Deddfwfa'r Dalaith yn cyfarfod am dri mis ar ddechrau'r flwyddyn, pan fyddant yncynnig, yn trafod ac yn pasio'r amrywiol fesurau sydd yn troi'n ddeddfau, ar ôl i'r Llywodraethwr (Governor) eu llofnodi.

<sup>81</sup> Ar ben RCWs, mae gan y Dalaith set o reolau a chanllawiau ar gyfer defnyddio'r deddfau. Ceir rhywfaint o debygrwydd yma â Chymru – ac yn achos defnyddio TANs / MTANs. Mae biwrocratiaeth y Dalaith yn creu'r rheolau a'r canllawiau hyn, ac fe ddylai, neu mae'n rhaid i awdurdodaethau lleol gydymffurfio â hwy wrth weithredu yn unol â'r deddfau cynllunio. Y WAC yw'r crynodeb o'r rheolau a'r canllawiau hynny. Ni chânt eu mabwysiadu gan y Ddeddfwfa, ond mae'r gait h'o'u creu yn aml wedi'i fynnu'n benodol gan y RCWs y mae'r Ddeddfwfa yn eu pasio. Mae adrannau unigol y Dalaith sydd â chyfrifoldeb dros reoleiddio perfformiad o dan y RCWs hefyd yn gyfrifol am ddrafftio'r WACs. Dim ond yn ystod y cylch deddfwriaethol tri mis y caiff RCWs eu cyhoeddi, ond gall WACs gael eu creu ar unrhyw adeg.

<sup>82</sup> Gellir gweld y cynllun cyfredol ar y we yn [www.ura.gov.sg/conceptplan2001](http://www.ura.gov.sg/conceptplan2001)

<sup>83</sup> Caiff strategaethau bras y Cynllun Cysyniad eu trosi i ardaloedd lleol drwy gyfrwng cynlluniau canllaw datblygu (DGP) a gaiff eu cyhoeddi yn yr Uwchcynllun. Ceir 54 o DGPau o dan bum rhanbarth cynllunio Singapore. Fel rhan o'r pwyslais ar hunaniaeth yn y Cynllun Cysyniad, bydd map hunaniaeth yn cael ei gynnwys ym mhob DGP.

Gellir rhagdybio'r rhan fwyaf o themâu allweddol cynllun 2001 – tai, busnes, seilwaith ac ati – ond mae'n ddiddorol nodi bod 'hunaniaeth' hefyd yn eu mesg. Yn ôl y Cynllun "*Wrth i Singapore ddatblygu, rydym am gadw ymdeimlad o hunaniaeth yn ein tirlun ffisegol ac annog ymdeimlad o berthyn i'n gwlad.*" Mae cydnabod amrywiaeth Singapore yn rhan allweddol o'r hunaniaeth hon. Caiff goblygiadau hunaniaeth fel nod allweddol o safbwynt cynllunio eu hegluro ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ac o ran trefi newydd a chanol trefi. Mae'r thema hunaniaeth hon yn clymu â Chymru, yn arbennig yn achos yr iaith Gymraeg, ynghyd â meysydd mwy cyffredin, megis dylunio.

#### 6.11.1 Cynnwys Pobl Leyg

Yn sgil agwedd fyd-eang y gymdeithas, mae'r awdurdod wedi mabwysiadu agwedd fwy agored a thryloyw wrth lunio cynlluniau a chanllawiau, gan annog cyfranogiad cyhoeddus ac adborth ar y broses gynllunio. Ffurfiwyd dau grŵp ffocws yn cynnwys trawsdoriad o aelodau'r cyhoedd yn 2000 i adolygu a rhoi sylwadau ar y Cynllun Cysyniad Drafft. Roedd un grŵp yn ymwneud â chydbwysio galwadau sy'n cystadlu am dir, ac roedd y llall yn ymwneud â hunaniaeth. Aeth y grwpiau hyn ati i ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd. Cynhaliwyd deialog cyhoeddus â'r gweinidog a chafwyd fforwm cyhoeddus i drafod canfyddiadau'r grwpiau.

Yn achos yr uwchgynllun, dangoswyd y cynlluniau yn ôl rhanbarth, ac anogwyd y cyhoedd i anfon sylwadau drwy amrywiaeth eang o gyfryngau (papur, llafar, rhyngwyd). Ffurfiwyd grwpiau pwnc (yn cynnwys 17-20 o bobl bob un) i astudio a rhoi sylwadau ar y cynlluniau drafft; roedd rhai grwpiau yn cynnwys trigolion lleol, pobl ym myd busnes, newyddiadurwyr, pobl broffesiynol a chyrrff anllywodraethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhanddeiliaid â chymunedau lleol, a chafwyd deialog cyhoeddus â'r Gweinidog. Cyflwynwyd adroddiadau'r grwpiau pwnc i'r Gweinidog a rhoddwyd y newyddion diweddaraf i'r cyfranogwyr am yr adborth.

#### 6.11.2 Cyfatebolrwydd rhwng Polisiâu Cenedlaethol

Dechreuodd y broses o adolygu'r Cynllun Cysyniad ar gyfer Cynllun 2001 ym 1998. Er bod yr awdurdod cynllunio cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r cynllun cysyniad a'r uwchgynllun, yn gynyddol mae asiantaethau datblygu tir cyhoeddus eraill, e.e. yr awdurdod tai cyhoeddus, parciau, ffyrdd, datblygu diwydiannol ac ati, yn rhan o'r broses o baratoi'r cynlluniau. Estynnwyd gwahoddiad i'r awdurdodau hyn i bwyllgor llywio y cynllun cysyniad ac i gadeirio gweithgorau perthnasol a oedd yn astudio'r anghenion a oedd yn gysylltiedig â gwahanol ddulliau defnydd tir. Rhoddir pwyslais ar ymagwedd integredig, aml-asiantaeth.

Caiff pob agwedd ar ddatblygu trefol ei hintegreiddio drwy gyfrwng y Cynllun Cysyniad, sy'n rhoi fframwaith ar gyfer diogelu tir a datblygu seilwaith a defnydd tir. Caiff

asiantaethau datblygu tir eu cynrychioli ar bwyllgor yr uwchgynllun, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Cynllunio. Dyletswydd y pwyllgor yw sicrhau bod tir y wladwriaeth yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyfatebol ac yn y ffordd orau yn unol â strategaethau'r Cynllun Cysyniad. Rhydd hefyd fforwm ar gyfer datrys anghydfod ymysg asiantaethau cynllunio a gweithredu. Dengys hyn rôl gref y Prif Swyddog Cynllunio wrth gydgyssylltu'r gwaith o weithredu uchelgeisiau datblygu asiantaethau eraill.

Yn gryno, er gwaethaf etifeddiaeth cynllunio trefedigaethol Prydain, mae Singapore wedi diweddarau ei hymagwedd, ac mae bellach yn wahanol iawn i fodolau polisi cynllunio cenedlaethol y DU. Ceir, yn ei hanfod, gynllun cenedlaethol, ond nid yw'n debyg i gynlluniau cenedlaethol yr oes a fu – yn hytrach mae'n ddatganiad o weledigaeth arloesol a hirdymor sy'n addasu er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain, megis hunaniaeth. "*Mae a wnelo'r Cynllun Cysyniad â mwy nag adeiladu dinas effeithlon. Mae a wnelo hefyd ag adeiladu cartref i bobl Singapore.*"

## 6.12 Rhanbarth INTERREG Môr y Gogledd

Yn amlwg, ceir potensial mawr i ddefnyddio TG i gyrraedd dinasyddion, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn draddodiadol, megis pobl ifanc. Mae prosiect E Voice Rhanbarth Interreg IIIB Môr y Gogledd yn dangos sut y gellid gwneud hyn.<sup>84</sup>

***"Nod E-Voice yw cynyddu dylanwad a chyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau gwleidyddol drwy wella cyfathrebu a rhyngweithio rhwng dinasyddion a gwleidyddion yn ogystal â swyddogion cyhoeddus. Bydd yr awdurdodau cyhoeddus sy'n cymryd rhan hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth bwysig ar gael i ddinasyddion mewn ffordd fwy hygyrch a chyfeillgar i ddefnyddwyr."***

Aeth un partner yn y prosiect, sef Bremen, yr Almaen, sydd â phoblogaeth o 0.5 miliwn, ati mewn cydweithrediad â'r cyfryngau lleol a sianelau traddodiadol a TG eraill i ysgogi trafodaeth ar p'un a ddylid darparu pwll nofio cyhoeddus. Un o'r prif wersi a ddeilliodd o hyn oedd y dylid gofyn am farn dinasyddion drwy gyfrwng electronig fel rhan annatod o'r broses o:

- ddarparu gwybodaeth am sail reolaidd;
- annog pobl i fynegi barn drwy gyfrwng holiaduron electronig a gwefannau, a rheini weithiau heb eu strwythuro er mwyn gadael i bobl ifanc, er enghraifft, osod yr agenda mewn meysydd penodol; a
- rhoi adborth ar yr hyn sy'n digwydd o ganlyniad i'r sylwadau a ddaeth i law.

<sup>84</sup> <http://www.evoice-eu.net/>

Fel rhan o brosiect E Voice, aeth bwrdeistref Groningen, yr Iseldiroedd, ati i edrych p'un a ddylid defnyddio'r rhyngrwyd i gynnwys dinasyddion mewn ffordd fwy gweithgar mewn digwyddiadau sy'n berthnasol i'w hardal, eu cymdeithas a'u llywodraeth leol, a sut y dylid gwneud hyn. Cyhoeddwyd adroddiad yn amlinellu eu profiadau,<sup>85</sup> a dyma'r argymhellion a gafwyd:

***"Ceir nifer o enghreifftiau o ryngweithio llwyddiannus drwy gyfrwng y rhyngrwyd. Yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw bod ffactor cryf yn denu ymwelwyr i'r wefan a'r drafodaeth dan sylw, yn bennaf problem neu ddiddordeb a rennir. Mae gwefannau rhyngweithiol llwyddiannus fel arfer yn gwasanaethu grŵp targed penodol iawn wedi'u tynnu o gynulleidfa fyd-eang sy'n ymweld â'r wefan yn rheolaidd. Mae'r pynciau sydd o ddiddordeb o safbwynt rhyngweithio ar y cyd fel arfer wedi'u cyfyngu i ardal benodol (cymdogaeth, rhanbarth neu dref ar y mwyaf) ac maent wedi'u targedu at y gynulleidfa fwyaf bosibl. Mae pobl sy'n ymweld â bwrdeistrefi fel arfer yn gwneud hynny sawl gwaith mewn blwyddyn. Er mwyn sicrhau rhyngweithio llwyddiannus ar sail bwrdeistref drwy gyfrwng y rhyngrwyd, rhaid gwneud ymdrech ychwanegol i'w clymu at y wefan."***

## 6.13 Casgliadau Strategol

Wrth fynd ati i ystyried arferion o nifer o ranbarthau a gwledydd, rydym wedi ceisio nodi agweddau ar systemau neu brosesau a allai fod yn offerynnau defnyddiol i gefnogi rhai o'r argymhellion a wneir yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Mewn llawer o achosion, mae'n bosibl mai dim ond ysgogi syniadau fydd yr enghreifftiau a nodir, am nad yw eu cyd-destun yn arbennig o gydnaws â'r sefyllfa yng Nghymru, yn enwedig o safbwynt strwythurau llywodraethu a rôl a ffurf y polisi cynllunio.

Awn ati nesaf i amlygu'r pwyntiau allweddol sy'n berthnasol i'r sefyllfa yng Nghymru:

- Mewn nifer o achosion, caiff y broses draddodiadol o gynllunio defnydd tir ei hintegreiddio'n agosach â chynllunio gofodol, o safbwynt dyrannu adnoddau, nag sy'n digwydd yng Nghymru. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i alinio strategaethau cenedlaethol yn agosach o ran eu cymhwyso'n ofodol. Mae'r enghreifftiau o Iwerddon, yr Iseldiroedd, Singapore a Cholombia Prydeinig yn cyfleu hyn yn arbennig o dda.
- Rhydd y Swistir bwyslais mawr ar dynnu camau gweithredu a pholisïau cenedlaethol ynghyd. Mae'r Prif Swyddog Cynllunio yn Singapore yn chwarae rôl gref wrth gydlyn camau gweithredu gan asiantaethau eraill. Mae gan yr Iseldiroedd broses gadarn iawn

<sup>85</sup> <http://134.102.220.38/evoice/assets/includes/sendtext.cfm/aus.5/key.156>

o gydlynu polisiâu cenedlaethol, gan fod pob un yn destun trafodaeth ddwys, a hynny yn y Llywodraeth ac yn y maes yn ehangach, ac mae'n rhaid i'r holl weinidogaethau eu cymeradwyo cyn bod modd i'r Senedd eu cymeradwyo a'u hargymell, er bod hyn yn golygu ei bod yn broses hirfaith.

- Ar gyfer adolygiadau polisi sylweddol, mae digwyddiad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) / Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref (RTPI) sy'n cynnwys ystod o randdeiliaid, gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli sectorau'r gymuned, yn achos defnyddiol. Mae'r defnydd o TG i hwyluso'r digwyddiad hwn yn arbennig o adeiladol.
- Mae TG yn offeryn defnyddiol, yn enwedig fel ffordd ymarferol o gyflwyno gwybodaeth i grwpiau ehangach a sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod yr offerynnau a ddefnyddir wedi'u teilwra ac wedi'u hintegreiddio i grwpiau eraill. Mae prosiect 'E Voice Interreg' Môr y Gogledd yn cyflwyno syniadau diddorol ar ddefnyddio TG i gynnwys grwpiau cymunedol yn effeithiol. Rhydd Cynulliad Rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr (NWRA) esiampl o ddefnyddio TG ar gyfer grwpiau ymgynghori ehangach. Serch hyn, yn achos pob un o'r enghreifftiau hyn, erys y broblem o sut i ddangos i'r rheini nad ydynt yn gynllunwyr pa mor berthnasol yw'r polisi cynllunio cenedlaethol iddynt hwy.
- Canfuwyd bod defnyddio grwpiau ymbarel yn fecanwaith defnyddiol i gysylltu â chymunedau ehangach. Er enghraifft, aeth y NWRA ati i weithio gyda Chymorth Cynllunio yn Lloegr, a bu Gweithrediaeth yr Alban yn gweithio gyda Chymorth Cynllunio yr Alban.
- Gwelwyd bod defnyddio sesiynau briffio a gweithdai i helpu i feithrin dealltwriaeth o bolisi a chanllawiau newydd neu ddiwygiedig yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn Nhalaith Washington.
- Yn Iwerddon, mae'r is-adran gynllunio fach yn gweithio gyda nifer fawr o grwpiau, ac mae hyn yn rhoi baich trwm ar eu hadnoddau. Maent wedi canfod fod cyfnewid staff proffesiynol rhwng lefelau lleol a chenedlaethol wedi helpu i sicrhau eu bod yn fwy ymwybodol o faterion ac yn gallu ymateb iddynt yn gynt.

## 7.0 Casgliadau ac Argymhellion

---

### 7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran olaf hon yn nodi ein casgliadau a'n hargymhellion. Mae'n syntheseiddio prif ganfyddiadau adrannau blaenorol yr adroddiad. Trafodwyd argymhellion a chanfyddiadau drafft mewn digwyddiadau canfyddiadau interim<sup>86</sup> ac mae adborth a chanlyniadau'r digwyddiadau hyn a'r astudiaeth gymharu wedi'u bwydo i'r adroddiad hwn.

Rhydd yr Adran hon gasgliadau ac argymhellion er mwyn mynd i'r afael â chwe amcan briff y gwerthusiad, sef:

- 1 Gwerthuso'r prosesau / methodoleg bresennol a ddefnyddir i gynhyrchu polisi cynllunio a chyngor technegol.
- 2 Ystyried sut y caiff y broses o ddatblygu polisi cynllunio ei chynnal yn rhannau eraill y DU ac Ewrop, er mwyn cynnig dadansoddiad cymharol ac er mwyn nodi pa wersi y gellir eu dysgu yng Nghymru.
- 3 Cynghori ar gwmpas a lefel fanylder briodol ar gyfer y polisi cynllunio cenedlaethol a rhoi'r cyngor sydd ei angen i gefnogi system y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a phroses effeithlon o wneud penderfyniadau.
- 4 Gwneud argymhellion o safbwynt sut y dylid adolygu polisi a chyngor cynllunio yn y dyfodol, gan gynnwys sut i ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- 5 Ystyried y fformat ar gyfer cyflwyno polisi cynllunio yng Nghymru (yn nhermau ei strwythur a'r ffurf o'i gyflwyno) a gwneud argymhellion penodol am sut i'w gynnal a sicrhau ei bod yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf.
- 6 Asesu p'un a ddylai polisi cynllunio mwynau gael ei hintegreiddio â chyngor polisi cynllunio arall.

Mae'n dechrau drwy ystyried sut y caiff polisi cynllunio ei gynnal mewn mannau eraill yn y Du a thu hwnt (amcan 2). Mae'r adrannau eraill yn tynnu ar gasgliadau ac argymhellion er mwyn mynd i'r afael ag amcanion 1 a 3 - 6 uchod, gan gyfeirio at amcan cyffredinol yr astudiaeth wrth sefydlu arferion gorau wrth ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Nid yw'r argymhellion wedi'u cyflwyno mewn trefnu blaenoriaeth. Fodd bynnag, mae Tabl 7.1 yn crynhoi'r argymhellion ac yn eu rhoi yn eu trefn.

<sup>86</sup> Mynychodd ymgynghoreion allanol gyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Rhaeadr ar 9 Mai a chynhaliwyd digwyddiad y Cynulliad ar 10 Mai.



Wrth wneud argymhellion, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i annog effeithlonrwydd wrth wneud penderfyniadau ac o fewn cyfyngiadau presennol ar adnoddau.

## 7.2 Gwersi o fannau eraill

Gan dynnu ar drosolwg o systemau a fabwysiadwyd yn Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon, gallwn weld nifer o gymariaethau allweddol â Chymru:

- Mae Lloegr a'r Alban wedi parhau i ddefnyddio system o ddogfennau polisi unigol, a elwir yn 'Planning Policy Statements (PPSs)' a 'Scottish Planning Policy Statements (SPPs)' yn y drefn honno, yn hytrach na dogfen gyffredinol fel a geir yng Nghymru, sef y PCC;
- Ers datganoli, mae'r system gynllunio yn cael ei chydabod fwyfwy fel system gwbl ar wahân i'r system yn Lloegr. Drwy fabwysiadu'r PCC, mae Cymru wedi ffafrio fframwaith sy'n defnyddio un polisi trosfwaol ar gyfer cynllunio defnydd tir, wedi'i gefnogi gan gyfres o gyngor technegol, drwy gyfrwng TANs, ac mae'r seiliau hyn yn ei gosod ar wahân i Lloegr neu'r Alban;
- Mae Adolygiad Barker yn rhoi pwyslais mawr ar symleiddio'r system gynllunio, ac mae'n cwestiynu a yw'r system yng Nghymru yn llwyddo i wneud hynny, ac awgryma y gallai gyfyngu ar hyblygrwydd y llywodraeth i adolygu polisi;
- Mae gan bob un o'r tair system raglen ymchwil weithgar i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi, a chaiff y rhain eu gweld fel cyfran bwysig o'r holl fframweithiau;
- Ymddengys fod yr Alban yn ffafrio ymagwedd gynhwysol tuag at ddatblygu polisi cynllunio ar lefel leol ac mae wedi creu PAN penodol ar gyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol;
- Ceir gwahaniaethau mawr yn natur Cynllun Gofodol Cymru, a Strategaethau Gofodol Rhanbarthol Lloegr (RSS), a gaiff eu hintegreiddio yn y system gynllunio. Cânt eu gweld fel offerynnau gwahanol, ac nid oes modd eu cymharu;
- Yn Iwerddon, caiff polisi cynllunio cenedlaethol ei integreiddio'n agosach â'r Strategaeth Ofodol Genedlaethol (NSS) – sy'n cyfateb â Chynllun Gofodol Cymru – sy'n rhan o'r system gynllunio. Rhydd hyn hierarchaeth o gynlluniau i gefnogi'r broses o reoli datblygiadau ac i lywio polisiâu eraill sy'n ymwneud â chynllunio.

Mae ystyried arferion gwahanol ranbarthau a gwledydd wedi hwyluso'r gwaith o nodi agweddau ar systemau neu brosesau y gellid eu mabwysiadu fel offerynnau defnyddiol i gefnogi rhai o argymhellion yr adroddiad hwn. Awn ati nesaf i amlygu'r pwyntiau allweddol sy'n berthnasol i'r sefyllfa yng Nghymru:

- Mewn nifer o achosion, caiff y broses draddodiadol o gynllunio defnydd tir ei hintegreiddio'n agosach â chynllunio gofodol, o safbwynt dyrannu adnoddau, nag yng Nghymru. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i alinio strategaethau cenedlaethol yn agosach o ran eu cymhwysu'n ofodol. Mae'r enghreifftiau o Iwerddon, yr Iseldiroedd, Singapore a Cholombia Prydeinig yn cyfleu hyn yn arbennig o dda.
- Rhydd y Swistir bwyslais mawr ar dynnu camau gweithredu a pholisïau cenedlaethol ynghyd. Mae'r Prif Swyddog Cynllunio yn Singapore yn chwarae rôl gref wrth gydlyn camau gweithredu gan asiantaethau eraill. Mae gan yr Iseldiroedd broses gadarn iawn o gydlynu polisïau cenedlaethol, gan fod pob un yn destun trafodaeth ddwys, a hynny yn y Llywodraeth ac yn y maes yn ehangach, ac mae'n rhaid i'r holl weinidogaethau eu cymeradwyo cyn bod modd i'r Senedd eu cymeradwyo a'u hargymell, er bod hyn yn golygu ei bod yn broses hirfaith.
- Ar gyfer adolygiadau polisi sylweddol, mae digwyddiad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) / Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref (RTPI) sy'n cynnwys ystod o randdeiliaid, gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli sectorau'r gymuned, yn achos defnyddiol. Mae'r defnydd o TG i hwyluso'r digwyddiad hwn yn arbennig o adeiladol.
- Mae TG yn offeryn defnyddiol, yn enwedig fel ffordd ymarferol o gyflwyno gwybodaeth i grwpiau ehangach a sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod yr offerynnau a ddefnyddir wedi'u teilwra ac wedi'u hintegreiddio i grwpiau eraill. Mae prosiect 'Interreg E Voice' Môr y Gogledd yn cyflwyno syniadau diddorol ar ddefnyddio TG i gynnwys grwpiau cymunedol yn effeithiol. Rhydd Cynulliad Rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr (NWRA) esiampl o ddefnyddio TG ar gyfer grwpiau ymgynghori ehangach. Serch hyn, yn achos pob un o'r enghreifftiau hyn, erys y broblem o sut i ddangos i'r rheini nad ydynt yn gynllunwyr pa mor berthnasol yw'r polisi cynllunio cenedlaethol iddynt hwy.
- Canfuwyd bod defnyddio grwpiau ymbarel yn fecanwaith defnyddiol i gysylltu â chymunedau ehangach. Er enghraifft, aeth y NWRA ati i weithio gyda Chymorth Cynllunio yn Lloegr, a bu Gweithrediaeth yr Alban yn gweithio gyda Chymorth Cynllunio yr Alban.
- Gwelwyd bod defnyddio sesiynau briffio a gweithdai i helpu i feithrin dealltwriaeth o bolisi a chanllawiau newydd neu ddiwygiedig yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn Nhalaith Washington.
- Yn Iwerddon, mae'r is-adran gynllunio fach yn gweithio gyda nifer fawr o grwpiau, ac mae hyn yn rhoi baich trwm ar eu hadnoddau. Maent wedi canfod fod cyfnewid staff proffesiynol rhwng lefelau lleol a chenedlaethol wedi helpu i sicrhau eu bod yn fwy ymwybodol o faterion ac yn gallu ymateb iddynt yn gynt.

### 7.3 Prosesau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Yn yr adran hon, rydym yn mynd i'r afael ag amcan 1 y briff, sef gwerthuso'r prosesau a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru i ddatblygu canllawiau a pholisi cynllunio defnydd tir cenedlaethol, ac amcan 4, sef cyfres o argymhellion sy'n ymwneud â chynnal adolygiadau yn y dyfodol, er mwyn mynd i'r afael â'n casgliadau o dan amcan 1.

#### Cyfathrebu

Mae'r ymwybyddiaeth o adolygiadau a diweddariadau ar eu cynnydd yn gymharol isel ymysg y gymuned gynllunio ehangach. Byddai rhanddeiliaid allanol yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r flaenraglen, a byddai hyn yn eu helpu i baratoi ar gyfer adolygiadau'r dyfodol.

Yn gyffredinol, mae angen gwella cyfathrebu drwy gydol proses y polisi, yn amrywio o wybodaeth am adolygiadau sydd ar ddod, eu cynnydd a pha bryd y mae'n debygol y caiff ymgynghoriadau eu cyhoeddi. Mae'r blaenrybudd hwn yn bwysig wrth annog a galluogi ystod o rhanddeiliaid i ymgysylltu, gan gynnwys hyrwyddo buddiannau ehangach nad ydynt yn ymwneud â chynllunio. Hefyd, mae angen cael gwybodaeth sy'n cefnogi'r ddealltwriaeth o ganllawiau a pholisi newydd a diwygiedig.

#### Argymhelliad 1: Gwella cyfathrebu

Byddai cyhoeddi cynllun o adolygiadau ymlaen llaw yn galluogi sefydliadau allanol i baratoi ac ymgysylltu yn fwy effeithiol yn y broses. Byddai mabwysiadu Deddfwriaeth Sylfaenol ac Is-ddeddfwriaeth yn goresgyn y broblem o ddiffyg ymwybyddiaeth am ba agweddau sydd wedi'u mabwysiadu, yn enwedig o safbwynt yr amserlen yn Lloegr.

Byddai blaenrybuddio Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn enwedig, am yr hyn sy'n ofynnol ohonynt o ganlyniad i ganllawiau neu bolisi a fabwysiadir, er enghraifft astudiaethau sydd eu hangen ar lefel leol, yn eu helpu i gyllidebu ar eu cyfer.

Gellid defnyddio nifer o fecanweithiau i wella cyfathrebu am broses y polisi, gan gynnwys y canlynol:

Gellid adfywio **cylchlythyr chwarterol** WPRP a'i ymestyn i gynnwys gwybodaeth am y broses polisi gyfan. Dylai gynnig gwybodaeth am weithgareddau ymchwil, yn ogystal ag amserlenni adolygiadau sydd ar ddod, a'u cynnydd. Er na fyddai'r union ddyddiadau ar gael bob amser, byddai'n gallu cynnig gwybodaeth am gynnydd cyffredinol y gweithgareddau.

Dylid sefydlu **gwasanaeth rhybudd e-bost** syml i ddiweddarau cyfranogwyr cofrestredig am ddiwyddiadau a chynnydd. Byddai hyn, yn arbennig, yn helpu'r rheini nad ydynt yn siwr a yw ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi neu a yw dogfen benodol wedi'i chyhoeddi, neu wedi'i dargyfeirio o fewn y sefydliad.

Mae angen ystyried cynnwys grwpiau cymunedol ehangach, ond dylid gwneud hyn drwy ddull sy'n effeithlon o safbwynt adnoddau a'i reoli mewn ffordd nad yw'n codi disgwyliadau na ellir eu diwallu.

Dylid parhau i **gyfathrebu â grwpiau ymbarel a grwpiau cynrychioliadol** er mwyn meithrin perthynas â chymunedau ehangach o bobl broffesiynol a'r rheini nad ydynt yn gynllunwyr. Mae'r rhain yn cynnwys RTPI Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru, RICS, CGGC, CBI ac ati.

Ceir diffyg hyder wrth wybod pa bolisi a deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sydd ar gael, ac ymhle i ddod o hyd i ddogfennau. Nodwyd bod Mynegai Cynllunio Cymru yn ddogfen ddefnyddiol. Fodd bynnag, ni chaiff ei diweddarau'n rheolaidd ac nid yw'n cynnwys Deddfwriaeth Sylfaenol nag Is-ddeddfwriaeth.

### **Argymhelliad 2: Rhestr o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a pholisi a chanllawiau presenool, a honno wedi'i diweddarau'n rheolaidd**

Dylai Mynegai Cynllunio Cymru gael ei ddiweddarau yn chwarterol o leiaf a dylai fod ar gael mewn safle amlwg ar dudalennau gwe yr Is-adran Gynllunio. Dylai'r Mynegai gynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth hefyd.

### **Argymhelliad 3: Briffio Digwyddiadau i Hybu Dealltwriaeth o Bolisi a Chanllawiau**

Dylid lledaenu ac egluro polisi a chanllawiau i'r gymuned gynllunio ehangach drwy gyfrwng digwyddiadau. Dylid eu cynnal cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i bolisi newydd neu ddiwygiedig gael ei gyhoeddi. Gellir cynnal y rhain fel digwyddiadau undydd ledled Cymru neu weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis RTPI Cymru.

Byddai rhoi cyflwyniadau mewn digwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau eraill megis y sector busnes neu'r sector gwirfoddol yn helpu i egluro polisi cynllunio defnydd tir i'r gymuned ehangach ac i godi ymwybyddiaeth o oblygiadau polisi cenedlaethol, i hyrwyddo cyfranogiad a fyddai yn ei dro yn cynnig safbwyntiau gwerthfawr i'r broses.

### **Fforwm Cynllunio Cymru**

Mae Fforwm Cynllunio Cymru a'i is-grwpiau wedi darparu mecanwaith defnyddiol ar gyfer datblygu cysylltiadau gwaith rhwng yr Is-adran Gynllunio a rhanddeiliaid allanol, er y gellid ei addasu i wella'r deialog a datblygu ei rôl ymhellach.

### **Argymhelliad 4: Diwygio Fforwm Cynllunio Cymru**

Mae hyn yn ymwneud â chynnwys grŵp cynrychioliadol yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun ymlaen llaw, drwy ddatblygu rôl Fforwm Cynllunio Cymru. Byddai hyn yn helpu i ddatblygu ethos o ymgysylltu ehangach ar lefel strategol Cymru-gyfan. Wrth dynnu cydrannau'r cylch polisi ynghyd, byddau'n fuddiol uno'r Fforwm â Phanel Defnyddwyr WPRP, am fod y ddau yn rhannu'r un aelodaeth. Byddai is-grwpiau yn adlewyrchu cylch y polisi yn cael eu ffurfio

e.e. gweithredu ac adolygu, ymchwil (mae'n bosibl y gellid defnyddio Panel Defnyddwyr WPRP ar gyfer hyn) a datblygu polisi / canllawiau (a fyddai'n cynnwys y TAGs), ac eraill yn ôl y gofyn.

Mae'n hanfodol bod y Fforwm yn darparu grŵp strategol, a all edrych ar y 'darlun mawr'. Fodd bynnag, mae'n hanfodol hefyd bod y grŵp yn cael ei gyfyngu i faint y gellir ei reoli, gydag uchafswm o 18 o aelodau. Byddai angen i aelodau'r Fforwm fod yn gynrychioliadol o'u 'cymunedau' a chynnwys yr holl faterion a meysydd sy'n berthnasol i Gymru e.e. gwledig a threfol; dylid gofyn hefyd eu bod yn rhoi adborth i'w cymunedau perthnasol.

### **Cysylltiadau â'r Cylch Polisi**

Mae'n hanfodol sicrhau sail dystiolaeth gadarn ar gyfer yr holl waith o ddatblygu polisi a darparu canllawiau technegol a byddai defnyddio'r WPRP yn effeithiol yn hwyluso hyn, yn yr un modd â chydweithio â sefydliadau sy'n seiliedig yng Nghymru ac ag asiantaethau cenedlaethol eraill megis y DCLG neu Weithrediaeth yr Alban.

### **Argymhelliad 5: Datblygu cysylltiadau agosach â'r holl agweddau ar y cylch polisi**

Mae angen nodi'r anghenion o ran ymchwil cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn ei gwneud yn bosibl i gamu ymlaen â'r broses o ddatblygu polisi yn gyflym.

Mae gwaith ymchwil yn hanfodol, fodd bynnag, mae angen sicrhau ei fod yn fwy perthnasol i'r broses adolygu polisi. Teimlwyd hefyd y dylid edrych ar ffyrdd o rannu adnoddau er mwyn ariannu gwaith ymchwil perthnasol, er enghraifft mewn cydweithrediad â'r DCLG. Caiff argymhellion manylach o safbwynt gweithgareddau ymchwil eu hystyried ar wahân yn Adolygiad Pum Mlynedd a Gwerthusiad Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru, 2006. Argymhellwn gamu ymlaen â'r adolygiad o'r WRPR i gefnogi hyn.

### **Y Broses Ddrafftio**

Byddai'n ddefnyddiol casglu safbwyntiau cyn y broses ddrafftio er mwyn codi materion y gellid eu hystyried wrth ddrafftio. Gallai hyn ystyried sut y mae polisi a chanllawiau presennol wedi gweithio a nodi unrhyw ddiffygion wrth eu rhoi ar waith. Gallai seinfyrddau sy'n ymgysylltu â'r gymuned ehangach fod yn fecanwaith defnyddiol yn hyn o beth. Trafodwyd nifer o enghreifftiau o'r rhain yn Adran 6, gan gynnwys y rheini a ddefnyddir gan y DCLG a RTPI a NWRA.

### **Argymhelliad 6: Casglu Sylwadau Cyn Drafftio**

Byddai'n ddefnyddiol casglu safbwyntiau'r gymuned ehangach cyn y broses ddrafftio er mwyn codi materion y gellid eu hystyried wrth ddrafftio. Gallai hyn ystyried sut y mae polisi a chanllawiau presennol wedi gweithio a nodi unrhyw ddiffygion wrth eu rhoi ar waith. Gallai seinfyrddau sy'n ymgysylltu â'r gymuned ehangach fod yn fecanwaith defnyddiol yn hyn o beth. Rhoddir enghreifftiau o'r rhain yn Adran 6, gan gynnwys digwyddiad DCLG/RTPI ac enghreifftiau rhithwir megis yn achos y NWRA.

Mae'n hanfodol cynnwys rhanddeiliaid yn effeithiol yn y broses ddrafftio. Nodwyd nifer o faterion sy'n effeithio ar weithrediad y grwpiau rhanddeiliaid ac a all ddylanwadu ar allu unigolion i gymryd rhan. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- ▶ Cyfyngiadau amser a gallu unigolion a sefydliadau;
- ▶ Grwpiau o faint optimwn;
- ▶ Defnyddio cyfranogwyr yn effeithiol;
- ▶ Rolau clir a dealladwy i aelodau; a
- ▶ Chynnwys y bobl fwyaf priodol.

Mae'r TAGs yn grwpiau defnyddiol ar gyfer datblygu TANs a dylid eu cynnal, er bod angen adolygu eu trefniadau gweithredol a'u haelodaeth yn unol â'r ffactorau uchod.

### **Argymhelliad 7: Cynnwys Rhanddeiliaid yn y Broses Ddrafftio**

Dylid parhau i ddefnyddio TAGs i ddrafftio TANs. Dylid ystyried y gofynion canlynol:

- Dylid ystyried cyfyngiadau ar amser a gallu'r unigolion a'r sefydliadau i chwarae rhan, gan drefnu cyn lleied o gyfarfodydd ag sy'n bosibl; lle bo hynny'n bosibl, dylid annog aelodau i gadw cysylltiad yn ystod y cyfnodau interim drwy ddosbarthu papurau drafft;
- Os yw'n anodd i gyfranogwyr fynychu cyfarfodydd e.e. oherwydd daearyddiaeth, dylid mecanweithiau eraill i hwyluso cyfranogiad e.e. gohebiaeth;
- Dylai'r grwpiau gynnwys uchafswm o 10 i 12 aelod;
- Dylid egluro rolau'r aelodau yn glir. Lle bydd aelodau TAG yn rhan o'r gwaith o ddrafftio adrannau penodol, dylai'r Is-adran Gynllunio sicrhau eu bod yn cadw rheolaeth olygyddol ar y testun a gaiff ei ddefnyddio yn y pen draw; a
- Mae'n bwysig sicrhau bod yr aelodau priodol yn cael eu recriwtio i'r grwpiau yn y lle cyntaf. Er ei bod yn annog i'r Cynulliad 'bennu' pwy ddylai ymaelodi â'r grwpiau, yn enwedig wrth wneud cais am aelodau drwy sefydliad ffurfiol, dylid darparu manylebn y person, yn nodi pa wybodaeth a phrofiad o'r maes perthnasol sydd ei angen. Yn achos cyfranogiad gan Awdurdodau Cynllunio Lleol, awgrymir bod hyn yn cael ei wneud drwy gyfrwng POSW, a fyddai'n rhoi mynediad at ymarferwyr yn y maes, yn hytrach na gorfod dibynnu ar uwch-gynrychiolwyr yn y meysydd technegol hyn. Mae'r enghreifftiau o Loegr a'r NWRA a drafodir yn Adran 6 yn cynnig syniadau defnyddiol o safbwynt recriwtio aelodau.

Byddai'n ddefnyddiol, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, i TAGs gyfarfod ddwy flynedd ar ôl i'w TAN perthnasol gael ei gyhoeddi, i ystyried y broses o'i roi ar waith ac i ystyried a oes angen ei adolygu yn y dyfodol.

## Ymgynghoriad

Roedd yn amlwg bod angen mwy o ryngweithio o safbwynt yr ymarferion ymgynghori. Mae defnydd o gwestiynau ar gyfer llywio ymatebion ymgynghori yn ddefnyddiol, er bod llawer yn teimlo eu bod yn cyfyngu, ac nid oeddent yn siwr sut oedd y Cynulliad yn defnyddio ymatebion a roddir y tu allan i'r cwestiynau. Codwyd mater pwysig arall, sef diffyg adborth ar ymatebion ymgynghori a sut y cant eu defnyddio. Mae'r rhain oll yn ffactorau pwysig wrth barhau â'r deialog ac wrth feithrin perthynas effeithiol â rhanddeiliaid.

Mae rhai grwpiau yn canfod bod y cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd angen cyflwyno gwybodaeth i bwyllgorau neu fyrddau rheoli a grwpiau ymbarel er mwyn iddynt raeadr'u wybodaeth honno i aelodau. Fodd bynnag, ceir amharoddrwydd i ymestyn y cyfnod hwn, am y byddai hynny'n ymestyn proses sydd eisoes yn broses hir.

### **Argymhelliad 8: Ymgysylltu drwy'r Broses Ymgynghori**

Mae'r broses ymgynghori yn rhan bwysig o'r cylch polisi; rhydd gyfle o bartïon allanol godi materion nad oedd i'w gweld yn ystod y cam datblygu. Drwy roi gwybodaeth am gefndir yr ymgynghoriad, a'r rhesymeg dros ei gynnwys, gellir annog pobl i ymddiried yn y polisi neu'r canllawiau terfynol, gan hwyluso'r gwaith o weithredu'r polisi ac annog eraill i'w fabwysiadu.

Disgrifir y dulliau TG a ddefnyddiwyd yn ystod y broses ymgynghori yn astudiaeth y NWRA yn Adran 6.

Mae hyn yn cysylltu'n agos ag Argymhelliad 1, o safbwynt cyfathrebu ar ddatblygu polisi. Byddai **blaenrybuddio** am ymgynghoriadau sydd ar ddod yn ei gwneud yn bosibl i sefydliadau baratoi i ymateb, yn enwedig yn nhermau ei gynnwys ar eu hagendâu a pharatoi gwybodaeth ar gyfer rhaeadru'r manylion i'w haelodau. Mae hyn yn bwysig o safbwynt ymgysylltu â grwpiau ehangach drwy gyfrwng sefydliadau ymbarel, ac iddyn nhw gael ymgysylltu â'u haelodau hwy.

Dylid **defnyddio cwestiynau yn ystod ymgynghoriadau** er mwyn helpu i ysgogi ymatebion a rheoli ymatebion. Fodd bynnag, dylent fod yn gwestiynau cytbwys er mwyn osgoi rhagfarn ac arwain yn anfwriadol at ffocysu ar agweddau penodol yn unig. Dylid egluro hefyd y byddai ymatebion y tu hwnt i'r cwestiynau yn cael eu hystyried.

Byddai'n ddefnyddiol cynnal **digwyddiadau i egluro cefndir a rhesymeg drafftiau** ar gyfer ymgynghori er mwyn sicrhau bod yr ymatebion yn rhai deallus a'u bod yn canolbwyntio ar faterion y gall y polisi neu'r canllawiau fynd i'r afael â hwy, h.y. ystyriaethau cynllunio. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn cyfrannu at y broses addysgol gyffredinol a'r broses o feithrin dealltwriaeth am gynllunio defnydd tir.

Mae'n bwysig **rhoi adborth ar ymatebion** yr ymgynghoriadau er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid yn dal i ymgysylltu â'r broses. Ni fyddai angen ymatebion unigol; yn hytrach,

gellir casglu'r sylwadau tebyg ynghyd, a chynnig ymateb yn egluro sut yr ystyriwyd y pwynt hwn. Dylid sicrhau bod adroddiad ar gael ar y wefan, yn nodi'r ymatebion i'r sylwadau hyn.

### **Adnoddau Staff**

Bu rhai achosion lle cafodd adnoddau staff eu dargyfeirio, neu eu lleihau, o brosesau adolygu sydd eisoes ar y gweill; mae hyn wedi achosi oedi yn y broses adolygu. Drwy ddechrau'r broses adolygu, caiff disgwyliadau allanol eu codi a gall fod yn niweidiol i gysylltiadau cyrff allanol, os na chant eu bodloni.

### **Argymhelliad 9: Cynyddu Adnoddau Staff**

Er bod ein hargymhellion wedi ceisio bod yn geidwadol o ran mynnu adnoddau gan yr Is-adran Gynllunio, mae'n amlwg bod angen mwy o staff ar yr Is-adran. Byddai cynyddu'r adnoddau staff yn galluogi cyfranogiad ehangach ac yn hyrwyddo mwy o gynhwysedd, a fyddai ynddi'i hun yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r system gynllunio yng Nghymru.

Mae'r Is-adran Gynllunio wrthi'n recriwtio ar hyn o bryd, fodd bynnag, byddwn yn argymhell monitro'r lefelau staff o safbwynt yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

Lle bo'r adnoddau yn gyfyngedig yn yr Is-adran Gynllunio, dylid defnyddio ymgynghorwyr i gefnogi a hwyluso'r broses adolygu, megis wrth brawf ddarllen neu ddadansoddi ymatebion gan ymgynghoreion. Byddai hyn yn golygu bod staff yr Is-adran Gynllunio yn rhydd i wneud gwaith arall.

### **Cysylltu â Pholisïau Cenedlaethol Eraill**

#### **Argymhelliad 10: Alinio Polisiâu Cenedlaethol Eraill â Chynllunio Defnydd Tir**

Ceir materion sy'n ymwneud ag alinio polisiâu'r Cynulliad. Er bod y Porth i Bolisiâu yn sicrhau aliniad i ryw raddau, mae angen cyfathrebu parhaus pellach o safbwynt polisiâu sy'n ymwneud â defnydd tir. Cydnabuwyd, serch hyn, bod y sefyllfa'n gwella.

Mae angen atgyfnerthu'r berthynas rhwng polisi cynllunio defnydd tir â pholisiâu defnydd tir eraill a'u diffinio'n gliriach. Er bod yna gamau gweithredu eisoes i egluro perthynas Cynllun Gofodol Cymru a pholisi cynllunio defnydd tir, mae angen atgyfnerthu hon ar bob cyfle. Mae dwy elfen i hyn; yn gyntaf, mae angen i'r wybodaeth am yr amrywiol bolisiâu ddarparu **datganiadau clir am eu rôlau perthnasol** a sut y maent yn cydweddu â pholisiâu eraill.

Yn ail, mae angen i'r broses sicrhau **cyfathrebu mewnol** wrth ddatblygu polisi drwy drafodaethau mewnol manwl. Dylai polisiâu cenedlaethol, sydd â goblygiadau o ran defnydd tir, e.e. tai a datblygu economaidd, gael eu gwirio yn erbyn polisi defnydd tie cenedlaethol er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwrth-ddweud ei gilydd. Byddai sefydlu mecanwaith mewnol sy'n hwyluso cyfathrebu ar bolisiâu defnydd tir a pholisiâu eraill sydd â goblygiadau o safbwynt defnydd tir yn ffordd o sicrhau bod polisiâu cenedlaethol yn



cydweddu. Byddai enghreifftiau o'r Iseldiroedd ac Iwerddon o safbwynt trafodaethau o fewn y llywodraeth yn dysgu gwersi defnyddiol.

## **Cyflwyno Canllawiau a Pholisi Newydd**

### **Argymhelliad 11: Fframwaith ar gyfer rheoli'r broses o gyflwyno canllawiau a pholisïau newydd i Gynlluniau Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg**

Dylid sefydlu fframwaith / amserlen ar gyfer cyflwyno canllawiau a pholisi sydd ar ddod i CDLIau arfaethedig, er mwyn rheoli unrhyw newidiadau i'r polisi neu'r canllawiau. Y ffordd fwyf synhwyrol o wneud hyn fyddai drwy gyfrwng cyfarfodydd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol, i drafod newidiadau arfaethedig i'r fframwaith polisi cenedlaethol a dod i gytundebau ymarferol ar y berthynas rhwng CDLI â pholisi a chanllawiau sydd ar ddod.

## **7.4 Cwmpas a Manylion Polisi a Chanllawiau**

Mae a wnelo hyn ag amcan 3 y briff. Yma, cyflwynir casgliadau a chyfres o argymhellion am gwmpas a lefel fanylder y cyngor a'r polisi cynllunio cenedlaethol:

Ceir cefnogaeth gyffredinol i fframwaith y TAN a'r PCC, a dylid dal gafael arno. Ni cheir unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y dylid ailfeddwl y fframwaith a ddefnyddir yng Nghymru yn gyfan gwbl. Mae'r ddogfennau wedi'u targedu at y gynulleidfa darged briodol, ac mae eu hieithwedd yn briodol. Mae'r PCC yn ddogfen gadarn, sy'n cynnig un ddogfen polisi cenedlaethol ystyrion. Fodd bynnag, nid yw fformat y PCC yn ei gwneud yn hawdd i'w diweddarau. Mae angen newid y fformat cyhoeddi er mwyn hwyluso diweddariadau.

Fodd bynnag, ceir rhywfaint o ddryswch am rôl y TANs o safbwynt cynnwys polisi yn erbyn cynnwys technegol. Pe bai fformat haws ei addasu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer PCC, dylai unrhyw adolygiadau o gyngor technegol hefyd adolygu polisïau perthnasol ac felly ni fyddai angen cynnwys polisi yn y TANs bellach.

Yn gyffredinol, mae'r polisi cenedlaethol yn cefnogi proses y CDLI. Fodd bynnag, mae diffiniadau gofodol mewn canllawiau cenedlaethol wedi achosi problemau i Awdurdodau Cynllunio Lleol a rhanddeiliaid eraill am ddau reswm, sef yn gyntaf mae'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno wedi arwain at wallau ac yn ail, nid yw'r rhesymeg dros yr angen am y persbectif gofodol bob amser wedi'i ddeall na'i gyfiawnhau. Lle caiff diffiniadau gofodol eu cynnwys o fewn canllawiau cenedlaethol, mae angen i'r sail dystiolaeth fod yn briodol er mwyn osgoi camgymeriadau, ac mae angen nodi rhesymeg y persbectif gofodol yn glir, a'i gyfiawnhau

### **Argymhelliad 12: Diffiniadau Gofodol mewn Polisi Cynllunio Cenedlaethol**

Rhaid i unrhyw elfennau gofodol yn y canllawiau a'r polisi cenedlaethol gael eu cyfiawnhau a dim ond os ydynt yn fater o ffaith y dylid eu cynnwys, h.y. o ganlyniad i dopograffi, oherwydd dim ond drwy'r broses CDLI y ceir cyfle i'r cyhoedd ei herio. Rhaid i unrhyw

waith ymchwil a ddefnyddir i gadarnhau'r elfennau gofodol fod yn gadarn ac yn gywir. Os yw'r pwnc dan sylw yn sensitif, argymhellir ei fod yn destun adolygiad gan gydweithwyr er mwyn meithrin hyder yn y gwaith ymchwil; gellir ymgorffori hyn i'r broses ymchwilio. Byddai Argymhelliad 4 hefyd yn cyfrannu at y mater hwn.

### **Argymhelliad 13: Adolygu Polisi a Chanllawiau yn Rheolaidd**

Mae angen sicrhau bod polisi a chanllawiau yn cael eu diweddarau, a sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu yn unol â hyn er mwyn gofalu nad yw meysydd penodol yn cael dyddio gormod. Nid oes yn rhaid i adolygiadau arwain o reidrwydd at newid y cynnwys os teimlir ei fod yn parhau'n gyfoes ac yn berthnasol.

### **Argymhelliad 14: Llunio Dogfennau Arferion Gorau**

Byddai croeso i fwy o ddogfennau arferion gorau mewn meysydd pwnc penodol, megis canllaw dylunio. Lle bo hynny'n ymarferol, dylai'r canllawiau hyn fod yn gyffredin ledled Cymru, er mwyn goresgyn y dryswch yn sgil y gwahanol ganllawiau manwl a geir ar gyfer gwahanol ardaloedd. Byddai modd datblygu'r rhain fel rhan o'r WPRP.

### **Argymhelliad 15: Egluro Statws y Polisi Drafft**

Mae angen sicrhau bod statws y canllawiau a'r polisi drafft yn glir o safbwynt ystyriaethau materol. Os yw canllawiau neu bolisi drafft yn cynnwys elfennau sy'n hanfodol bwysig ac nad yw'n debygol y byddant yn newid ar ôl ymgynghori a bod cyfiawnhad dilys am hynny, dylid cynnwys datganiad gyda'r ddogfen ddrafft sy'n nodi hyn yn glir, gan egluro ei rôl fel ystyriaeth faterol. Oni bai am hyn, dylid lleihau statws y polisi drafft, gan ei bod yn debygol y bydd yn newid neu'n cael ei ddileu. Byddai hyn yn helpu i greu mwy o sicrwydd yn y broses gynllunio.

## **7.5 Fformat a Diweddarau**

Mae amcan 5 briff y gwerthusiad yn ymwneud â'r fformat ar gyfer cyflwyno polisi a chanllawiau, ac rydym wedi mynd i'r afael â hyn isod. Rydym hefyd wedi ystyried materion sy'n ymwneud â chael mynediad at y ddogfen.

Er bod PCC a'r TANs yn cynnig ymagwedd boblogaidd at bolisi cynllunio defnydd tir yng Nghymru, mae wedi bod yn anodd sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn ddiweddar, ac yn gydlynol. Mae defnyddio MIPPS wedi bod yn ffordd ymarferol o sicrhau bod y PCC Yn aros yn gyfoes, ond mae'n cymhlethu'r fframwaith. Canfuwyd hefyd wrth wahanu polisi a chanllawiau rhwng y PCC a'r TANs fod y llinell yn aneglur; mae hyn yn bennaf oherwydd bod y TANs wedi'u diweddarau ers cyhoeddi PCC. Mae angen dulliau haws o ddiweddarau'r PCC er mwyn goresgyn y broblem hon.

### **Argymhelliad 16: Cadw fframwaith cyfredol y PCC a'r TANs**

Argymhellwn gadw system gyfredol y PCC fel fframwaith polisi cynllunio trosfwaol Cymru, wedi'i gefnogi gan TANs sy'n cynnig cyngor a chanllawiau technegol.

### **Argymhelliad 17: Strwythur cyffredin i TANs a MTANs**

Dylid pennu strwythur cyffredin ar gyfer TANs a MTANs, gydag adran ragarweiniol glir yn nodi cefndir y ddogfen a'i chwmpas. Dylai gael ei dargedu at y defnyddiwr cyffredinol gan osgoi jargon technegol – ei ddiben yw galluogi pobl leyg neu'r rheini nad ydynt yn weithiwr proffesiynol ym maes cynllunio i ddeall diben a chwmpas y ddogfen.

### **Argymhelliad 18: Fformat Dalennau Rhydd ar gyfer y Copi Caled**

Mae'n bwysig cael copi caled o'r ddogfen er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr. Fodd bynnag, er mwyn goresgyn yr anawsterau sy'n codi yn sgil sicrhau bod y PCC yn gyfoes, argymhellwn ddefnyddio fersiwn dalen rydd o'r ddogfen, yn yr un modd â'r 'Planning Encyclopaedia', lle caiff tudalennau eu dyddio a'u cyfeirio ac mae mynegai cysylltiedig yn nodi'r fersiynau diweddaraf. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws diweddarau'r PCC, yn arbennig ar gyfer themâu trawsbynciol.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r broses, argymhellwn fod yr adrannau perthnasol yn cael ei hailgraffu a'u dosbarthu yn flynyddol. Dylai'r Is-adran Gynllunio gadw'r dyddiad blynyddol hwn mewn cof, ac amseru adolygiadau yn unol â'r dyddiad hwn lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, byddai'r fersiwn electronig ar y wefan yn cael ei diweddarau, a byddai'r dyddiadau diweddarau yn cael eu nodi'n glir arni.

Wrth ddefnyddio'r fformat hwn, ni fyddai angen bellach am MIPPS hirdymor. Er bod y rhain yn cynnig dull defnyddiol o ddiweddarau fformat presennol y PCC, maent yn wendid o safbwynt cydlyniad a'r gallu i olrhain polisi presennol.

### **Argymhelliad 19: Fersiynau Electronig**

Dylai'r holl ddogfennau fod ar gael ar y wefan yn electronig a hynny ar fformat Word a PDF.

Dylid creu archif ar y wefan er mwyn cadw fersiynau hŷn o'r polisi a'r canllawiau.

### **Argymhelliad 20: Cynnwys y Ddogfen**

Dylid nodi dyddiadau yn glir ar bob dogfen, gan gynnwys ymchwil, canllawiau a chyngor technegol a pholisi. Dylid eu cyflwyno mewn Saesneg / Cymraeg clir, gan osgoi jargon technegol, er mwyn egluro diben y polisi / canllawiau.

Dylid rhoi cyflwyniad ar ddechrau dogfennau allweddol ac ar y wefan, yn egluro gwahanol gydrannau'r fframwaith cynllunio cenedlaethol a sut y mae'r rhain yn perthyn i CDLIau a pholisi cenedlaethol arall, yn arbennig Cynllun Gofodol Cymru.

### **Argymhelliad 21: Gwella'r Wefan**

Mae angen gwella gwefan y Cynulliad; mae tudalennau'r Is-adran Gynllunio yn gymharol addas at eu diben, o ystyried y strwythur cyffredinol. Mae'r chwilotwr yn broblem benodol wrth geisio dod o hyd i ddogfennau. Er bod dolen o'r hafan Llywodraeth Cynulliad Cymru i dudalennau'r Is-adran Gynllunio, mae pori drwy'r wefan yn anodd iawn. Mae'r dryswch yn

dwysau oherwydd diffyg dealltwriaeth am y rhaniad rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae gan y naill a'r llall wefan ar wahân.

Dylid creu dolenni o dudalennau'r Is-adran Gynllunio ar wefan y Cynulliad i adrannau perthnasol eraill y wefan, e.e. o TAN 21: Gwastraff i dudalennau'r Cynulliad ar *Yn Gall am Wastraff*<sup>87</sup>.

### **Argymhelliad 22: Adrannau rhagarweiniol i feithrin dealltwriaeth o'r polisi cynllunio**

Byddai'n ddefnyddiol rhoi cyflwyniadau cryno ar dudalennau'r Is-adran Gynllunio, yn egluro gwahanol rannau'r polisi cynllunio a rôl a diben pob dogfen. Byddai hyn yn helpu'r rheini nad ydynt yn gynllunwyr i ddeall y broses yn well.

## **7.6 Integreiddio Polisi Cynllunio Defnydd Tir a Pholisi Mwynau**

Amcan olaf y briff oedd ystyried p'un a ddylid integreiddio polisi mwynau cenedlaethol â pholisi cynllunio cenedlaethol arall. Ceir nifer o feysydd arbenigol sy'n dod o dan cynllunio defnydd tir, megis adwerthu, trafndiaeth ac ati, ac mae angen i bolisi mwynau hefyd ystyried materion ehangach sy'n ymwneud â pholisi megis yr amgylchedd a thrafnidiaeth. Rydym yn dod i'r casgliad felly y byddai plisiau cynllunio defnydd tir, sy'n cynnwys mwynau yn ogystal â meysydd eraill, yn cydweddu'n dda o ran eu hintegreiddio yn agosach. Mae angen swyddogion arbenigol ym maes mwynau, a dylai'r rhain gadw eu ffocws presennol.

### **Argymhelliad 23: Integreiddio cynllunio mwynau â chynllunio defnydd tir eraill**

Rydym yn argymhell integreiddio polisi cynllunio defnydd tir a pholisi cynllunio mwynau yn agosach. Dylai adolygiad nesaf y PCC gynnwys PCMC, a dylid cynnwys MTANs fel rhan o TANs, gan ddilyn strwythur tebyg, yn hytrach na chael eu rhestru ar wahân.

Byddai uno'r rhain yn cefnogi'r argymhellion a wnaed yn sgil Adolygiad Pum Mlynedd yr WPRP yn 2006, sef y dylid rheoli cyllidebau ymchwil cynllunio mwynau a chynllunio defnydd tir yn ganolog ac ni ddylai'r WPRO cyffredinol gael ei wahanu.

## **7.7 Crynodeb o'r Argymhellion**

Mae'r gwerthusiad hwn o'r prosesau a ddefnyddir i ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru yn esgor ar dair prif neges.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y broses yn effeithiol drwy gydol y cylch polisi. Mae llawer o'r argymhellion a wnaed yn mynnu mwy o adnoddau staff, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â chyfathrebu ac ymgysylltu. Byddai'r rhain yn eu

<sup>87</sup> Yn Gall am Wastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

tro yn cefnogi'r broses polisi, gan ychwanegu gwerth at yr hyn y gall ei gyflawni. Cynigiwn fod hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy gynyddu maint yr Is-adran Gynllunio. Gellid cyflawni hyn hefyd drwy gydweithio â sefydliadau a rhwydweithiau priodol, megis RTPI Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru a grwpiau ymbarel eraill. Gallai hyn gynnwys lledaenu gwybodaeth a gweithgareddau a digwyddiadau ar y cyd. Mae'n bosibl y byddai rhoi gwasanaethau allan ar gytundeb hefyd yn effeithlon o ran adnoddau ac yn gost-effeithlon.

Yn ail, byddai gwella cyfathrebu drwy gydol y broses yn helpu i ymgysylltu â'r gymuned gynllunio ac yn helpu i hyrwyddo ymagwedd gynhwysol gyda'r rheini nad ydynt yn gynllunwyr. Dylid cyfathrebu ar amserlen y polisi yn ogystal â hyrwyddo dealltwriaeth o resymeg a diben y canllawiau a'r polisi drafft a phresennol. Mae hyn hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o lywio cylch y polisi a chyfrannu at y gwaith o ddrafftio'r polisi a'r canllawiau.

Yn olaf, mae'n bwysig bod y broses yn gofalu bod strategaethau a pholisïau cenedlaethol yn alinio o safbwynt cynllunio defnydd tir. At hyn, byddai'n ddefnyddiol gwella'r mecanweithiau cyfathrebu mewnol. Drwy alinio polisïau cenedlaethol, byddai mwy o sicrwydd a negeseuon cliriach ar gyfer y rheini sy'n defnyddio'r polisïau, gan gynnwys buddsoddwyr.

Mae Tabl 7.1 yn rhoi crynodeb o'r argymhellion. Mae hefyd yn eu blaenoriaethau o ran eu pwysigrwydd i'r gilydd. Y rheini sydd â blaenoriaeth 'Uchel' yw'r materion pwysicaf ac a fyddai'n cael yr effaith fwyaf; mae 'Canolog' yn berthnasol i'r rheini sydd hefyd yn ddymunol a byddent yn cefnogi'r rheini â blaenoriaeth 'Uchel'; yn olaf, mae'r rhai 'Isel' yn ddymunol, ond nid ydynt yn hanfodol a byddai eu heffaith yn llai.

Rydym hefyd wedi awgrymu amserlenni: gellir rhoi rhai ar waith yn eithaf cyflym; gellir gweithredu eraill ar sail barhaus, er enghraifft os a phan gaiff polisi neu ganllawiau eu hadolygu, a phan fo cyfleoedd am hynny.

**Tabl 7.1 Crynodeb o Argymhellion**

Argymhelliad	Gradd	Amserlen
1 Gwella Cyfathrebu Cylchlythyr Chwarterol Gwasanaeth hysbysu drwy'r e-bost Cyfathrebu â grwpiau ymbarel	Canolog Canolog Uchel	Canolog Canolog Byr
2 Rhestr o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth bresennol, polisi a chanllawiau, a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd	Canolog	Byr
3 Digwyddiadau briffio i Hyrwyddo Dealltwriaeth o Bolisi a Chanllawiau	Canolog	Canolog
4 Diwygio Fforwm Cynllunio Cymru	Canolog	Canolog
5 Datblygu cysylltiadau agosach rhwng yr holl agweddau ar y cylch polisi	Canolog	Byr
6 Casglu Safbwyntiau cyn Ymgynghori	Canolog	Canolog
7 Cynnwys Rhanddeiliaid yn y broses Ddrafftio	Uchel	Parhaus
8 Ymgysylltu drwy'r Broses Ymgynghori Blaenrybuddio Defnyddio cwestiynau Digwyddiadau i egluro cefndir	Uchel Uchel Isel	Parhaus Parhaus Long
9 Cynyddu Adnoddau Staff	Uchel	Byr
10 Alinio Polisiâu Cenedlaethol â Chynllunio Defnydd Tir	Uchel / Canolog	Parhaus
11 Fframwaith ar gyfer cyflwyno canllawiau a pholisi newydd i'r CDLI sy'n dod i'r amlwg	Canolog	Parhaus
12 Diffiniadau Gofodol mewn polisi cynllunio cenedlaethol	Canolog	Parhaus
13 Adolygiad Diweddar o Bolisi a Chanllawiau	Canolog	Canolog
14 Cynhyrchu Dogfennau Arferion Gorau	Isel	Canolog
15 Egluro Statws Polisi Drafft	Canolog	Canolog
16 Cadw fframwaith cyfredol y PCC a TANs	Uchel	Byr
17 Strwythur cyffredin ar gyfer TANs ac MTANs	Isel	Parhaus
18 Copi Caled o Fformat Dalen Rydd	Uchel	Canolog
19 Fersiynau Electronig	Uchel	Parhaus
20 Cynnwys y Ddogfen	Uchel	Parhaus
21 Gwella'r Wefan	Canolog	Parhaus
22 Cyflwyniadau i hyrwyddo dealltwriaeth	Canolog	Parhaus
23 Integreiddio cynllunio mwynau a defnydd tir	Isel	PCC nesaf

# **Atodiad Un: Astudiaethau Achos Polisi a Chanllawiau**

## Astudiaeth Achos 1 – Polisi Cynllunio Cymru

### Disgrifiad a Chefndir

PCC yw prif ddogfen polisi cynllunio defnydd tir y Cynulliad, a gyhoeddwyd yn 2002 i ddisodli'r nodiadau PPG a chyhoeddiadau Canllaw Cynllunio Cymru a oedd gynt yn ganolog i'r broses o gynllunio yng Nghymru. Dechruodd y broses o ddrafftio PCC ar ôl ffurfio Fforwm Cynllunio Cymru ddiwedd 1999. Sefydlwyd y Fforwm er mwyn ysgogi'r gwaith o greu system gynllunio benodol ar gyfer Cymru. Crëwyd PCC i ddiweddarau'r canllawiau presennol a oedd yn seiliedig yn gyfan gwbl, bron, ar bolisïau a ddatblygwyd ar gyfer Lloegr. Yn ei hanfon, hon oedd un o'r dogfennau strategol cyntaf i'r Cynulliad ei llunio ar ôl datganoli, ac un o'r cyntaf i ystyried datblygu cynaliadwy fel rhan greiddiol o'i chynnwys.

Y PCC, wedi'i gefnogi gan TANs a Chylchlythyrau, yw polisi cynllunio cenedlaethol Cymru, ac felly mae ganddo rôl wrth gyflwyno cynllunio ar lefel weithredol. Mae cynllunio defnydd tir yn ganolog i ddyletswydd y Cynulliad o fodloni amcanion datblygu cynaliadwy y Cynulliad, felly datblygwyd PCC gyda'r bwriad o gynnig polisïau cadarn sy'n ymgysylltu â'r drafodaeth ar ddatblygu cynaliadwy. Mae PCC yn cynnwys:<sup>88</sup>

- Negeseuon strategol ar gynaliadwyedd, hawliau dynol, cyfle cyfartal, a chynwys y gymuned yn y broses gynllunio;
- Canllawiau ar yr elfen ofodol newydd ar gynllunio, yn enwedig y ffocws cynyddol ar Ewrop;
- Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phatrymau setliad cynaliadwy, dylunio cynaliadwy, ac ail-ddefnyddio safleoedd tir llwyd;
- Darparu canllawiau ar faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth;
- Polisïau ar ddatblygu gwledig a materion gwledig, yn enwedig o safbwynt yr economi wledig;
- Canllawiau ar hygyrchedd a hyrwyddo dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth;
- Pwyslais ar yr angen am ddylunio da a datblygiadau defnydd cymysg; a
- Cadw polisïau a sefydlwyd ers amser hir, yn enwedig y rheini a oedd wedi'u targedu at gyfyngu ar ddatblygiadau tai newydd yng nghefn gwlad.

Credir bod y ddogfen wedi dal prawf amser, gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cymeradwyo'r ddogfen ar y cyfan, yn enwedig ei fframwaith a'i strwythur. Mae sail dystiolaeth y PCC yn gadarn ac nid yw wedi dyddio ar y cyfan, er bod cwestiynau'n codi erbyn hyn o ran y ffordd orau o integreiddio'r gwaith ymchwil a wnaed gan yr WPRP ar y polisi cynllunio cenedlaethol a sut i addasu polisi'r Cynulliad yn y dyfodol ar gyfer y PCC,

<sup>88</sup> Porth i Gynllunio <http://www.planningportal.gov.uk/wales/professionals/en/1105619050450.html>



yn bennaf yr agenda newid yn yr hinsawdd, sy'n thema drawsbynciol ar draws rhan helaeth o gynnwys y PCC a allai gael effaith sylweddol ar gynllunio yng Nghymru.

Caiff PCC ei ddiweddarau drwy gyfrwng MIPPS, ac mae hefyd wedi'i ddiweddarau gan Ganllaw Ategol er mwyn alinio'r ddogfen â diwygiadau a wnaed i hwyluso'r broses CDLI. Mae'r rhaglen PdW yn pennu'r amodau ar gyfer diwygio polisi cynllunio yng Nghymru, gyda'r nod o wneud y system gynllunio yng Nghymru yn fwy effeithlon a chan gynnwys themâu trawsbynciol y Cynulliad o fewn yr holl ddiwygiadau polisi yn y dyfodol.

### **Y Broses Ymgynghori a Drafftio**

Yn y lle cyntaf, drafftiwyd y PCC ar sail canlyniadau cyfarfodydd Fforwm Cynllunio Cymru a'i is-grwpiau. Roedd y Fforwm yn gynhwysol ac yn cynnwys partïon perthnasol â diddordeb o ledled y broses ddatblygu, gan sicrhau bod pob agwedd yn cael ei chynrychioli, a chan arwain yn ei drïo at gyhoeddi dogfen a gafodd croeso gwresog gan ei defnyddwyr allweddol ar y cyfan. Rôl yr is-grwpiau a oedd yn deillio o'r Fforwm oedd cyfrannu at y broses ddrafftio a datblygu, gan helpu'r Is-adran Gynllunio ag amryw agweddau ar ddatblygu'r PCC. Er hyn, roedd allbwn yr amryw grwpiau yn amrywio, gyda rhai ohonynt yn gwneud dim mwy nad ail-greu polisïau o Loegr.

Defnyddiwyd mwyafrif helaeth o adnoddau'r Is-adran Gynllunio yn ystod y broses o ymgynghori a drafftio'r PCC dros ddwy flynedd. Cafodd ymgynghorwyr allanol o ARUP eu cynnwys tuag at ddiwedd y cyfnod drafftio. Mynd i'r afael â'r cyfnod ar ôl yr ymgynghori oedd eu rôl hwy, pan ddiwygiwyd y PCC, ac roedd angen sicrhau bod y ddogfen yn gydlynol a bod pob pennod yn ymlynu at yr un fformat ac arddull.

Roedd y PCC hefyd wedi defnyddio gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn arbennig yng Nghymru i fwydo i'r broses o ddatblygu'r ddogfen, ac roedd y Cynulliad wedi blaenoriaethau cyllid i ariannu'r gwaith hwn<sup>89</sup>. Er enghraifft, cafodd canfyddiadau ymchwil o astudiaeth *Arallgyfeirio Ffermydd a'r System Gynllunio*,<sup>90</sup> eu bwydo i'r broses o ddatblygu'r polisïau gwledig ac amaethyddol yn PCC. Defnyddiwyd gwaith ymchwil arall nad oedd yn canolbwyntio'n benodol ar Gymru yn ogystal, serch hyn roedd y prosiect hwn yn un o'r enghreifftiau cyntaf o sut y gellir defnyddio gwaith ymchwil yn seiliedig yng Nghymru ar gyfer datblygu polisi.

Cyhoeddwyd y PCC ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan ddefnyddio copïau post, a thrwy gyfrwng dolen ar dudalennau'r Is-adran Gynllunio ar wefan y Cynulliad. Anfonwyd 450 o gopïau at amrwy randdeiliaid a daeth 143 o ymatebion i law. Ni ddefnyddiwyd cwestiynau fel rhan o'r ymgynghoriad, fel y defnyddiwyd mewn dogfennau eraill (er mwyn casglu ynghyd ymatebion i faterion penodol o flaenoriaeth uchel); fodd bynnag, gofynnwyd i ymatebwyr ymateb i baragraffau a phenodau penodol. Aeth staff yr Is-adran

<sup>89</sup> ECOTEC, Adolygiad Pum Mlynedd o Raglen Ymchwil Gynllunio Cymru, 2006

<sup>90</sup> Arallgyfeirio Ffermydd a'r System Gynllunio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2001

Gynllunio ati i ddadansoddi'r ymatebion hyn drwy gyfrwng templedi a dull dadansoddol cyffredin er mwyn creu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y gellid eu cymharu.

### **Dulliau Lledaenu**

Cyhoeddir y PCC ar ffurf dogfen ddwyieithog, yn cynnwys 154 o dudalennau yn y naill iaith a'r llall (308 o dudalennau i gyd). Mae ar gael hefyd ar wefan y Cynulliad yn Gymraeg ac yn Saesneg ar fformat PDF.

## Astudiaeth Achos 2 – Polisi Cynllunio Mwynau Cymru

### Disgrifiad a Chefnidir

Cyhoeddwyd PCMC am y tro cyntaf yn 2000 gan nodi'r polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer echdynnu mwynau a datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r polisi yn cynnwys mwynau a gaiff eu hechdynnu ar yr arwyneb neu danddaear, ond nid yw'n cynnwys mwynau a gaiff eu hechdynnu yn y môr nad mewn ardaloedd morydol. Dyma nodau allweddol PCMC:

- *Darparu adnoddau mwynol i ddiwallu anghenion y gymdeithas ac i ddiogelu'r adnoddau rhag cael eu sterileiddio;*
- *Diogelu ardaloedd o bwysigrwydd i'r dreftadaeth naturiol neu adeiledig;*
- *Cyfyngu ar effaith amgylcheddol yn sgil echdynnu mwynau;*
- *Cyflawni adfer o safon uchel ac ôl-ddefnydd buddiol; ac*
- *Annog defnydd priodol ac effeithlon o fwynau ac aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau addas.*

*Ffynhonnell: PCMC (2000)*

### Y Broses Ymgynghori a Drafftio

Roedd y broses o ddrafftio'r PCMC wedi dechrau yn ffurfiol ym 1999. Ymgynghorwyd arno a'i gwblhau yn gyflym, a chafodd ei gyhoeddi yn 2000, gyda'r cyfnod drafftio wedi para dim mwy nag wyth mis. Ni ddefnyddiwyd unrhyw grŵp allanol wrth ddatblygu PCMC, gan nad oedd y polisïau ffurfiol ar gynhwysiant wrth ddatblygu polisïau eto wedi'u cwblhau. Yr hyn a ysgogodd y ddogfen oedd datganiadau awdurdodau lleol y dylid cael dogfen bolisi droswaol benodol ar gyfer mwynau, ac arweiniodd hyn at gyfnod ymgynghori a drafftio cyflym. Ni wnaed unrhyw waith ymchwil ffurfiol wrth ddatblygu'r PCMC, ac eithrio prosiect mewnol ar raddfa fach na chafodd ei gyhoeddi, yn edrych ar Barthau Clustogi o amgylch safleoedd echdynnu mwynau. Roedd swyddogion mwynau Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi helpu i lunio paragraffau penodol o'r ddogfen, a bu'r swyddogion hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Is-adran Gynllunio ar fwynau penodol ar sail ad-hoc.

Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad yn cynnwys ystod eang o unigolion a sefydliadau a dargedwyd oherwydd eu gwybodaeth arbenigol am fwynau, o gwmnïau mwynau a chwarelu yn y sector preifat i swyddogion mwynau'r sector cyhoeddus. Cynhaliwyd seminar yn Llandrindod gyda chynrychiolwyr o ryw 80 o bartïon â diddordeb i drafod cynnwys y drafft. Cafwyd sylwadau ar faterion dadleuol megis glo a diogelu lefelau tywod a graean. Roedd glo yn destun dadlau mawr gan nifer o'r rheini a oedd wedi mynychu, a chodwyd pryderon am y ffaith na roddwyd unrhyw bwyslais arbennig ar lo, er gwaethaf ei rôl hanfodol yn Ne Cymru. Arweiniodd y ddadl hon at

ddatblygu draft o MTAN 2: Glo,<sup>91</sup> i roi canllawiau penodol ar faterion cynllunio sy'n ymwneud â glo; er nad yw hwn wedi'i gyhoeddi hyd yma.

Yn gyffredinol, datblygwyd y PCMC mewn ffordd gymharol ddiraffferth, ac ychydig iawn o broblemau a gafwyd yn ystod y broses. Mae'n bosibl bod hyn yn deillio o'r ffaith fod y cyfnod drafftio yn fyr a hefyd gan mai tîm bach o staff o'r Is-adran Gynllunio a oedd yn rhan o'r broses ddirafftio. Efallai y gwelir y diffyg cynhwysiant hwn fel gwendid, fodd bynnag yn yr achos hwn, ymddengys fod y polisi wedi'i gyflwyno o fewn yr amserlen angenrheidiol ac mae ei gynnwys wedi'i gymeradwyo gan y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr.

Caiff y PCMC ei ategu gan MTANs, sydd wrthi'n cael eu datblygu i ddisodli'r dogfennau MPG presennol a luniwyd cyn datganoli a chyn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru. Mae MTANs yn cael eu datblygu i alinio polisi cynllunio mwynau â'r ffordd y mae polisi cynllunio defnydd tir yn cael ei ddarparu yng Nghymru. MTAN 1: Agregau<sup>92</sup> yw'r unig nodyn yn y gyfres sydd wedi'i fabwysiadu hyd yma. Mae'r Cynulliad wrthi'n comisiynu gwaith ymchwil i ddatblgu cyfres bellach yn unol â'r TANS a ddatblygwyd i ategu'r PCC. Mae MTAN 2: Glo yn enghraifft o MTAN a ddatblygwyd hyd at lefel ymgynghori, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym mis Ionawr 2006 â'r nod o ddisodli ystod o MPGs cysylltiedig sydd ar hyn o bryd yn ffurfio polisi cynllunio mwynau ar gyfer y sector penodol hwn.

Yn nhermau'r angen i ddiwygio a datblygu polisi, nid yw'r Cynulliad yn ystyried y PCMC fel blaenoriaeth. Mae'r polisiâu allweddol wedi aros yn berthnasol, er gwaetha'r ffaith mai PCMC oedd un o'r dogfennau polisi cynllunio cenedlaethol cyntaf i gael ei llunio gan y Cynulliad. Mae rhai problemau wedi codi o safbwynt sut mae wedi'i eirio mewn manau, ond ar y cyfan, mae'r ddogfen yn parhau i gynnig y lefel o wybodaeth sydd ei hangen ar Awdurdodau Cynllunio Lleol er mwyn cyflwyno polisi mwynau ar lefel leol. Dylid chwilio am gyfleoedd o adolygu a datblygu'r PCMC yn y dyfodol, gyda'r posibilrwydd o uno'r PCC a'r PCMC yn un ddogfen.

### **Dulliau Lledaenu**

Cyhoeddir y PCMC ar ffurf dogfen ddwyieithog, 36 o dudalennau o hyd. Mae ar gael hefyd ar wefan y Cynulliad yn Gymraeg ac yn Saesneg ar fformat PDF. Cafodd y ddogfen ei rhoi ar y rhestr fer ar gyfer gwobrau RTP1 2000, oherwydd ei natur arloesol wrth sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr holl bolisiâu a oedd ynddi.

<sup>91</sup> Drafft o MTAN 2: Glo, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006

<sup>92</sup> MTAN 1: Agregau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

### **Astudiaeth Achos 3 – Canllaw Ategol y PCC Disgrifiad a Chefndir**

Datblygwyd Canllaw Ategol y PCC<sup>93</sup> i gynnig canllawiau ar ddefnyddio'r PCC yng ngoleuni'r system CDLI newydd, yn dilyn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)<sup>94</sup>. Nod y Canllaw Ategol oedd cefnogi CDLI Cymru<sup>95</sup> a'r datblygiadau a'r diwygiadau dilynol ar y ddogfen PCC bresennol, a gyhoeddwyd pan oedd y system CDU yn ei lle o hyd.

Dyluniwyd y ddogfen er mwyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill ei defnyddio, ac i'w darllen ochr yn ochr â'r PCC er mwyn egluro'r broses o weithredu'r system CDLI newydd cymaint ag sy'n bosibl. Mae'r Canllaw Ategol yn nodi diweddariadau i'r system gynllunio yn ystod y cyfnod ar ôl cyhoeddi'r PCC yn 2002, gan gynnwys gwybodaeth am yr amrywiol MIPPS a gyhoeddwyd. Cyflwynwyd y Canllaw Ategol yn hytrach nag ail-lunio'r PCC, a bwriedir iddo fod yn ateb dros dro er mwyn sicrhau bod y PCC yn aros yn berthnasol yng ngoleuni newidiadau i'r broses cynllunio datblygu yng Nghymru.

Mae'r ddogfen yn dilyn yr un strwythur â'r PCC, o safbwynt ei phenodau ac ati, er mwyn hwyluso cymariaethau rhwng y ddwy ddogfen. Defnyddir tablau i ddangos sut y dylid cynnwys materion sy'n ymwneud â lleoliadau a phynciau i'r CDLlau. Pwysleisiwyd y ffaith nad oedd yr holl faterion a oedd yn berthnasol i'r CDUau yn berthnasol o dan y system newydd, neu nad eir i'r afael â hwy i'r un raddau. Mae'r ddogfen wedi dosbarthu pum math o ddatganiadau polisi cenedlaethol, sef y rheini sy'n:

- Cynnwys polisi rheoli datblygu cenedlaethol;
- Llywio'r broses o baratoi cynlluniau;
- Mynnu mynegiant gofodol ar lefel leol;
- Mynnu mynegiant gofodol ar lefel leol a pholisi i gefnogi hyn;
- Cael eu hadlewyrchu mewn polisi lleol sy'n seiliedig ar bynciau penodol.

Ar wahân i'r pum categori eang hyn, ceir hefyd adrannau o'r PCC sy'n ddatganiadau ffeithiol, yn sylwadau cyffredinol ar y system gynllunio, yn ddatganiadau ar sut y dylai polisi gael ei gysylltu â strategaethau eraill, ac yn ddatganiadau sy'n llywio'r broses rheoli datblygu.

Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi croesawu'r ddogfen, yn enwedig o safbwynt fformat a'r ffordd y mae'r diwygiadau wedi'u trefnu. Mae'r unig feirniadaeth neu faterion cynhennus wedi canolbwyntio ar leihau'r polisïau manwl a oedd yn berthnasol i faterion megis yr amgylchedd hanesyddol, a oedd yn peri pryder penodol i CADW.

<sup>93</sup> Canllaw Ategol Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006

<sup>94</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) OPSI, 2004

<sup>95</sup> CDLI Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

## **Y Broses Ddrafftio ac Ymgynghori**

Yn wahanol i PCC, PCMC, TANS a MTANS, mae'r ddogfen hon yn ganllaw ar sut i gyflwyno polisiau cenedlaethol eraill, yn enwedig o ran sut y dylid dehongli PCC mewn perthynas â'r system CDLI newydd. O ganlyniad, nid oedd y ddogfen hon yn destun yr un gofyniad am ymgynghoriad cyhoeddus â'r dogfennau canllaw a pholisi cynllunio eraill a drafodwyd.

Drafftiiwyd y Canllaw Ategol gan ddefnyddio ymgynghorwyr allanol o ARUP, sef yr un cwmni ymgynghori a gynorthwyodd yn y broses o ddatblygu a golygu'r ddogfen PCC wreiddiol. Gwnaed hyn am eu bod yn gyfarwydd â'r ddogfen, er mwyn cyflymu'r broses o'i drafftio, a'i heffeithlonrwydd. Roedd hyn yn golygu bod y broses o ddrafftio'r ddogfen benodol hon wedi'i chwblhau o fewn pedwar mis er mwyn sicrhau eu bod ar gael i Awdurdodau Cynllunio Lleol cyn gynted ag a oedd yn bosibl.

## **Dulliau Lledaenu**

Mae Canllaw Ategol y PCC yn ddogfen 50 o dudalennau o hyd, ac mae ar gael ar wefan yr Is-adran Gynllunio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bwriedir iddo gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r PCC. Mae canllawiau penodol ar ddatblygu CDLlau hefyd ar gael fel dogfen ar wahân<sup>96</sup>. Roedd y Canllaw Ategol hefyd yn destun dau ddigwyddiad lledaenu (yng Nghaerdydd ac yng Nghonwy) lle cafodd y ddogfen ei hyrwyddo i Awdurdodau Cynllunio Lleol ochr yn ochr â digwyddiadau i egluro'r broses CDLI newydd.

<sup>96</sup> Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006



hwy yn ystod y broses o ddiwygio TAN 1 a 2. Roedd adroddiad y Pwyllgor EPC wedi llywio fformat y TAN ac wedi ysgogi'r broses o ddatblygu'r MIPPS a'r ddau TAN ar y cyd.

Penderfynwyd hefyd gydweithio ag Adran Tai y Cynulliad, a oedd wrthi'n datblygu eu polisiau a'u hofferynnau eu hunain. Aethpwyd â'r gwaith rhagddo ar y cyd felly.

Defnyddiwyd gwaith ymchwil a wnaed fel rhan o'r WPRP i lywio rhan o'r broses ddrafftio, yn yr achos hwn, defnyddiwyd gwaith ymchwil *Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Cynllunio Defnydd Tir*<sup>100</sup> ar gyfer adrannau o'r TAN.

Defnyddiwyd TAG at ddibenion drafftio'r ddogfen hon, fel fforwm i drafod datblygiad gwahanol adrannau, gyda grŵp dethol o randdeiliaid yn cyfrannu ato. Roedd y TAG yn cynnwys cyfuniad o gynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus a phreifat, gydag aelodau'r awdurdodau lleol wedi'u cyrchu drwy CLILC, a anfonodd wahoddiadau at staff perthnasol mewn awdurdodau lleol a allai helpu'r broses ddrafftio. At hyn, dewisiodd CLILC ddau awdurdod lleol trefol ac un awdurdod tai lleol i ymaelodi â'r TAG.

Aethpwyd ati i ddrafftio a ffurfioli'r TAN drwy gyfrwng y TAG, ac nid oedd staff yr Is-adran Gynllunio wedi cymryd rheolaeth lawn o'r ddogfen hyd nes y camau diwethaf o'r broses ddrafftio. Dechreuodd y TAG gyfarfod yng nghanol 2004 cyn i'r broses ddrafftio ffurfiol gychwyn, er mwyn pennu amserlen ar gyfer cyflwyno ac i gytuno ar y prif faterion i'w trafod.

Ymgynghorwyd ar TAN 1 a 2 gyda'i gilydd ac roeddent yn destun ymgynghoriad ysgrifenedig tebyg i'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer y TANs blaenorol, gydag ymgynghoriad ysgrifenedig yn cael ei anfon at restr ddethol o bartïon â diddordeb, yn gysylltiedig â rhestr gyffredinol o awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig. Roedd yr ymgynghoriad wedi para rhwng 11 Gorffennaf a 28 Hydref 2005. Daeth 56 o ymatebion i law, oddi wrth ymatebwyr o bob cefndir a oedd yn gysylltiedig â'r pwnc dan sylw (gweler Tabl A 4:1).

### **Dulliau Lledaenu**

Mae TAN 2 ar gael ar-lein ar dudalennau gwe yr Is-adran Gynllunio, ac ar ffurf copi caled yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gan fod y TAN yn trafod pwnc sensitif yn wleidyddol, cynhaliwyd sesiynau briffio'r wasg a sesiynau briffio technegol i'r wasg, ynghyd â'r Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy<sup>101</sup>, gan olygu bod y broses ledaenu wedi'i chynnal ar draws dwy o Adrannau'r Cynulliad, gan amlygu natur gydweithredol y broses o ddatblygu'r ddau TAN sy'n ymwneud â thai. Ystyriwyd bod y gwaith trawsbynciol hwn yn un o gryfderau'r broses o ddatblygu'r dogfennau hyn, am ei bod wedi'i gwneud yn bosibl i ddatblygu nifer o ddogfennau polisi gan ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth Is-adran Gynllunio ac Is-adran Tai y Cynulliad. Roedd y lansiad hefyd yn gyfle i gyflwyno pecyn o gyngor a chanllawiau cysylltiedig.

<sup>100</sup> Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Cynllunio Defnydd Tir, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

<sup>101</sup> Y Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2006



## Astudiaeth Achos - TAN 2 – Cynllunio a Thai Fforddiadwy

### Disgrifiad a Chefndir

Mae TAN 2 yn rhoi canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar faterion sy'n ymwneud â thai fforddiadwy, sy'n cynnwys " *tai lle mae yna drefniadau diogel er mwyn sicrhau eu bod o fewn cyrraedd i'r rheini sydd heb fod yn gallu fforddio tai ar y farchnad agored, gan gynnwys pobl sy'n eu meddiannu gyntaf a'r bobl sy'n dod ar eu hôl.*"<sup>102</sup> Mae tai fforddiadwy yn cynnwys rhentu tai cymdeithasol a thai canolradd<sup>103</sup>.

Mae'r TAN yn rhoi canllawiau ar y diffiniadau y mae angen eu cynnwys yn y CDLlau sy'n ymwneud â thai fforddiadwy, a chyingor i awdurdodau cynllunio lleol ar sut i bennu fforddiadwyedd. Mae TAN 2 hefyd yn amlinellu " *rôl sydd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac amodau a rhwymedigaethau cynllunio i'w chwarae o safbwynt sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu drwy'r system gynllunio*". Yn ôl TAN 2, mae'r ddogfen yn mynnu bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn:

- Cynnwys targed ar gyfer tai fforddiadwy yn y cynllun datblygu sy'n seiliedig ar yr angen tai a nodir yn yr asesiad o'r farchnad dai leol;
- Dangos sut y bwriedir cyrraedd y targed drwy ddefnyddio polisiau a nodwyd;
- Monitro faint o dai fforddiadwy a ddarperir o'u cymharu â'r targed (drwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar Fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol<sup>104</sup>), a lle bo angen, cymryd camau i sicrhau bod y targed hwnnw'n cael ei gyrraedd.

*Ffynhonnell: TAN 2, 2006*

### Y Broses Ddrafftio ac Ymgynghori

Ym mis Mehefin 2004<sup>105</sup> ffurfiwyd TAG â chyfrifoldeb dros gynghori'r gwaith o adolygu'r TAN penodol hwn. Roedd y rhaglen PdW wedi gwneud cais am y diweddariad hwn. Gofynnwyd i'r TAG, sy'n cynnwys ystod o randdeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol ddarparu cyfred o opsiynau a dangosyddion ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol i dynnu arnynt wrth lunio eu polisiau cynllunio datblygu lleol ar gyfer tai fforddiadwy<sup>106</sup>. Cafodd cyfarfodydd y TAG a'r argymhellion a'r polisiau y cytunwyd arnynt eu cyhoeddi fel rhan o'r diweddariad o TAN 2, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym mis Gorffennaf 2005, ac a ddaeth i ben ym mis Hydref 2005. Roedd angen i'r broses ddiwygio hon ystyried ystod o ddogfennau a datblygiadau polisi pwysig a ddigwyddodd yn

<sup>102</sup> TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2006

<sup>103</sup> Tai a ddarperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yw tai rhent cymdeithasol. Tai canolradd yw lle bo rhent neu brisiau yn uwch na rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu rhent y farchnad dai. (TAN 2, 2006)

<sup>104</sup> Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) a baratowyd ar gyfer pob CDLI gydag adolygiadau llawn bob pedair blynedd.

<sup>105</sup> Er eu bod wedi'u cynnal ar y cyd, sefydlwyd TAGs ar wahân ar gyfer Tan 1 a TAN 2.

<sup>106</sup> Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2004

[http://new.wales.gov.uk/legacy\\_en/organicabinet/content/statements/2004/090304-epcreport-e.doc](http://new.wales.gov.uk/legacy_en/organicabinet/content/statements/2004/090304-epcreport-e.doc)

ystod y cyfnod ar ôl cyhoeddi TAN 2 am y tro cyntaf yn 1996. Roedd hyn yn cynnwys:  
107&108

- Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r agweddau ar gynllunio sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad (Chwefror 2004)<sup>109</sup> ac ymateb y Cynulliad;
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;
- Y system CDLI yng Nghymru;
- Adolygiad Barker o'r Cyflenwad Tai ar gyfer Llywodraeth y DU<sup>110</sup>; a
- Pobl, Lleodedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru.

Ynghyd â'r datblygiadau polisi hyn, roedd yr adolygiad o TAN 2 yn ystyried gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan ODPM (sydd ar yr achlysur hwn yn berthnasol i Gymru hefyd) oedd â'r nod o gynhyrchu asesiadau o'r farchnad dai leol ar gyfer awdurdodau lleol. Ar gyfer yr ymarfer hwn, roedd aelodau Cyfarwyddiaeth Tai ac Is-adran Gynllunio y Cynulliad yn aelod o grŵp llywio'r DU.

Lansiwyd yr ymgynghoriad hwn ym mis Gorffennaf a daeth i ben ym mis Hydref 2005, ac fe'i hanfonwyd at 200 o unigolion a sefydliadau perthnasol i gael sylwadau, a daeth 56 o ymatebion i law. Roedd y ddogfen ymgynghori hon yn mynd i'r afael â TAN 1 a TAN 2, ynghyd â MIPPS ar Dai a dwy ddogfen offerynnau o'r Gyfarwyddiaeth Tai. Mae Tabl A4:1 isod yn nodi'r amryw sectorau lle'r oedd yr ymatebion hyn yn deillio, gyda'r mwyafrif yn deillio o Awdurdodau Lleol a chyrrff proffesiynol.

**Tabl A4:1 Ymatebwyr i'r ymgynghoriad**

Categori	Nifer yr Ymatebwyr	% yr Ymatebwyr
Busnesau Ymgynghorwyd Cynllunio	9	16
Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Parciau cenedlaethol)	24	43
Asiantaethau'r Llywodraeth/Sector Cyhoeddus arall	5	9
Cyrrff Proffesiynol/Grwpiau Diddordeb	14	25
Eraill	4	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>56</b>	<b>100</b>

Mae'r rheini a ymatebodd i ddrafft yr ymgynghoriad wedi'u rhestru dros y dudalen. Daeth y mwyafrif o ymatebion i law oddi wrth yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn ôl y disgwyl, gyda

<sup>107</sup> Adroddiad a chrynodeb o'r ymatebion, diwygio TAN1 a TAN2, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

<sup>108</sup> <http://www.countryside.wales.gov.uk/fe/master.asp?n1=797&n2=123&n3=831>

<sup>109</sup> Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r agweddau ar gynllunio sy'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, [http://new.wales.gov.uk/legacy\\_en/organicabinet/content/statements/2004/090304-epcreport-e.doc](http://new.wales.gov.uk/legacy_en/organicabinet/content/statements/2004/090304-epcreport-e.doc)

<sup>110</sup> Barker. K, 2004

chyfran sylweddol arall o gyrrff sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC). Daeth gweddill yr ymatebion i law oddi wrth sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant tai, gan gynnwys adeiladwyr a chymdeithasai tai.

#### **Ffigur A4:1 TAN 1 a 2 Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad**

• Tai Bellway	• Cymdeithas y Gyfraith
• CBS Blaenau Gwent	• Level
• CBS Pen-y-bont ar Ogwr	• Menter Merthyr
• CBS Caerffili	• CS Mynwy
• CD Caerdydd	• Undeb Ffermwyr Cenedlaethol Cymru
• CS Caerfyrddin	• CBS Castell-nedd Port Talbot
• CS Ceredigion	• CD Casnewydd
• Y Sefydliad Tai Siartredig	• CS Penfro
• Dinas a Sir Abertawe	• Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
• CBS Conwy	• Fferm Ystâd Penllyn
• Cyngor Benthycwyr Morgeisi	• Plaid Cymru
• Cyngor y Parciau Cenedlaethol	• Y Swyddfa Gynllunio
• Cyngor Diogelu Cymru Wledig	• Arolygiaeth Cynllunio (Cymru)
• Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad	• CS Powys
• Cyngor Cefn Gwlad Cymru	• Tai Redrow
• Cymdeithas Tai Eryri	• CBS Rhondda Cynon Taf
• CS Dinbych	• Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig (Cymru)
• Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	• RTPI Cymru
• Undeb Amaethwyr Cymru	• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
• CD Flint	• Cymdeithas Dai Abertawe
• Cyfeillion y Ddaear Cymru	• Bro Morgannwg
• Consortiwm GENUS	• Awdurdod Datblygu Cymru
• Tai Gwerin	• Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru
• CS Gwynedd	• Bwrdd yr Iaith Gymraeg
• Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	• Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
• CS Ynys Môn	
• Elin Jones AC	

#### **Dulliau Lledaenu**

Mae TAN 2 yn ddogfen ddwyieithog yn cynnwys 22 o dudalennau. Gellir cael mynediad ato'n electronig ar wefan yr Is-adran Gynllunio, neu drwy gyfrwng gwefan y Porth i Gynllunio. Mae ar gael ar ffurf copi caled, dim ond gofyn amdano.

## **Astudiaeth Achos 6 - TAN 8 – Ynni Adnewyddadwy**

### **Disgrifiad a Chefndir**

Mae TAN 8<sup>111</sup> yn darparu canllawiau cynllunio'r Cynulliad o safbwynt ynni adnewyddadwy ac fe'i mabwysiadwyd a'i gyhoeddi yn 2005. Mae ynni adnewyddadwy yn gynyddol bwysig yn y gymdeithas sydd ohoni, ac oherwydd hyn, mae wedi effeithio ar y system gynllunio, gan arwain at gyhoeddi'r ddogfen hon. Yn yr hyn a ysgogodd y ddogfen hon yn y lle cyntaf oedd pwysau gan weinidogion i greu ymagwedd ofodol tuag at bolisi ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Cychwynwyd ar y broses hon yn 2001, sef tua'r un adeg â drafftio'r PCC.

Dengys TAN 8 sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol bennu targedau o ran ynni adnewyddadwy, ac mae'n cyflwyno ystod o ddogfennau gan gyrff megis WWF Cymru sy'n ymwneud ag arferion gorau yn nhermau effeithlonrwydd ynni. Manylir ar y testun hwn yn TAN 12 – Dylunio,<sup>112</sup> lle caiff nifer o nodweddion dylunio ynni-effeithlon eu disgrifio.

Mae TAN 8 yn llai rhagnodol na llawer o'r rhai eraill yn y gyfres, yn enwedig o safbwynt effeithlonrwydd ynni yng nghyd-destun defnyddio rheoliadau adeiladu fel y prif ddull o ymyrryd ar lefel genedlaethol. Mae nifer o atodiadau i'r ddogfen hon, sy'n rhoi canllawiau penodol ar wahanol feysydd ynni adnewyddadwy, er enghraifft: ynni dŵr, pŵer y gwynt a thechnoleg i harneisio pŵer tonnau. Mae hefyd yn nodi cyfres o Ardaloedd Chwilio Strategol (SSA) lle y tybir y gellid creu datblygiadau ynni gwynt ar y tir. Nodwyd y saith SSA hyn yn sgil ymarfer ymchwil trylwyr a gynhaliwyd gan Arup, oedd â gwybodaeth benodol am y mathau o safleoedd yr oedd eu hangen er mwyn datblygu ffermydd gwynt 800 Megawatt ar y tir.

Cododd nifer o broblemau yn ystod y broses o ddatblygu'r ddogfen hon, yn bennaf oherwydd proffil gwleidyddol uchel y ddadl ar ynni adnewyddadwy, ac yn fwy penodol, y ddadl sydd wedi codi am ffermydd gwynt ar y tir. Roedd tensiwn yn fewnol o safbwynt yr ymdrech i greu dogfen sy'n hyrwyddo datblygu economaidd ac ar yr un pryd, diogelu amgylchedd naturiol Cymru. Teimlwyd ar brydiau nad oedd gan rai o'r cyfranogwyr a oedd yn cyfrannu o safbwynt datblygu economaidd wybodaeth ddigon trylwyr o'r fframwaith cynllunio, a'u bod yn ceisio defnyddio'r ddogfen hon i gyflawni amcanion nad oeddent yn ymwneud â chynllunio. Wrth wneud hyn, teimlwyd bod hyn wedi cyfyngu ar sgôp Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddefnyddio eu pwerau disgrisiwn wrth fynd i'r afael â'r pwnc hwn.

Cyfyngwyd ar y TAN hwn hefyd gan yr angen i weithio tuag at dargedau adnewyddu penodol sydd, ym marn rhai pobl, yn afrealistig ac nad ydynt yn seiliedig ar sail dystiolaeth gadarn. Ni thalwyd ddigon o sylw at y capasiti i ddarparu'r targed hwn a'r canlyniadau o ran y farn gyhoeddus a'r sgil-effeithiau gwleidyddol.

<sup>111</sup> TAN 8: Ynni Adnewyddadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

<sup>112</sup> TAN 12: Dylunio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

## Y Broses Ddrafftio ac Ymgynghori

Cafodd y broses o ddatblygu TAN 8 ei llywio i gychwyn gan y gwaith o ffurfio TAG tebyg i'r rheini a ffurfiwyd ar gyfer TANs eraill megis TAN 1 a TAN 2. Ffurfiwyd y TAG yn 2001 gyda chynrychiolwyr o ystod eang o randdeiliaid. Y TAG hwn oedd y mwyaf hyd yma, yn cynnwys mwy na 12 cynrychiolwr fel y nodwyd fel mwyafrif delfrydol, ac mewn rhai cyfarfodydd, cafwyd hyd at 40 o gynrychiolwyr. Roedd hyn o ganlyniad i bwysau oddi wrth gyrff anllywodraethol a phartïon eraill â diddordeb, a oedd am fod yn rhan o'r TAG.

Roedd y ffaith bod y grŵp hwn mor fawr yn cael ei weld fel gwendid, yn enwedig yn yr achos hwn, gan ei bod yn golygu bod y gwaith o weithredu'r grŵp yn frith o anghytuno a safbwyntiau pegynnol. Roedd y TAG yn cynnwys partïon oedd â barn gwbl wahanol i'w gilydd, megis y RSPB a CPRW, a oedd yn llobio dros bolisïau a fyddai'n cyfyngu ar ffermydd gwynt ar y tir, tra roedd y WDA a chynrychiolwyr o gwmnïau ynni sector preifat a oedd yn cefnogi ymagwedd lai ymyrrol o lawer tuag at bolisïau ynni adnewyddadwy. Oherwydd hyn, roedd yn rhaid rheoli'r TAG yn llym, gyda nifer sylweddol o gyfarfodydd i drafod y gwahanol faterion dadleuol.

Tybir pe bai amserlen wedi'i phennu ar gyfer cyfarfodydd y TAG ar ddechrau'r broses hon, byddai wedi bod yn bosibl osgoi rhywfaint o'r oedi a gafwyd, am y byddai'r trafodaethau wedi gorfod cael eu cynnal yn ystod y cyfarfodydd penodol.

Roedd cynrychiolwyr i grwpiau ynni a'r WDA yn credu bod y drafftiau cychwynnol yn canolbwyntio'n ormodol ar effeithiau amgylcheddol y ffermydd gwynt ar y tir, a bod y polisïau yn gosod gormod o rwystrau i'r dechnoleg hon a datblygu economaidd. Roedd yr Is-adran Gynllunio wedi cefnogi ymagwedd hierarchaidd yn ystod y broses ddatblygu, gan edrych ar wahanol haenau o ymyrryd, gan gynnwys parthau clustogi, a diogelu ardaloedd penodol (a benodir gan amrywiol grwpiau amgylcheddol). Roedd y safbwyntiau pegynnol hyn yn ormod o rwystr, a daethpwyd â'r TAG at ei derfyn tua'r adeg hwn. Gwnaed hyn o ganlyniad i newidiadau gwleidyddol ac o'r pwynt hwnnw ymlaen, y WDA a chydweithwyr ynni'r Cynulliad a oedd yn gyfrifol am y broses. Golygodd hyn nad oedd unrhyw elfen o hyblygrwydd yn y broses ddrafftio, a rhoddwyd terfyn hefyd ar y cyfnod trafod cynhwysol a gafwyd yn y TAG.

Yn ôl cofnodion Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymru yn Nhŷr Cyffredin ar 1 Rhagfyr 2005<sup>113</sup> "Ym mis Mehefin 2003, rhoddwyd terfyn ar y TAG yn fyr-rybudd, ac o hynny ymlaen, cafodd TAN 8 Canllawiau Polisi Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru ei lunio yn fewnol gan y Cynulliad". Cafodd y cam hwn ei feirniadu gan rai am ei fod wedi amddifadu'r broses o ddatblygu'r polisi o ystod eang o wybodaeth a chyfraniadau, ac wedi rhoi terfyn ar dryloywder y broses ddatblygu. Rhestrir aelodau'r TAG isod.

<sup>113</sup> Pwyllgor Dethol Tŷr Cyffrein ar Faterion Cymru, Rhagfyr 1 2005  
<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmselect/cmwelaf/876/6020706.htm>

#### Ffigur A4:2 TAN 8 Aelodau'r TAG

- Brian Barrows **WDA**
- Dr Ruth Chambers **Y Cyngor dros Barciau Cenedlaethol**
- Neil Crumpton **Cyfeillion y Ddaear Cymru**
- Rod Edwards **Dulas Cyf**
- Simon Halfacree **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**
- Peter Hinson/ Dr Mark Legerton **BWEA**
- Gerald Hulin **CLILC, CBS Pen-y-bont ar Ogwr**
- Ste James **CLILC, CBS y Fflint**
- Dr Peter Minto **CCGC**
- Tony Prater / Mike Webb **RSPB Cymru**
- Haf Roberts **WWF Cymru**
- Steve Salt / Gerry Jewson **West Coast Energy**
- Ruth Stevenson **Prifysgol Aberystwyth**
- Sally Tansey **Y Comisiwn Coedwigaeth**
- Merfyn Williams/Geoff Sinclair **CPRW**

*Ffynhonnell: ARUP 2004*

Roedd y gwaith o adolygu a datblygu TAN 8 hefyd wedi'i lywio gan adroddiadau ymchwil a gynhaliwyd ar ran y Cynulliad. Un o'r adroddiadau mwyaf dylanwadol a luniwyd ar gyfer TAN 8 oedd adroddiad a gwblhawyd gan ARUP, yn dwyn y teitl *Facilitating Planning for Renewable Energy in Wales: Meeting the Target*<sup>114</sup>(feriswn Saesneg yn unig).

Comisiynwyd yr adroddiad hwn o dan yr WPRP i ddatblygu offeryn i gefnogi penderfyniadau ar gyfer TAN \* er mwyn helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddarparu ar gyfer ynni adnewyddadwy ac i ddarparu map i Gymru sy'n nodi 'ardaloedd chwilio strategol' a all gyflawni targed ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef pedair awr Terrawatt, erbyn 2010.

Cafodd canlyniadau'r prosiect ymchwil hwn eu bwydo yn uniongyrchol i'r drafft ymgynghori ar y TAN. Ffurfiwyd saith SSA ac roedd y rhain yn gyfran sylweddol o'r prosiect ymchwil, gan ddarparu ardaloedd chwilio am safleoedd addas ar gyfer datblygu ffermydd gwynt ar y tir. Yn ddiweddarach, cafodd y rhain eu hymgorffori i'r fersiwn o TAN 8 a gyhoeddwyd yn 2005.


Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion yn 2004. O ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd am ynni ac ynni adnewyddadwy, daeth mwy na 1,640 o ymatebion i law. Roedd tua 90% o'r ymatebion hyn yn gofyn pan fod y ddogfen yn canolbwyntio ar ffermydd gwynt ar y tir yn unig, pan fo targed gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru o safbwynt ynni adnewyddadwy yn seiliedig ar raniad tair-ffordd – sef ffermydd gwynt ar y tir, ffermydd gwynt ar y môr a thechnegol arall.

<sup>114</sup> Facilitating Planning for Renewable Energy in Wales: Meeting the Target, ARUP, 2004

Oherwydd yr ymateb cryf i'r ymgynghoriad hwn, aeth yr Is-adran Gynllunio ati i greu rhestr dabledig o ymatebion, wedi'u categoraiddio i ganolbwyntio ar yr amryw sylwadau a wnaed yn gysylltiedig â'r TAN. Cyflwynwyd ymatebion yr ymarfer ymgynghori, ynghyd ag ymateb y Cynulliad i'r amrywiol ymholiadau a'r camau a gymerwyd i ddatrys unrhyw wallau neu i adeiladu ar bynciau na theilwyd eu bod wedi'u trafod ddigon.

Mae'n bosibl y byddai'r ymgynghoriad hwn wedi elwa ar dull ymateb mwy strwythuredig er mwyn osgoi rhai o'r ymatebion cyffredin a'r ymatebion gwleidyddol eu natur, a chan ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud yn fwy penodol â chynllunio.

**Ffigur: A4: 3 Adrodd ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad**



### Dulliau Lledaenu

Mae TAN 8 ar gael ar dudlaennau gwe yr Is-adran Gynllunio. Caiff ei gyflwyno ynghyd â MIPPS ar Ynni Adnewyddadwy, yr wyth map GIS o'r ardaloedd SSA penodedig, Adroddiad Ymgynghori MIPPS a TAN 8, adolygiad o adroddiad ARUP a mapiau diweddaraf yr ardaloedd SSA ar gyfer fersiwn derfynol y TAN. Mae hefyd ar gael ar fformat copi caled, ac mae wedi'i argraffu yn ddwyieithog yn unol â pholisi'r Cynulliad. Ar ôl ei gwblhau, dosbarthwyd y TAN i aelodau'r TAG a ddaeth i ben cyn ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2005.

## **Astudiaeth Achos 7 - TAN 13 – Twristiaeth**

### **Disgrifiad a Chefndir**

Mae TAN 13 - Twristiaeth<sup>115</sup> yn nodi sut y dylai CDLlau gynnig cyfleoedd ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Mae TAN 13 yn cyfeirio at amrywiaeth o ddogfennau eraill y dylid darllen ochr yn ochr ag ef oherwydd natur gymhleth twristiaeth, sy'n cynnwys pynciau megis chwaraeon, adloniant, y celfyddydau a threftadaeth. Mae TAN 13 yn disgrifio dulliau o hybu twristiaeth drwy gyfrwng y broses CDLI, gan gyfeirio at safonau gwestai, y cyfleusterau gwerysyla a charafannau a ddarperir, a'r amodau tymhorol sy'n berthnasol i ganiatâd cynllunio sy'n gysylltiedig â safleoedd twristiaeth arbennig. Prif nod y TAN fodd bynnag, yw disgrifio'r ffordd orau o ystyried datblygiadau presennol sy'n ymwneud â thwristiaeth, a datblygiadau'r dyfodol, a sut y maent yn perthyn i amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardaloedd penodol mewn CDLlau.

### **Y Broses Ddrafftio ac Ymgynghori**

Cyhoeddwyd TAN 13 er mwyn diweddarau nodyn presennol y Swyddfa Gymreig, a oedd yn cael ei weld yn amherthnasol am nad oedd yn ystyried materion a oedd yn ymwneud yn benodol â Chymru a'r sail dystiolaeth a oedd wedi dyddio. Ar ôl ei ddiweddarau, disgwylir i'r TAN gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2007, a chaiff ei weld fel gwelliant mawr ar ei ragflaenydd am ei fod yn cynnig polisiau sy'n berthnasol i Gymru.

Dechreuodd y broses o ddiwygio TAN 13 ym mis Medi 2003, gyda thîm o staff o'r Is-adran Gynllunio yn gyfrifol am y broses ddrafftio. Roedd y broses ddrafftio ei hun wedi cymryd rhyw 18 mis, serch hyn, am gyfnod sylweddol cafodd y gwaith ei ohirio am fod gan staff y Cynulliad flaenoriaethau eraill.

